# Rhaglen Gyflawn

**Gwasanaethau Democrataidd**
Swyddfa'r Cygnor
CAERNARFON
Gwynedd
LL55 1SH

Cyfarfod

**PWYLLGOR CRAFFU CYMUNEDAU TROSEDD AC ANRHEFN**

Dyddiad ac Amser

**10.30 y.b., DYDD IAU, 23AIN IONAWR, 2025**

**Bydd y cyfarfod yn cael ei we-ddarlledu**

**https://gwynedd.public-i.tv/core/l/cy_GB/portal/home**

**Noder: Cynhelir Sesiwn Briffio i'r Aelodau am 10:00yb**

Lleoliad

**Siambr Hywel Dda, Swyddfeydd y Cyngor, Caernarfon, LL55 1SH**

**Ac yn rhithiol drwy Zoom**

Pwynt Cyswllt

**Rhodri Jones**

**01286 679556**

**rhodrijones1@gwynedd.llyw.cymru**

# PWYLLGOR CRAFFU CYMUNEDAU

## AELODAETH (18)

## Plaid Cymru (12)

Y Cynghorwyr

| | | |
|---|---|---|
| Elwyn Edwards | Delyth Lloyd Griffiths | Annwen Hughes |
| Elin Hywel | Linda Morgan | Edgar Wyn Owen |
| Arwyn Herald Roberts | Beca Roberts | Jina Gwyrfai |
| Beca Brown | Berwyn Parry Jones | Elfed Williams |

## Annibynnol (5)

Y Cynghorwyr

| | |
|---|---|
| Robert Glyn Daniels | Elfed Powell Roberts |
| Peter Thomas | Rob Triggs |
| Gruffydd Williams | |

## Liberal Democrats / Labour(1)

Y Cynghorydd Stephen Churchman

## Aelodau Ex-officio

Is-Gadeirydd y Cyngor

# R H A G L E N


## 1. ETHOL IS-GADEIRYDD

I ethol Is-gadeirydd ar gyfer 2024-25.

## 2. YMDDIHEURIADAU

I dderbyn ymddiheuriadau am absenoldeb.

## 3. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

I dderbyn unrhyw ddatganiad o fuddiant personol.

## 4. MATERION BRYS

Nodi unrhyw eitemau sy'n fater brys ym marn y Cadeirydd fel y gellir eu hystyried.

## 5. COFNODION — 5 - 11

Bydd y Cadeirydd yn cynnig y dylid llofnodi cofnodion cyfarfod y Pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar 07 Tachwedd 2024 fel rhai cywir.

## 6. DIWEDDARIAD BLYNYDDOL GAN BARTNERIAETH DIOGELWCH CYMUNEDOL GWYNEDD A MÔN — 12 - 31

I roi trosolwg i Aelodau o weithgareddau Partneriaeth Diogelwch Cymunedol Gwynedd a Môn.

## 7. ADRODDIAD BLYNYDDOL 2023/24 CYNLLUN ARGYFWNG HINSAWDD A NATUR — 32 - 73

I graffu Adroddiad Blynyddol 2023/24 Cynllun Argyfwng Hinsawdd a Natur sy'n rhan o Gynllun y Cyngor 2023-29 – Gwynedd Werdd.

## 8. ADRODDIAD CYNNYDD BWRDD GWASANAETHAU CYHOEDDUS GWYNEDD AC YNYS MÔN — 74 - 88

I graffu Adroddiad Cynnydd Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwynedd ac Ynys Môn.

## 9. BLAENRAGLEN PWYLLGOR CRAFFU CYMUNEDAU — 89 - 90

Mabwysiadu rhaglen waith diwygiedig ar gyfer 2024/25.

## 10. CYFARFOD HERIO PERFFORMAD AMGYLCHEDD — 91

I enwebu cynrychiolwr i fynychu cyfarfod herio perfformiad yr Adran Amgylchedd.

**PWYLLGOR CRAFFU CYMUNEDAU, 07 TACHWEDD 2024**

**Presenoldeb:**

**Y CYNGHORWYR:** Annwen Hughes (Cadeirydd)
Llio Elenid Owen (Is-gadeirydd)

Stephen Churchman, Elwyn Edwards, Elin Hywel, Beca Roberts, Delyth Lloyd Griffiths, Rhys Tudur, Linda Morgan, Arwyn Herald Roberts, Jina Gwyrfai, Robert Glyn Daniels, Peter Thomas, Rob Triggs a Gruffydd Williams.

**Swyddogion yn bresennol:**
Bethan Adams (Ymgynghorydd Craffu) a Rhodri Jones (Swyddog Gwasanaethau Democratiaeth).

**Yn bresennol ar gyfer Eitem 5:**
Dafydd Williams (Pennaeth Adran Amgylchedd), Gareth Jones (Pennaeth Cynorthwyol, Adran Amgylchedd), Bob Thomas (Arweinydd Tîm Polisi Cynllunio), a Llywela Haf Owain (Uwch Ymgynghorydd Iaith a Chraffu).

1. **YMDDIHEURIADAU**

   Derbyniwyd ymddiheuriadau gan y Cynghorwyr Edgar Wyn Owen ac Elfed Powell Roberts.

2. **DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

   Derbyniwyd datganiad o fuddiant personol gan y Cynghorydd Rhys Tudur ar gyfer Eitem 5 gan ei fod wedi bod yn aelod o Gomisiwn Cymunedau Cymraeg yn y gorffennol. Nid oedd yn fuddiant sy'n rhagfarnu ac ni adawodd y cyfarfod ar gyfer y drafodaeth.

3. **MATERION BRYS**

   Dim i'w nodi.

4. **COFNODION**

   Llofnododd y Cadeirydd gofnodion y cyfarfod blaenorol o'r pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar 12 Medi 2024, fel rhai cywir.

5. **CYNLLUNIO A CHYMUNEDAU CYMRAEG**

   Cyflwynwyd yr adroddiad gan Bennaeth a Phennaeth Cynorthwyol yr Adran Amgylchedd ac Arweinydd y Tîm Polisi Cynllunio. Roedd yr Uwch Ymgynghorydd Iaith a Chraffu hefyd yn bresennol i roi arweiniad ar faterion yr iaith Gymraeg.

   Cymerodd y Pennaeth Amgylchedd y cyfle i ddiolch i'r Cynghorydd Dafydd Meurig am ei gefnogaeth i'r Adran a'i angerdd am yr iaith Gymraeg a materion cynllunio drwy gydol ei gyfnod fel Aelod Cabinet Amgylchedd. Ategodd y Cadeirydd y diolchiadau i'r cyn Aelod Cabinet ar ran y Pwyllgor.

   Adroddwyd bod gwarchod yr iaith Gymraeg yn bwysig iawn i'r Adran a'i fod wedi cydweithio gyda'r Uned Iaith er mwyn paratoi'r adroddiad hwn.

Cadarnhawyd bod Canllaw Cynllunio Atodol - Cynnal a Chreu Cymunedau Nodedig a Chynaliadwy yn weithredol er mwyn sicrhau bod effaith datblygiadau ar yr iaith Gymraeg yn cael sylw teilwng o fewn y maes cynllunio. Manylwyd bod dau brif faen prawf i weld o fewn y Canllaw hwn er mwyn sicrhau bod datblygwyr yn deall pwysigrwydd cyflwyno datganiad / asesiad effaith iaith wrth gyflwyno cais am ganiatâd cynllunio. Eglurwyd mai cyfrifoldeb y datblygwr yw darparu asesiad iaith ar gyfer unrhyw ddatblygiad gan nodi nad yw'r Cyngor yn eu cynorthwyo i wneud hyn y tu hwnt i'r arweiniad a geir o fewn y Canllaw Cynllunio Atodol.

Eglurwyd bod y Canllaw Cynllunio Atodol yn rhoi arweiniad manwl i ddatblygwyr a darpar ymgeiswyr ynglŷn ag ystyriaethau'r iaith Gymraeg. Ymhelaethwyd ei fod hefyd yn darparu methodoleg ar sut i ddatblygu datganiadau ac asesiadau effaith iaith Gymraeg. Cadarnhawyd bod yr Adran wedi cychwyn y broses o ddatblygu Cynllun Datblygu Lleol newydd ar gyfer ardal awdurdod cynllunio Gwynedd (gan eithrio ardaloedd y Sir sydd o fewn ffiniau'r Parc Cenedlaethol). Nodwyd bod y broses hon yn rhoi'r cyfle i ystyried a diwygio gweithdrefnau, pholisïau a'r Canllaw Cynllunio Atodol. Tynnwyd sylw y bydd cyfle i Aelodau Etholedig ac i'r Pwyllgor Craffu Cymunedau yn benodol i roi mewnbwn fel rhan o'r broses o ddatblygu Cynllun newydd.

Nodwyd bod enghreifftiau wedi bod yn y gorffennol o geisiadau cynllunio sydd wedi cael eu gwrthod oherwydd nad oedd tystiolaeth ddigonol am yr iaith Gymraeg. Eglurwyd bod rhai o'r achosion hyn wedi cael eu gwrthod ar apêl cynllunio i Lywodraeth Cymru hefyd.

Pwysleisiwyd bod y maes cynllunio yn gweithredu o fewn fframwaith statudol a fframwaith polisi cenedlaethol. Eglurwyd bod y rhain yn gosod y sail a chyd-destun i Bolisi Cynllunio Gwynedd ac effeithio a chyfyngu ar beth ellir ei gynnwys o fewn Cynllun Datblygu Lleol. Eglurwyd bod gwybodaeth bellach ar faterion polisi cenedlaethol, rhanbarthol a lleol wedi ei gynnwys o fewn yr Adroddiad.

Cyfeiriwyd at Bolisi PS 1 'Yr Iaith Gymraeg a'r Diwylliant Cymreig' o'r Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd. Eglurwyd bod y polisi yn gosod allan y gofynion o ran ystyriaeth o'r iaith Gymraeg. Tynnwyd sylw at y trothwyon a oedd wedi eu cynnwys yn Atodiad 1 o'r adroddiad.

Tynnwyd sylw bod y drefn cynllunio yn gallu hyrwyddo'r iaith Gymraeg drwy annog datblygwyr i ddefnyddio enwau Cymraeg neu ddwyieithog yn ogystal â defnyddio enwau Cymraeg mewn busnesau.

Adroddwyd bod pryder am y defnydd o stoc dai yng Ngwynedd gan fod nifer o dai lleol wedi cael eu trosi yn ail gartrefi a llety gwyliau byr dymor dros y blynyddoedd diwethaf. Atgoffwyd yr Aelodau bod Cyfarwyddyd Erthygl 4 yn weithredol ers 1 Medi 2024 er mwyn mynd i'r afael a'r her hon. Gobeithiwyd bydd hyn yn sicrhau mwy o reolaeth ar y stoc dai bresennol, gan fod angen caniatâd cynllunio er mwyn trosi prif fan preswyl yn ail gartref neu lety gwyliau tymor byr. Ystyriwyd bydd hyn yn diwallu anghenion tai'r cymunedau lleol gan annog yr iaith Gymraeg i ffynnu yng Ngwynedd.

Cadarnhawyd fod y maes cynllunio a'r iaith Gymraeg yn un cymhleth iawn ac yn cael ei effeithio gan ffactorau y tu hwnt i Wynedd megis rheoliadau cenedlaethol a chanlyniadau'r cyfrifiad. Ychwanegwyd bod rheolau mewn grym er mwyn sicrhau nad yw Awdurdodau Lleol yn rheoli iaith meddianwyr tai newydd. Er hyn, pwysleisiwyd bod polisïau a chanllawiau Gwynedd yn sicrhau bod datblygiadau yn cael eu caniatáu yn yr ardaloedd iawn gan arwain a chyfrannu at ddatblygiad cymunedau cynaliadwy.

Yn ystod y drafodaeth, cyflwynwyd y sylwadau a ganlyn:-

Gofynnwyd ar ba sail ieithyddol mae ceisiadau cynllunio wedi eu gwrthod, a oedd y ceisiadau hyn yn rai sydd heb gyflwyno datganiad / asesiad effaith iaith yn rhan o'r cais. Mewn ymateb i'r ymholiad, cadarnhaodd y Pennaeth Cynorthwyol bod ceisiadau yn cael eu gwrthod ar sail ieithyddol os nad yw'r wybodaeth sydd yn cael ei gyflwyno mewn datganiadau iaith yn ddigonol, neu os nad oes digon o wybodaeth ieithyddol wedi cael ei gynnwys fel rhan o'r cais yn ei gyfanrwydd. Cadarnhawyd bod achosion wedi bod yn y gorffennol ble mae ceisiadau cynllunio wedi cael eu gwrthod oherwydd yr herio sy'n cael ei wneud ar geisiadau.

Pryderwyd mai'r datblygwyr yn unig sydd yn asesu effaith ieithyddol datblygiadau cynllunio, gyda'r Uned Iaith yn rhoi barn arbenigol ar yr hyn a gyflwynwyd. Mynegwyd pryder bod hyn yn caniatáu datblygwyr i ffocysu ar bwyntiau cadarnhaol y datblygiad er mwyn derbyn caniatâd cynllunio, yn hytrach na chwblhau ymchwil cytbwys. Ychwanegwyd ei fod yn anodd i aelodau'r Pwyllgor Cynllunio i herio'r datganiadau ieithyddol hyn oherwydd diffyg tystiolaeth. Cynigiwyd gwahodd Cynghorau Cymuned a Thref i gyflwyno sylwadau ieithyddol i'r Cyngor wrth ymateb i geisiadau cynllunio lleol. Mewn ymateb i'r sylwadau, cadarnhaodd y Pennaeth Cynorthwyol nad yw'r holl wybodaeth sydd yn cael ei gyflwyno gan ddatblygwyr yn cael ei dderbyn yn ddiamod. Pwysleisiwyd bod swyddogion y Gwasanaeth Cynllunio a'r Uned Iaith yn herio'r wybodaeth sydd yn dod i law er mwyn sicrhau cywirdeb.

Cyfeiriwyd at restr wirio datganiadau ieithyddol yr Uned Iaith gan nodi bod rhai o'r ystyriaethau yn mynd tu hwnt i elfennau ieithyddol. Nodwyd y dylai pob cwestiwn ac ystyriaeth ar y rhestr wirio fod yn ganolog i'r iaith Gymraeg. Tynnwyd sylw nad oes cyfeiriad at enedigaethau i'w weld o fewn y rhestr wirio. Nodwyd y dylai'r pwnc hwn gael ystyriaeth deg gan ddatblygwyr wrth lunio datganiad / asesiad effaith ieithyddol. Mewn ymateb i'r sylwadau, cadarnhaodd yr Uwch Ymgynghorydd Iaith a Chraffu nad yw'r rhestr wirio yn gynhwysfawr o'r holl ystyriaethau mae'r Uned Iaith yn eu cwblhau wrth ymateb i ddatganiadau iaith, ond ei fod yn cynnwys y prif bwyntiau i'w hystyried. Sicrhawyd bod genedigaethau yn cael ystyriaeth swyddogion yr Uned Iaith os oes pryder am niferoedd siaradwyr Cymraeg mewn ardaloedd o ystyried ffigyrau'r Cyfrifiad. Ychwanegwyd ei fod yn gyfle i ystyried ychwanegu cynnwys ffeithiau o'r math hwn fel gwybodaeth angenrheidiol i ddatblygwyr wrth iddynt fynd ati i lunio datganiad / asesiad effaith ieithyddol.

Gofynnwyd pa waith ymchwil a thystiolaeth sydd ar gael i brofi nad oes niwed arwyddocaol wedi cael ei wneud i'r iaith Gymraeg wrth ganiatáu datblygiadau cynllunio. Mewn ymateb, cadarnhaodd y Pennaeth Cynorthwyol bod ymchwil corfforaethol wedi cael ei gwblhau gan y Cyngor rhai blynyddoedd yn ôl a oedd yn manylu ar ddatblygiadau tai'r Sir. Eglurwyd bod yr ymchwil yn ceisio asesu iaith meddianwyr tai yn yr ardal a gwybodaeth bellach am bwy oedd yn byw yn y tai yn flaenorol. Nodwyd bod canran siaradwyr Cymraeg meddianwyr datblygiadau tai newydd yng Ngwynedd yn gyson gyda chanran siaradwyr Cymraeg yng Ngwynedd yn ei gyfanrwydd. Ystyriwyd hyn i fod yn ganlyniadau cadarnhaol iawn ond nodwyd bod hyn wedi cael ei gwblhau yn ystod y Cynllun Datblygu Lleol blaenorol.

Nodwyd bod yr iaith Gymraeg yn ganolog i Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a Chymunedau Ffyniannus Gymraeg. Cytunodd y Pennaeth Cynorthwyol gan ymfalchïo fod yr iaith Gymraeg yn bwysig mewn nifer o ystyriaethau.

Mynegwyd ystyriaethau a phryderon am effaith Polisi Gosod Tai ar gymunedau Gwynedd. Mewn ymateb, pwysleisiodd y Pennaeth Cynorthwyol bod y polisi hwn yn

berthnasol ar gyfer yr Adran Tai ac Eiddo ac nid yw'n disgyn o fewn cyfrifoldebau'r Gwasanaeth Cynllunio. Cydnabuwyd pwysigrwydd Cymdeithasau Tai a'u gallu i ddarparu cartrefi i unigolion a theuluoedd sydd mewn angen. Diolchwyd iddynt am gydweithio gyda'r Cyngor. Nodwyd hefyd bod tystiolaeth eang am yr angen am dai fforddiadwy yng Ngwynedd ond nad oes modd o ddylanwadu ar iaith meddianwyr y tai hynny. Tynnwyd sylw at ddatblygiadau preifat gan nodi nad oes gan y Cyngor ddylanwad ar eu meddiannaeth ychwaith.

Gofynnwyd a oes angen monitro gweithdrefnau'r Cyngor yn amlach na pob 5 mlynedd fel nodwyd yn yr Adroddiad. Cadarnhaodd y Pennaeth Cynorthwyol bod y Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd yn cael ei fonitro'n flynyddol, gydag Adroddiad blynyddol yn cael ei baratoi. Cadarnhawyd bod fframwaith fonitro a dangosyddion penodol mewn lle. Cydnabuwyd nad yw'r angen i gyflawni ymchwil penodol wedi cael ei adnabod fel dangosydd ond nodwyd y gall hyn fod yn ystyriaeth wrth i'r Cynllun gael ei adolygu.

Mewn ymateb i ymholiad, cadarnhaodd y Pennaeth Cynorthwyol bod yr iaith Gymraeg yn ganolog i waith yr Adran ar gyfer holl ardaloedd yr awdurdod cynllunio. Pwysleisiwyd nad oes unrhyw ardal yn cael ystyriaeth fanylach nag eraill o ran anghenion ieithyddol.

Gofynnwyd a yw maint cymunedau yn cael ei ystyried wrth asesu ceisiadau cynllunio. Manylwyd nad oes angen cyflwyno datganiad / asesiad effaith ieithyddol ar unrhyw ddatblygiad sydd yn llai na 5 tŷ, gan ystyried gall hyn gael effaith niweidiol ar gymunedau gyda phoblogaeth isel. Mewn ymateb i'r sylwadau, cadarnhaodd y Pennaeth Cynorthwyol bod yr ystyriaeth a roddir yn gymesur â graddfa a lleoliad y datblygiad. Tynnwyd sylw bod hyn yn gallu arwain at yr angen i gyflwyno datganiad / asesiad effaith ar yr iaith Gymraeg ar gyfer datblygiadau llai na 5 tŷ. Pwysleisiwyd bod enghreifftiau wedi bod yn y gorffennol ble mae gofyn am asesiad ieithyddol ar gyfer datblygu 1 tŷ os yw'r lefel Twf Dangosol yn yr ardal honno wedi cyrraedd ei uchafswm. Cadarnhawyd gall Aelodau Lleol ofyn i ddatblygwyr gyflwyno asesiad iaith ar gyfer datblygiad, yn ogystal â chyflwyno sylwadau fel yr Aelod Lleol. Er hyn, nid oes modd gwarantu bod y datblygiadau yn cyrraedd lefelau trothwyon gwahanol asesiadau gan nodi na fydd datganiad / asesiad effaith iaith yn cael ei gyflwyno gyda phob cais cynllunio o'r herwydd.

Diolchwyd i'r Uned Iaith am eu gwaith o ddarparu'r rhestru gwirio ar gyfer asesiadau ieithyddol. Gofynnwyd a yw swyddogion yn dehongli data er mwyn sicrhau ei fod yn gyfredol ac yn gywir. Mewn ymateb i'r sylwadau, cadarnhaodd y Pennaeth Cynorthwyol bod arbenigedd swyddogion yr Uned Iaith yn bwydo i mewn i'r broses cynllunio. Cydnabuwyd nad oes cymhwyster penodol mae cynllunwyr ieithyddol neu gynllunio yn gorfod ei wneud er mwyn cyflwyno asesiadau iaith. Cadarnhawyd eu bod yn defnyddio'r holl wybodaeth sydd ar gael iddynt o ystyried yr ymyraethau sydd yn cyfyngu'r drefn gynllunio yn genedlaethol a rhanbarthol. Atgoffwyd yr Aelodau bod gweithdrefnau'r Cyngor yn mynd tu hwnt i ofynion Llywodraeth Cymru, gan nodi ei fod yn amserol i'r Llywodraeth adolygu eu rheoliadau er mwyn sicrhau mwy o gefnogaeth i'r Gymraeg yn y maes hwn ar draws Cymru. Ymhellach, cadarnhawyd bod y Cynllun Datblygu Lleol yn gadarn gan ei fod wedi ei herio a'i gymeradwyo gan Lywodraeth Cymru.

Cyfeiriwyd at Nodyn Cyngor Technegol (TAN) 20: Cynllunio a'r Gymraeg gan ystyried pryd fyddai'n cael ei adolygu gan Lywodraeth Cymru. Mewn ymateb, cadarnhaodd y Pennaeth Cynorthwyol gallai adroddiad diweddar ac argymhellion y Comisiwn Cymunedau Cymraeg annog Llywodraeth Cymru i newid polisïau ar lefel genedlaethol.

Tynnwyd sylw bod yr adroddiad yn nodi 'dylid' ymgynghori gyda Chomisiynydd y Gymraeg wrth baratoi Cynllun Datblygu Lleol. Holwyd os oedd hyn yn safonol oherwydd teimlwyd bod rhaid cysylltu gyda'r Comisiynydd wrth baratoi'r Cynllun diwygiedig. Mewn ymateb, cytunodd y Pennaeth Cynorthwyol na ddylai cysylltu gyda Chomisiynydd y

Gymraeg fod yn gam dewisol wrth baratoi'r cynllun a sicrhawyd bod yr adran wedi cysylltu gyda'r Comisiynydd wrth ddarparu'r Cynllun Datblygu Lleol cyfredol. Ymhellach, pwysleisiodd yr Arweinydd Tîm Polisi Cynllunio y bydd yr Adran yn ymgynghori gyda'r Comisiynydd wrth baratoi'r Cynllun Datblygu Lleol Newydd.

Nodwyd bod yr Adroddiad yn egluro y gall yr awdurdod annog pobl i gadw enwau traddodiadol Cymraeg ar gyfer datblygiadau a strydoedd newydd yn unol â TAN 20, gan ystyried os oes modd i'r Awdurdod orfodi enwau Cymraeg ar ddatblygiadau o'r fath er mwyn adlewyrchu iaith a diwylliant yr ardal. Mewn ymateb i'r ymholiad, cadarnhaodd yr Arweinydd Tîm Polisi Cynllunio bod y cyfeiriad hwn yn ddyfyniad uniongyrchol o'r polisi TAN 20 gan nodi gall y newid hwn fod yn sylw penodol i Lywodraeth Cymru ei ystyried yn ystod eu hadolygiad nesaf o'r polisi. Ychwanegodd y Pennaeth Cynorthwyol bod polisïau Cyngor Gwynedd yn manylu ar arwyddion. Manylwyd bod polisi PS 1 o'r Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd yn gosod amod cynllunio ar unrhyw ddatblygiadau tai a datblygiadau masnachol newydd i sicrhau enw Cymraeg ar eu harwyddion. Ymhelaethwyd bod y Gwasanaeth Cynllunio yn rhan o Fwrdd Prosiect Gwarchod Enwau Lleoedd Cynhenid Gwynedd er mwyn cydweithio i ymdrechu a hyrwyddo darpar ymgeiswyr i roi ystyriaeth i'r iaith ac amlygu ei bwysigrwydd o fewn diwylliant yr ardal.

Mewn ymateb i ymholiad ar fonitro effaith ieithyddol ar werthiant a phryniant tai o fewn ardaloedd wrth ystyried ceisiadau cynllunio, eglurodd y Pennaeth Cynorthwyol bod hon yn broses cymhleth iawn. Eglurwyd ei fod yn anodd iawn derbyn tystiolaeth ar effaith uniongyrchol Cyfarwyddyd Erthygl 4 ac ymyraethau eraill. Nodwyd bod y Cyngor yn gwneud gwaith ymchwil i mewn i effaith Premiwm Treth Cyngor ar hyn o bryd gan ychwanegu bod y Gwasanaeth Cynllunio yn defnyddio fframwaith fonitro er mwyn ystyried beth yw effaith Cyfarwyddyd Erthygl 4 ar yr ardal. Adroddwyd bod yr Adran hefyd yn datblygu Canllaw Cynllunio Atodol sydd yn cyfarch materion polisi dosbarth defnydd newydd sy'n bodoli ers i'r Cyfarwyddyd ddod i rym, nes bydd y Cynllun Datblygu Lleol wedi cael ei fabwysiadu, gan nodi bod hon yn broses heriol. Cydnabuwyd yr angen i gasglu data am oddeutu 2 flynedd er mwyn gallu asesu gwir effaith yr ymyraethau hyn. Cadarnhawyd bydd y data a gesglir yn cael ei gynnwys wrth ddatblygu Cynllun Datblygu Lleol newydd ac yn derbyn sylw o ogwydd effaith ieithyddol.

Gofynnwyd sut mae'r Adran yn rhoi sylw i effaith gronnol datblygiadau wrth ystyried pob cais cynllunio unigol. Mewn ymateb, cadarnhaodd yr Arweinydd Tîm Polisi Cynllunio bod yr Adran yn defnyddio system monitro tai. Eglurwyd bod y system hon yn cael ei ddefnyddio ers i'r Cynllun Datblygu Lleol presennol gael ei ddatblygu yn 2011. Cadarnhawyd bod y system yn gallu darparu gwybodaeth am ddatblygiadau eraill sydd wedi bod mewn ardaloedd penodol yn effeithiol. Esboniwyd nad yw hyn yn cynnwys data ar newidiadau mewn tenantiaeth y cymdeithasau tai ond nodwyd bod y wybodaeth yn cael ei gadw gan y cymdeithasau tai eu hunain.

Ymfalchïwyd bod yr Adran yn cyd-weld bod yr iaith Gymraeg yn bwysig i bob ardal o fewn yr awdurdod cynllunio a thu hwnt. Ystyriwyd a fyddai'n ddefnyddiol i ychwanegu mesurydd er mwyn gallu asesu os yw'r cyfraddau'r iaith Gymraeg yn 'lleihau', 'sefydlog' neu'n 'cynyddu' er mwyn derbyn ystyriaeth wrth asesu ceisiadau cynllunio. Mewn ymateb i'r sylwadau, nododd y Pennaeth Cynorthwyol bod hwn yn un elfen posib y dylid ei ystyried wrth ddatblygu Cynllun Datblygu Lleol newydd. Pwysleisiwyd yr angen i asesu syniadau o'r fath er mwyn sicrhau na fyddent yn arwain at effaith ieithyddol negyddol mewn rhai ardaloedd. Ychwanegodd yr Uwch Ymgynghorydd Iaith a Chraffu bod y Comisiwn Cymunedau Cymraeg wedi argymell cyflwyno Ardaloedd o Arwyddocâd Ieithyddol o fewn eu hargymhellion i'r Llywodraeth ac edrychwyd ymlaen at dderbyn sylwadau'r Llywodraeth ar y cynnig hwnnw.

Gofynnwyd am farn y swyddogion am beth fyddai'n gwella effeithlonrwydd datganiadau / asesiadau effaith ieithyddol a sut mae datblygu'r arfer orau o fewn y maes hwn. Mewn ymateb i'r ymholiad, cadarnhaodd y Pennaeth Cynorthwyol bod y cydweithio clos rhwng y gwasanaeth cynllunio a'r Uned Iaith yn gymorth i sicrhau bod datganiadau / asesiadau effaith ieithyddol yn cael eu hasesu'n effeithiol.

Ystyriwyd os oes modd ail-ymweld ag datganiadau / asesiadau effaith iaith er mwyn asesu os yw'r hyn a rhagdybiwyd wedi cael eu gwireddu, gan herio ymhellach os oes angen. Nododd y Pennaeth Cynorthwyol bod profiad swyddogion yr Uned Iaith a'r Gwasanaeth Cynllunio o asesu'r datganiadau / asesiadau effaith iaith yn fanteisiol er mwyn gallu cymharu effaith ieithyddol gwirioneddol datblygiad o'r hyn a ddwedwyd o fewn yr asesiad gwreiddiol.

Rhoddwyd ystyriaeth i asesiadau ieithyddol mewn cyd-destun apeliadau cynllunio. Holwyd os oedd penderfyniad i wrthod cais cynllunio wedi cael ei gadarnhau ar apêl oherwydd materion ieithyddol. Cadarnhaodd y Pennaeth Cynorthwyol bod achosion o geisiadau cynllunio sydd wedi eu gwrthod am faterion ieithyddol wedi cael eu gwrthod ar apêl hefyd. Mynegwyd balchder bod polisïau'r Cyngor am yr iaith Gymraeg wedi cael eu profi o fewn y system ac wedi dangos i fod yn gadarn.

Holwyd sut mae 'cymuned' yn cael ei ddiffinio o fewn y cyd-destun cynllunio. Mewn ymateb, cadarnhaodd y Pennaeth Cynorthwyol bod diffiniadau o 'gymuned', 'aneddleoedd', 'tref', 'pentrefi' ac eraill yn derbyn sylw parhaus wrth ddatblygu Cynllun Datblygu Lleol newydd.

Diolchwyd am yr adroddiad ac am y gwaith mae'r Adran a'r Cyngor yn ei wneud er mwyn gwarchod yr iaith Gymraeg.

**PENDERFYNWYD**

1. **Derbyn yr adroddiad gan nodi'r sylwadau a gyflwynwyd yn ystod y drafodaeth.**
2. **Bod y Pwyllgor yn gofyn i Lywodraeth Cymru i adolygu 'Polisi Cynllunio Cymru' a 'Nodyn Cyngor Technegol (TAN) 20: Cynllunio a'r Gymraeg' er mwyn sicrhau bod yr iaith Gymraeg yn cael ystyriaeth briodol.**
3. **Gofyn i'r Cymdeithasau Tai ddarparu data i'r Cyngor er mwyn asesu gwybodaeth am yr iaith Gymraeg ym maes cynllunio.**
4. **Cydnabod nad oes cymhwyster penodol wedi ei ddatblygu ar gyfer asesu effaith ieithyddol datblygiadau cynllunio. Argymell i'r Adran Amgylchedd a'r Uned Iaith y dylid cysylltu gyda'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol a Phrifysgol Bangor i'w hannog i ddatblygu hyfforddiant addas. .**
5. **Dylid atgoffa Cynghorau Cymuned a Thref o'u rhyddid i gyflwyno sylwadau am effaith ieithyddol posib gall datblygiadau cynllunio lleol ei gael ar yr ardal.**
6. **Dylid ystyried cynnal hyfforddiant cynllunio ieithyddol i Gynghorwyr er mwyn eu galluogi i gynorthwyo Cynghorau Cymuned a Thref i gyflwyno sylwadau ar effaith ieithyddol datblygiadau cynllunio.**

## 6. BLAENRAGLEN PWYLLGOR CRAFFU CYMUNEDAU

Cyflwynwyd yr adroddiad gan yr Ymgynghorydd Craffu.

Atgoffwyd bod Blaenraglen ddiwygiedig ar gyfer 2024/25 wedi ei gymeradwyo yng nghyfarfod y Pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar 12 Medi 2024.

Eglurwyd bod yr eitem 'Cynllun Datblygu Lleol Newydd – Dewisiadau Strategol, Gweledigaeth ag Amcanion' wedi llithro o'r cyfarfod hwn i gyfarfod 23 Ionawr 2025. Nodwyd bod eitem 'Cynllun Argyfwng Hinsawdd a Natur: Adroddiad Blynyddol 2023/24' hefyd wedi cael ei raglennu ar gyfer y cyfarfod hwn ond derbyniwyd cais i'w ail-raglennu ar gyfer cyfarfod Ionawr 2025.

Adroddwyd bod yr eitem 'Toiledau Cyhoeddus' wedi cael ei raglennu ar gyfer y cyfarfod hwn, ond cyn cyhoeddi'r rhaglen derbyniwyd neges yn nodi ni fyddai'n bosib cyflwyno'r adroddiad i'r cyfarfod yma. Eglurwyd yr angen i graffu'r eitem cyn cyflwyno'r Strategaeth Toiledau Cyhoeddus i'r Cabinet. Cadarnhawyd yr argymhellir rhaglennu'r eitem hon ar gyfer cyfarfod 20 Mawrth 2025 er mwyn sicrhau bod cyfle i graffu ychwanegu gwerth cyn i'r Cabinet ystyried y Strategaeth.

**PENDERFYNWYD**

1. **Rhaglennu'r eitemau canlynol:**
    - **'Cynllun Argyfwng Hinsawdd a Natur: Adroddiad Blynyddol 2023/24' ar gyfer cyfarfod 23 Ionawr 2025.**
    - **'Toiledau Cyhoeddus' ar gyfer cyfarfod 20 Mawrth 2025.**
2. **Mabwysiadu rhaglen waith diwygiedig ar gyfer 2024/25.**

Dechreuodd y cyfarfod am 10:30yb a gorffennodd am 12:45yp

___________________________________

**CADEIRYDD**

| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | Pwyllgor Craffu Cymunedau |
| **DYDDIAD** | 23/01/2024 |
| **TEITL** | Diweddariad Blynyddol gan Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol Gwynedd a Môn |
| **RHESWM DROS GRAFFU** | Rôl y Pwyllgor fel Pwyllgor Trosedd ac Anrhefn |
| **AWDUR** | Daron Owens – Uwch Swyddog Gweithredol |
| **AELOD CABINET** | Cyng Dilwyn Morgan |

**1. Pam fod angen ei graffu?**

Mae gofyn i'r Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol adrodd yn ffurfiol i'r Pwyllgor yn flynyddol er mwyn cyflwyno trosolwg o weithgareddau. Mae hyn yn sicrhau bod y Bartneriaeth yn cyflawni ei hymrwymiadau yn unol ag adrannau 19 a 20, Deddf Heddlu a Chyfiawnder Troseddol 2006.

**2. Beth yn union sydd angen ei graffu?**

- Gwaith y bartneriaeth dros y flwyddyn
- Blaenoriaethau'r bartneriaeth a chyfeiriad y gwaith i'r dyfodol

**3. Crynodeb a'r Materion Allweddol**

Mae'r adroddiad yn crynhoi gwaith y Bartneriaeth dros y flwyddyn yn ogystal a chyfeiriad y gwaith dros y flwyddyn nesaf.

**4. Cefndir / Cyd-destun**

**CEFNDIR:**

- Mae dyletswydd statudol ar Awdurdodau Lleol yn unol â Deddf Trosedd ac Anrhefn 1998, **a'r diwygiadau dilynol yn sgîl deddf Heddlu a Chyfiawnder Troseddol 2002 a 2006,** i weithio mewn partneriaeth gyda'r Heddlu, y Gwasanaeth Iechyd, y Gwasanaeth Prawf a'r Gwasanaeth Tân ac Achub. Dyma'r prif asiantaethau sy'n ffurfio'r Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol. Mae yna hefyd bartneriaid cyd-weithredol megis y Bwrdd Cynllunio Ardal (Camddefnyddio Sylweddau), Addysg, Cyfiawnder Ieuenctid a Cydlyniant Cymunedol.

- Fel aelod statudol o'r Bartneriaeth, mae'n bwysig bod y Cyngor yn cael ei gynrychioli'n briodol. Cyflawnir hyn drwy bresenoldeb yr aelod lleol gyda phortffolio Diogelwch Cymunedol, sef y Cynghorydd Dilwyn Morgan, a'r prif swyddog gyda chyfrifoldeb am y

gwaith, sef Dylan Owen (Cyfarwyddwr Statudol Gwasanaethau Cymdeithasol a Cadeirydd Presennol y Bartneriaeth).

- Mae gan y Bartneriaeth gyfrifoldeb i lunio a gweithredu strategaeth i atal a lleihau trais difrifol, yn dilyn diwygiadau i'r Ddeddf Trosedd ac Anhrefn o ganlyniad i'r Ddyletswydd Trais Difrifol newydd. Yng Ngogledd Cymru, mae dull rhanbarthol yn cael ei fabwysiadu.

- O dan y Ddeddf Trais Domestig, Troseddau a Dioddefwyr 2004, mae gan Bartneriaethau Diogelwch Cymunedol ddyletswydd statudol hefyd i sefydlu Adolygiadau Dynladdiad Domestig (*Domestic Homicide Reviews/*DHRs). Mae'r rhain yn adolygiad o'r amgylchiadau pan fo marwolaeth person 16 oed neu hŷn wedi, neu'n ymddangos ei bod wedi deillio o drais, cam-drin neu esgeulustod gan— (a) person yr oedd yn perthyn iddo neu wedi bod mewn perthynas bersonol agos, neu (b) yn aelod o'r un aelwyd ag ef ei hun, gyda golwg ar nodi'r gwersi i'w dysgu o'r farwolaeth.

- Mae presenoldeb da bob amser yn y cyfarfodydd chwarterol. Mae'r Partneriaid a'r Aelodau Lleol sy'n mynychu'r cyfarfodydd yn cyfrannu'n gadarnhaol, a rhennir data chwarterol ar ffigurau trosedd. Mae pob aelod cyfrifol o'r bartneriaeth yn cyfrannu'n ariannol at sefydlu dadansoddwr partneriaeth o fewn yr Heddlu, fel y gellir darparu data rheolaidd i gefnogi penderfyniadau sy'n seiliedig ar dystiolaeth.

- Mae gweithio rhwng partneriaid yn sylfaenol i ddiogelwch cymunedol. Y prif reswm dros gyflwyno PDCau yn ôl ym 1998, oedd sicrhau bod trosedd ac anhrefn yn cael ei ystyried yn '**broblem i bawb'** ac nid i'r Heddlu yn unig.

- Mae'n bwysig nodi nid ydym yn comisiynu unrhyw brosiectau neu wasanaethau yn uniongyrchol (dim ond y DHRs) **gan nad oes unrhyw arian yn cael ei ddyrannu yn barhaol i Ddiogelwch Cymunedol.** Mae unrhyw gyfleoedd ariannu yn 'ad hoc' a dim ond trwy wneud cais amdanynt y maent ar gael.

- Mae'r bartneriaeth yn gweithio yn unol â chynllun blynyddol. Ynghlwm mae cynllun 2024-25, sy'n seiliedig ar flaenoriaethau rhanbarthol y Strategaeth Bwrdd Gogledd Cymru Mwy Diogel. Y blaenoriaethau hyn yw:
  Atal Troseddau ac Ymddygiad Gwrthgymdeithasol
  Mynd i'r Afael â Throseddau Treisgar
  Mynd i'r Afael â Throseddau Cyfundrefnol Difrifol
  Diogelu ac adeiladu cymunedau gwydn a chynnal diogelwch y cyhoedd

**TROSOLWG O LEFELAU TROSEDDU DROS Y CYFNOD ADRODD**:

- Mae'r Heddlu'n ystyried ffigurau trosedd yn gyson, ac yn adolygu pob newid yn rhanbarthol ac yn lleol. Mae unrhyw newidiadau sylweddol yn destun dadansoddiad pellach. Yna bydd meysydd problemus yn cael eu hadolygu, gyda chynlluniau plismona ar waith i fynd i'r afael arnynt. Mae dulliau plismona lleol yn cynnwys gosod adnoddau bob dydd i fynd i'r afael â materion wrth iddynt ddod i'r amlwg.

- Mae'r Bartneriaeth yn derbyn data ar lefelau troseddu bob chwarter. Y data a ddefnyddiwn yn gyffredinol yw data cymhariaeth rhwng y cyfnod yn y flwyddyn gyfredol, a'r un cyfnod yn y flwyddyn flaenorol.

**DATA TROSEDDU**:

Mae’r tabl isod yn amlygu niferoedd y flwyddyn hyd yma ym mhob categori trosedd ar gyfer blynyddoedd ariannol 2023/24 a 2024/25. Defnyddir data cymharol ar gyfer y cyfnod rhwng 1 Ebrill a Rhagfyr 31 ar gyfer y ddwy flwyddyn ariannol. Hefyd wedi'i gynnwys ar y siart, mae'r newid cyfredol flwyddyn hyd yma ar gyfer 2024/25 o gymharu â 2023/24 a chymhariaeth â’r newid cyffredinol a welir ar draws Gogledd Cymru:

**Gwynedd**

| Gwynedd - Crime & Incident Data | Fiscal Year | | % Change (YTD) | *North Wales % Change (YTD)* |
|---|---|---|---|---|
| | 2023/24 (YTD) | 2024/25 (YTD) | | |
| **All Victim Based Crime** | 5,807 | 5,989 | **3.1%** | *0.6%* |
| **Violence with injury** | 844 | 843 | **-0.1%** | *-0.5%* |
| **Violence without injury** | 1,105 | 1,106 | **0.1%** | *-1.1%* |
| **Stalking & Harassment** | 970 | 1,082 | **11.5%** | *0.8%* |
| **Sexual offences** | 294 | 376 | **27.9%** | *14.6%* |
| **All Acquisitive Crime** | 1,516 | 1,419 | **-6.4%** | *-6.0%* |
| - Burglary Residential | 140 | 140 | **0.0%** | *2.4%* |
| - Burglary - Business and Community | 75 | 75 | **0.0%** | *4.2%* |
| - Robbery | 15 | 16 | **6.7%** | *38.5%* |
| - Vehicle Crime | 155 | 133 | **-14.2%** | *2.7%* |
| - Theft and Handling | 1131 | 1055 | **-6.7%** | *-9.3%* |
| **Criminal Damage & Arson** | 765 | 717 | **-6.3%** | *0.3%* |
| **Domestic Crime** | 1,171 | 1,179 | **0.7%** | *-3.3%* |
| **Domestic Incidents (non-crime)** | 608 | 600 | **-1.3%** | *-1.7%* |
| **Hate Crime** | 141 | 164 | **16.3%** | *10.9%* |
| **Anti-Social Behaviour** | 1,926 | 1,756 | **-8.8%** | *-4.1%* |
| **Substance used by Offender** (Alcohol and/or Drugs) | 871 | 614 | **-29.5%** | *-28.5%* |

- Yn gyffredinol, mae troseddau trais yn erbyn person wedi gostwng yng Ngwynedd yn 2024/25, o gymharu â’r un cyfnod y llynedd.

- Mae data’r flwyddyn hyd yma ar gyfer 2024/25 yn dangos cynnydd o 11.5% mewn troseddau Stelcian ac Aflonyddu, o gymharu â’r un cyfnod yn 2023/24. Mae Heddlu Gogledd Cymru, ynghyd â heddluoedd eraill ar draws y DU, wedi cael y dasg o gynhyrchu problem proffil yn canolbwyntio ar droseddau Stelcian, er mwyn deall y mater yn well.

- Mae lefel y Troseddau Rhyw a gofnodwyd hyd yma yn 2024/25 yng Ngwynedd wedi gweld cynnydd o gymharu â 2023/24. Gall fod amrywiadau sylweddol mewn troseddau a adroddir o wythnos i wythnos, yn rhannol oherwydd adrodd o droseddau

hanesyddol. Dangosodd dadansoddiad a gynhaliwyd ar ddiwedd Mai 2024 (pan oedd y newid canrannol dros 80%), fod y cynnydd yng Ngwynedd i lawr i gynnydd cychwynnol ar ddechrau'r flwyddyn ariannol mewn adrodd hanesyddol. Mae'r lefelau cofnodedig o droseddau rhyw yng Ngwynedd wedi sefydlogi dros y misoedd diwethaf, ac o ganlyniad mae gostyngiad yn y newid canrannol. Mae’r tablau isod yn amlygu’r cyfnod amser rhwng dyddiad y drosedd a phryd y bu adrodd i'r heddlu. Ar gyfer pob trosedd rhywiol, bu cynnydd yn ystod tri chwarter cyntaf 2024/25 mewn troseddau sy’n cael eu hadrodd i’r heddlu dros **12 mis ar ôl** iddynt ddigwydd (51 yn 2023/24 ac 84 yn 2024/25):

| Gwynedd: All Sexual Offences (April to December) | | |
|---|---|---|
| Reported to police | Q3 2023/24 | Q3 2024/25 |
| Within 7 days of offence | 60.6% | 58.1% |
| Within 28 days of offence | 9.4% | 9.3% |
| Between 28 days and 1 year of offence | 12.2% | 8.8% |
| Over 1 year after offence | 17.8% | 23.8% |

Wrth edrych ar droseddau treisio yn unig, mae’r cynnydd yn uwch eto, gyda 22 yn cael eu hadrodd **ar ôl 12 mis** yn 2023/24, o gymharu â 51 y flwyddyn ariannol hon:

| Gwynedd: Rape Offences (April to December) | | |
|---|---|---|
| Reported to police | Q3 2023/24 | Q3 2024/25 |
| Within 7 days of offence | 50.6% | 32.0% |
| Within 28 days of offence | 7.6% | 2.9% |
| Between 28 days and 1 year of offence | 13.9% | 15.5% |
| Over 1 year after offence | 27.8% | 49.5% |

Yn ogystal, mae'r tabl isod yn amlygu grŵp oedran a rhyw y rhai a ddrwgdybir mewn troseddau rhywiol sydd wedi digwydd yng Ngwynedd rhwng Ebrill a Rhagfyr 2024.Mae'r data yn dangos o'r 163 o bobl a ddrwgdybir, roedd dros 90% yn ddynion, gyda bron i 25% rhwng 25-34 oed:

| Suspect: Age Group | Female | Male |
|---|---|---|
| 0 - 11 | 0 | 2 |
| 12 - 17 | 4 | 12 |
| 18 - 24 | 2 | 27 |
| 25 - 34 | 3 | 40 |
| 35 - 44 | 2 | 29 |
| 45 - 54 | 2 | 19 |
| 55 - 64 | 0 | 11 |
| 65+ | 0 | 8 |
| U/K | 0 | 2 |
| Grand Total | 13 | 150 |

- Mae troseddau meddiangar yn cynnwys y categorïau Byrgleriaeth Preswyl, Byrgleriaeth Busnes a Chymuned, Lladrad, Troseddau Cerbyd a Dwyn a Thrin. Mae Byrgleriaeth Breswyl a Byrgleriaeth Busnes a Chymuned yr union yr un faint eleni o gymharu â'r llynedd, gyda gostyngiadau i'w gweld yn y niferoedd o Droseddau Cerbyd a Dwyn a Thrin. Dim ond Lladrad sydd wedi gweld cynnydd hyd yma yn 2024/25, fodd bynnag mae hyn ond yn cyfateb i un digwyddiad ychwanegol yn unig mewn cymhariaeth â'r llynedd.

- Gwelwyd gostyngiad yn nifer y troseddau Difrod Troseddol a Llosgi Bwriadol hyd yma yng Ngwynedd eleni. Mae'r gostyngiad hwn yn wahanol i'r darlun ar draws Gogledd Cymru gyfan, lle mae ychydig o gynnydd wedi'i weld.

- Mae Troseddau Domestig yng Ngwynedd wedi cynyddu ychydig iawn (0.7%) y flwyddyn hyd yma o gymharu â'r llynedd. Ar y cyfan, mae Gogledd Cymru wedi gweld gostyngiad cyffredinol mewn Troseddau Domestig a adroddir. Mae Digwyddiadau Domestig (Ddim yn Drosedd) yn alwadau a dderbynnir gan Ystafell Reoli Heddlu Gogledd Cymru sydd â elfen ddomestig iddynt; fodd bynnag nid ydynt yn drosedd ac felly nid ydynt yn cael eu cofnodi ar system rheoli cofnodion yr heddlu. Maent yn cynnwys digwyddiadau fel anghydfodau domestig llafar, lle nad oes trosedd wedi digwydd. Mae'r digwyddiadau hyn yn arwain at gyfeiriad CID 16, er mwyn ystyried rhannu gyda'r partneriaid diogelu perthnasol. Gwelwyd gostyngiad bychan yn niferoedd y rhain yng Ngwynedd yn 2024/25, o gymharu â'r flwyddyn flaenorol. Ar draws Gogledd Cymru hefyd, bu a gostyngiad bach mewn niferoedd.

- Yn dilyn gostyngiadau mewn Troseddau Casineb yn 2023/24 o gymharu â 2022/23, bu cynnydd yng Ngwynedd yn 2024/25. Gwelwyd cynnydd hefyd ar draws Gogledd Cymru.

- Mae ymddygiad gwrthgymdeithasol yng Ngwynedd wedi gweld gostyngiad hyd yma o -8.8% yn 2024/25, o gymharu â'r un cyfnod yn 2023/24. Mae hyn yn cyfateb i dros 150 yn llai o ddigwyddiadau yn cael eu hadrodd. Mae dioddefwyr a lleoliadau ailadroddus ymddygiad gwrthgymdeithasol, a dioddefwyr bregus risg uchel yn cael eu cyfeirio am adolygiad i grwpiau tasg aml-asiantaeth misol.

**BETH SYDD WEDI EI GYFLAWNI YN YSTOD 2024:**

- Datblygwyd y cynllun blynyddol yn unol a blaenoriaethau y Bwrdd Rhanbarthol Cymunedau Mwy Diogel Gogledd Cymru. Mae cynllun 2024-25 (ynghlwm) yn nodi gweithgaredd yr oedd y Bartneriaeth am ei gyflawni yn ystod y flwyddyn ariannol hon.

- Rhannwyd ffigyrau trosedd yn chwarterol drwy adroddiad perfformiad a baratowyd gan ddadansoddwr yr Heddlu, fel y gellir trafod unrhyw dueddiadau a gweithgaredd ychwanegol roedd ei angen.

- Mae gennym ddyletswydd statudol o dan y Ddeddf Trais Domestig, Trosedd a Dioddefwyr 2004 i sefydlu Adolygiadau Dynladdiad Domestig (DHRs / diffiniad uchod). Eleni, cyflwynwyd 2 DHR i'r Swyddfa Gartref a derbyniwyd cymeradwyaeth i

gyhoeddi. Parhaodd y Bartneriaeth i gydlynu 2 DHR ac yn anffodus bu'n rhaid comisiynu un achos newydd yn ddiweddar. Mae'n anochel bod gan y gwaith hwn oblygiadau sylweddol a pharhaus o ran adnoddau, gan gynnwys cymeradwyaeth y Swyddfa Gartref a all fod yn broses hir ac chymhleth iawn. Ers Hydref 2024, yng Nghymru mae DHRs yn cael eu cynnwys o fewn y broses newydd Adolygiad Diogelu Unedig Sengl (ADUS). Yn y dyfodol, ni fydd angen cyflwyno adroddiadau am gymeradwyaeth gan y Swyddfa Gartref. Yn hytrach, bydd sicrwydd ansawdd yn broses i Lywodraeth Cymru.

<u>Crynodeb o'r gwaith penodol a gwblhawyd eleni:</u>

- Gweithredu'r cynllun Diogelwch Cymunedol blynyddol yn barhaus ac adrodd yn chwarterol i Fwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru Fwy Diogel.

- Cyhoeddwyd y Strategaeth Trais Difrifol Gogledd Cymru ym mis Ionawr 2024, mewn ymateb i'r Ddyletswydd Trais Difrifol newydd. Mae'r Ddyletswydd yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau penodedig gydweithio i atal a lleihau trais difrifol yn yr ardal. Yn dilyn diwygiadau diweddar i'r Ddeddf Trosedd ac Anhrefn, roedd gan y Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol rôl benodol mewn gweithredu strategol ar sail tystiolaeth ar drais difrifol, ac roeddem yn rhan o'r gwaith i ddatblygu'r strategaeth ranbarthol o'r dechrau. Fel rhan o'r Strategaeth Trais Difrifol, derbyniwyd y Bartneriaeth £82k ar gyfer prosiectau ataliol yn ein rhanbarth. Arweiniodd y cyllid hwn at wyth prosiect gwahanol, gan gynnwys:
  - Hyfforddiant ar gyfer gweithwyr proffesiynol sy'n cefnogi bechgyn a dynion ifanc ar hwyluso deialog adeiladol ynghylch gwrywdod a bod yn saff a saff i fod o gwmpas.
  - Sesiynau 'Peidiwch â Dwyn Fy Nyfodol' a gynhelir mewn ysgolion gan RASA Cymru. Mae hon yn ymgyrch addysgol, sy'n codi ymwybyddiaeth o gyffredinolrwydd eang trais rhywiol mewn cymdeithas, ac yn bwysicaf oll, sut y gallwn ddechrau newid agweddau ac ymddygiad.
  - Hyfforddiant i aelodau staff rheng flaen ar draws y Gwasanaethau Plant a Theuluoedd ar natur cam-drin gan blentyn ar riant/gofalwr.

- Gan weithio'n agos gyda Thimau Plismona Lleol, fe wnaethom nodi lleoliadau a allai elwa o Gronfa Ffyniant Gyffredin (UKSPF) Llywodraeth San Steffan. Un o nodau'r UKSPF yw adeiladu cymdogaethau gwydn, diogel ac iach, sy'n cynnwys gwelliannau wedi'u targedu i'r amgylchedd adeiledig i atal troseddau. Yn dilyn cais llwyddiannus, derbyniwyd y Bartneriaeth £450k gan y Gronfa i uwchraddio a gosod teledu cylch cyfyng newydd yn Caernarfon, Bangor a Pwllheli gyda'r nod o wella canfyddiad pobl o ddiogelwch a lleihau troseddau yn y gymdogaeth. Mewn cydweithrediad agos a'r Adran Briffyrdd, mae rhan helaeth o'r gwaith yma wedi'i gwblhau yn ystod 2024. Mae'r Bartneriaeth yn disgwyl cadarnhad ynglŷn a unrhyw gyfleon pellach gan yr SPF ar gyfer ardaloedd eraill a all elwa o'r cyllid yma.

- Yn dilyn cymeradwyaeth gan y Cabinet, cyflwynwyd 3 Gorchymyn Diogelwch Mannau Cyhoeddus yng Nghaernarfon, Cricieth a Pwllheli ym mis Awst. Roedd y bwriad wedi derbyn llawer o gefnogaeth gan y cyhoedd a bydd yn rhoi rhagor o bwerau i'r Heddlu fynd i'r afael a YGG yn yr ardaloedd yma.

- Mae'r Bartneriaeth wedi trefnu amryw o sesiynau hyfforddiant gwahanol ar bynciau penodol y maes, yn cynnwys:

-Hyfforddiant arloesol drwy VR (*virtual reality*) ar ymddygiad rheoli drwy orfodaeth (*coercive control*). Bu sesiynau i weithwyr cymdeithasol sydd yn dangos nifer o astudiaethau achos drwy VR, fel bod mynychwyr yn gallu bod 'yn yr ystafell' a deall persbectif y dioddefwr. Gan fod diddordeb mawr wedi bod, mae cais wedi'i wneud i Lywodraeth Cymru am gyllid i gynnal rhagor o'r sesiynau yma ac ehangu'r cynnig.
-Hyfforddiant i staff sydd yn gweithio gyda phobl ifanc ar '*Mind Mechanics'*, sef rhaglen addysg iechyd meddwl sy'n seiliedig ar dystiolaeth. Pwrpas hwn yw cefnogi plant a phobl ifanc i ddeall eu emosiynau, meddyliau ac ymatebion corfforol gyda'r nod o wella llesiant a cynyddu hyder pobl ifanc a lleihau ymddygiad gwrthgymdeithasol.
-Hyfforddiant gan Llywodraeth Cymru i staff y Cyngor ar sut i ymyrryd mewn sefyllfaoedd niweidiol posibl fel aflonyddu rhywiol. Cynhaliwyd y hyfforddiant yma ar Ddiwrnod Rhuban Gwyn yn Tachwedd, gyda'r bwriad i roi'r sgiliau ar hyder i staff y Cyngor i ymyrryd yn ddiogel mewn amrywiaeth o sefyllfaoedd. Gall hyn fod gyda dieithryn, cydweithiwr neu gyfaill. Mae'r Bartneriaeth yn awyddus iawn i drefnu nifer o sesiynau ychwanegol o'r hyfforddiant yma.

- Mewn ymateb i'r DHRs, paratôdd y bartneriaeth gais i'r Gronfa Atal Hunan-niwed a Hunanladdiad i ymgymryd â phrosiect ar y cyd â'r Uned Diogelwch Cam-drin Domestig (DASU), Heddlu Gogledd Cymru, a llinell gymorth Byw Heb Ofn i ddarparu cefnogaeth i ddioddefwyr o gam-drin domestig. Rydym newydd ddarganfod bod y cais yn llwyddiannus, a bydd y gwaith hwn yn digwydd yn ystod 2025.

- Fe wnaethom barhau â'n haelodaeth gyda'r grŵp rhanbarthol i weithredu Strategaeth Lleihau Niwed Alcohol Gogledd Cymru. Mae'r Strategaeth yn ceisio lleihau'r niwed sy'n gysylltiedig ag alcohol i'r unigolyn a'r gymdeithas ehangach ac mae'n amlygu'r angen am ddull system gyfan o weithio mewn partneriaeth ar y cyd. Mae aelodaeth y grŵp hwn yn cynnwys y Bwrdd Iechyd, y Bwrdd Cynllunio Ardal, cynghorau ar draws y rhanbarth a darparwyr gwasanaethau cymorth lleol. Daeth y Strategaeth cyfredol i ben yn 2024, a mae wrthi yn cael ei adnewyddu ar gyfer y blynyddoedd nesaf.

**BLAENORIAETHAU AR GYFER Y DYFODOL**

- Parhau i weithredu prosiectau lleol a nodir yn y cynllun ar gyfer Ch4 ac adrodd i Fwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru Fwy Ddiogel.

- Parhau i weithredu'r 8 prosiect ataliol o dan y Cyllid Dyletswydd Trais Difrifol.

- Parhau gyda'r achosion DHR a cyflwyno i'r Swyddfa Gartref am gymeradwyaeth.

- Cwblhau y prosiect CCTV wedi'i gyllido gan y Gronfa Ffyniant Gyffredin a sicrhau bod y holl wariant wedi'i wneud erbyn diwedd Chwefror 2025. Paratoi at unrhyw gyfleon pellach gan y Gronfa yma.

- Parhau gyda'r prosiect a ariannwyd gan y Gronfa Atal Hunan-niwed a Hunanladdiad i ddarparu cymorth i ddioddefwyr cam-drin domestig.

- Parhau i fod yn rhan o'r grŵp rhanbarthol i adnewyddu a gweithredu'r Strategaeth Lleihau Niwed Alcohol Gogledd Cymru.

- Yn dilyn cyhoeddiad adnoddau dysgu *Prevent* (y dyletswydd statudol i atal terfysgaeth) gan y Swyddfa Gartref ym mis Tachwedd, byddwn yn canolbwyntio ar baratoi pecyn hyfforddiant i gynnal nifer o sesiynau wyneb-yn-wyneb i staff y Cyngor. Bydd hyn yn golygu bod y gwybodaeth diweddarach gan ein staff i adnabod pryderon a gwneud cyfeiriadau amserol.

- Cynnal trafodaethau gyda Llywodraeth Cymru i archwilio'r posibilrwydd o drefnu rhagor o sesiynau 'ymyrryd gan wylwyr', fel y gallai nifer fawr o staff y Cyngor fynychu.

- Mae cais am gyllid wedi'i wneud gan y Bartneriaeth i'r Grant Cyfalaf VAWDASV *(Violence Against Women, Domesic Abuse and Sexual Violence*) Llywodraeth Cymru. Os yn llwyddiannus, byddwn yn trefnu rhagor o hyfforddiant VR rheolaeth drwy orfodaeth (*coercive control*) fel bod rhagor o weithwyr cymdeithasol yn gallu mynychu. Yn ogystal yn y cais yma, hoffai'r Bartneriaeth drefnu 2 webinar gan arbenigwr enwog yn y maes camdriniaeth domestig, sef yr Athro Jane Monkton-Smith ar adnabod risg am farwolaeth mewn perthynas camdriniol. Mae DHRs yng Ngwynedd yn dangos yn glir y risgiau yma ac mae'n hollbwysig fod asiantaethau yn ymwybodol o hyn er mwyn atal marwolaethau yn gysylltiedig camdriniaeth domestig.

## 5. Ymgynghori

N/A ddim yn berthnasol ar gyfer adroddiad diweddariad blynyddol.

Yn gyffredinol, ymgynghorwyd a'r cyhoedd rhwng Ionawr-Mawrth 2024 am y bwriad i gyflwyno Gorchmynion Diogelu Mannau Cyhoeddus (GDMC) yn Cricieth, Caernarfon, a Pwllheli. Derbyniwyd dros 100 o ymatebion cyflawn. Roedd yn glir o'r ymgynghoriad fod nifer fawr o bobl a pryderon ac ymddygiad gwrthgymdeithasol ac yn cefnogi cyflwyniad y Gorchmynion.

Roedd y project CCTV gan yr SPF yn ddibynnol ar ymgynghoriad a cydweithrediad agos gyda'r Adran Briffyrdd.

## 6. Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015

A ydych wedi **cynnwys** trigolion / defnyddwyr gwasanaeth? Os ddim, pryd a sut ydych yn bwriadu ymgynghori â nhw?

*Roedd y bartneriaeth wedi cynnwys trigolion Gwynedd drwy'r ymgynghoriad cyhoeddus ar gyflwyno GDMC yn fuan yn 2024. Yn dilyn cais brys gan yr Heddlu ym mis Medi i ehangu ardal y GDMC yn Cricieth yn dilyn digwyddiadau ymddygiad gwrthgymdeithasol, cynhaliwyd sesiwn 'galw i mewn' yn Llyfrgell Cricieth. Mynychwyd oddeutu 45 o drigolion y dref ac roedd cefnogaeth helaeth i'r bwriad o ehangu'r ardal. Roedd yn gyfle gwerthfawr i'r gymuned drafod eu pryderon gyda'r Adran Diogelwch Cymunedol a'r Heddlu.*

A ydych wedi ystyried **cydweithio**?

*Mae holl waith y Bartneriaeth yn* ***ddibynnol*** *ar cydweithio – rhwng y partneriaid cyfrifol (Cyngor Gwynedd a Môn, Heddlu, Tân, Prawf, Iechyd) ac yn ehangach ar draws y rhanbarth (Y Bwrdd Rhanbarthol, Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu, Partneriaethau Diogelwch Cymunedol eraill y rhanbarth ayyb). Mae'r Bartneriaeth yn gweithio ar y cyd i gael y gwerth gorau gyda'r adnoddau sydd ar gael.*

Beth sydd wedi ei wneud neu bydd yn cael ei wneud i **atal** problemau rhag codi neu waethygu yn y dyfodol?

*Mae atal ac ymyrraeth gynnar yn flaenoriaeth penodol o fewn y Strategaeth Trais Difrifol Rhanbarthol. Mae'r holl brojectau lleol yr ydym wedi comisiynu gyda'r cyllid Trais Difrifol wedi'i selio ar y bwriad o atal trais.*

*Yn ogystal, mae'r hyfforddiant camdriniaeth domestig ac ymyrryd gan wylwyr sydd wedi'i drefnu gan y Bartneriaeth gyda'r bwriad o atal y digwyddiadau yma a cefnogi gweithwyr proffesiynol i ymyrryd yn gynharach.*

*Mae CCTV yn cael ei gydnabod fel ataliad gweladwy i drosedd ac yn arf werthfawr i'r Heddlu gael mynediad amserol i dystiolaeth o safon uchel iawn.*

Sut ydych wedi ystyried yr **hirdymor** a beth fydd anghenion pobl mewn blynyddoedd i ddod?

*Mae'r holl hyfforddiant yr ydym yn drefnu gyda hirhoedledd ymhell ar ôl iddynt gymryd lle. Mae'r gwybodaeth ar sgiliau yn cael eu ddefnyddio drwy gydol ymarfer gweithwyr proffesiynol ac yn cael eu rannu drwy asiantaethau. Mae ystadegau diweddar yn dangos graddfa trais yn erbyn menywod yn y wlad, ac nid yw'r niferoedd yma am leihau heb newid meddylfryd a diwydiant gan cymdeithas. Mae hyn yn flaenoriaeth i'r Bartneriaeth. Oherwydd cyfyngiadau cyllidol mae pob penderfyniad yr ydym yn ei wneud yn ystyried yr hirdymor a cael y gwerth gorau o'r adnoddau sydd ar gael.*

Er mwyn sicrhau **integreiddio**, a ydych wedi ystyried yr effaith bosib ar gyrff cyhoeddus eraill?

*Eto, mae'r Bartneriaeth yn ddibynnol ar gydweithrediad gyda cyrff cyhoeddus eraill yn ardal Gwynedd a Môn. Mae unrhyw benderfyniad yn cael eu wneud mewn partneriaeth gyda asiantaethau eraill perthnasol.*

**7. Effaith ar Nodweddion Cydraddoldeb, y Gymraeg a'r Dyletswydd Economaidd-Gymdeithasol**

*Mewn cydweithrediad a'r Swyddog Cydraddoldeb, cynhaliwyd asesiad effaith cydraddoldeb yn ystod y broses o gyflwyno'r GDMC yn y Gwanwyn o 2024. Ni nodwyd unrhyw effaith sylweddol negatif a parhawyd gyda'r bwriad gan ei fod yn gadarn.*

*Cynhaliwyd pob cyfarfod y Bartneriaeth yn y Gymraeg. Mae pob cyhoeddiad a cyfathrebiad yn ddwyieithog (Cymraeg yn gyntaf).*

## 8. Camau Nesaf

*Parhau gyda'r blaenoriaethau a nodwyd yn Adran 5 yr Adroddiad.*

**Gwybodaeth Cefndir**

Cyflwyno y GDMCau yn yr Haf - GDMC Caernarfon Pwllheli a Cricieth.pdf
Ehangu ardal GDMC Cricieth - 20241115-Amrywio-ardal-GDMC-Cricieth.pdf
Y Dyletswydd Trais Difrifol - Serious Violence Duty: statutory guidance for responsible authorities (Welsh version)
Y Strategaeth Rhanbarthol Trais Difrifol Dyletswydd Trais Difrifol | Office of the Police and Crime Commissioner North Wales
Canllawiau ymgymryd a Domestic Homicide Review DHR-Statutory-Guidance-161206.pdf
Dyletswydd Prevent Prevent duty guidance: Guidance for specified authorities in England and Wales

**Atodiadau**

*Cynllun 2024-25 y Bartneriaeth.*
*Strategaeth y Bwrdd Rhanbarthol Gogledd Cymru Fwy Diogel 2022-24*

**Cynllun Blynyddol 2024-25 Partneriaeth Diogelwch Cymunedol Gwynedd a Môn**

Cefndir

Mae'r Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol yn grŵp o sefydliadau sy'n gweithio gyda'i gilydd i edrych ar sut orau i fynd i'r afael â throsedd ac anhrefn. Mae'r gofyn i gael partneriaeth o'r fath mewn lle ar lefel leol yn rhan o'r gyfraith, sef Deddf Trosedd ac Anhrefn 1998. Mae gan nifer o sefydliadau ran i'w chwarae o fewn y bartneriaeth, gan gynnwys yr awdurdod lleol, yr heddlu, y gwasanaeth prawf, y gwasanaeth tân ac achub a'r bwrdd iechyd.

Mae gennym gyfrifoldebau dan Ddeddf 1998 am nifer o feysydd, gan gynnwys – lleihau trosedd ac anhrefn, lleihau aildroseddu, camddefnyddio sylweddau ac ymddygiad gwrthgymdeithasol. Yn ogystal, mae dyletswydd arnom i gomisiynu adolygiadau Lladdiad Domestig mewn rhai amgylchiadau penodol.

Bydd ein cynllun yn cyflawni yn erbyn blaenoriaethau Strategaeth Bwrdd Partneriaeth Gogledd Cymru Fwy Diogel, sef:

1. Atal trosedd ac ymddygiad gwrthgymdeithasol
2. Mynd i'r afael â throseddau treisgar
3. Mynd i'r afael â throseddau trefniadol difrifol
4. Diogelu ac adeiladu cymunedau gwydn a chynnal diogelwch y cyhoedd

| # | Gweithred | Allbwn | Canlyniad | Cyfrifoldeb | Amserlen | Blaenoriaeth Ranbarthol |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 1 | Cwrdd â'n cyfrifoldebau o dan y Ddyletswydd Trais Difrifol newydd - mae trais difrifol bellach yn flaenoriaeth benodol i Bartneriaethau Diogelwch Cymunedol. Mae strategaeth ranbarthol wedi'i datblygu, i'w fewnosod yn y ddwy Sir. Byddwn yn goruchwylio gwariant lleol o Gyllid DTD ar nifer o ymyriadau ataliol yn Ynys Môn a Gwynedd. | Yn seiliedig ar 4 blaenoriaeth, ymateb i Strategaeth Ranbarthol a gyhoeddwyd ym mis Ionawr 2024<br><br>Achos busnes i'w cyflwyno diwedd Mai 2024<br><br>Mehefin 2024 – achos busnes wedi'i gymeradwyo<br><br>Projectau wedi'i cwblhau erbyn Mawrth 2025 | Bodlonir cyfrifoldebau o dan y Ddyletswydd yn lleol.<br><br>Mae camau gweithredu sy'n deillio o'r strategaeth yn cael eu cyflawni a'u hadolygu.<br><br>Roedd ymyriadau lleol a ddarparwyd yn canolbwyntio ar atal trwy gyllid SVD.<br><br>Rhoddwyd SVD ar waith ar draws y rhanbarth, gan atal trais difrifol a lleihau ar draws y rhanbarth | PDC / adrannau A.LL perthnasol/ Bwrdd llywio DTD Rhanbarthol | Drwy gydol 2024/25. | **Blaenoriaeth 2.4 yn y Cynllun Gogledd Cymru Fwy Diogel** |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 2 | Byddwn yn sicrhau bod y cyfrifoldebau a roddir ar y PDC mewn perthynas â chynnal Adolygiadau Dynladdiad Domestig (DHRs) yn cael eu cwblhau'n briodol. Yn y bôn, mae hyn yn golygu sicrhau bod paneli adolygu, cadeiryddion ac awduron priodol yn cael eu comisiynu, a bod adroddiadau terfynol yn cael eu cyflwyno a'u derbyn gan y Swyddfa Gartref cyn cyhoeddi. | Comisiynu Paneli adolygu, cadeiryddion ac awduron ar gyfer y DHRs<br>Ymgymryd â'r DHR a'i gyflwyno i'r Swyddfa Gartref. | Mae'r cyfrifoldebau a roddir ar y PDC mewn perthynas ag adolygiadau DHR wedi'u cwblhau'n briodol.<br>Cynllun gweithredu mewn lle i ymateb i argymhellion - gwersi a ddysgwyd er mwyn gwella gwasanaethau yn y dyfodol a diogelu dioddefwyr. | PDC | Yn barhaus | **Blaenoriaeth 2.3 yn y Cynllun Gogledd Cymru Fwy Diogel** |
| 3 | Ymateb a rhannu'r Dysgu DHR:<br>- Yr angen am well dealltwriaeth gan weithwyr proffesiynol ac asiantaethau o gam-drin domestig a'i effaith ar iechyd meddwl a hunanladdiad, ac ymateb iddo.<br>- Sicrhau bod y dysgu a nodwyd yn cael ei weithredu mewn fframweithiau hyfforddi lleol.<br>- Ymgysylltu â Phrosiect 'Gofyn i Fi' Cymorth i Ferched i gefnogi cymunedau i roi gwell ymateb i oroeswyr.<br>- Gwella ymwybyddiaeth o bobl hyn fel dioddefwyr | Datblygu cynllun gwaith gyda'r Cydlynydd Rhanbarthol ar gyfer Atal Hunan-niwed a Hunan-niwed a'r Arweinydd Rhanbarthol VAWDASV<br>Camau/negeseuon perthnasol i'w cymryd yn genedlaethol<br>Cydgysylltu â'r cydlynydd hyfforddiant rhanbarthol<br>Mynychu hyfforddiant CiF a hyrwyddo'r prosiect yn lleol | Mae ymarfer yn gwella ac mae dioddefwyr yn cael eu diogelu'n well | PDC / arweinwyr rhanbarthol | Drwy gydol 24-25 | **Blaenoriaeth 2.3 yn y Cynllun Gogledd Cymru Fwy Diogel** |
| 4 | Cynyddu ymwybyddiaeth o adrodd cam-drin domestig a mynediad at wasanaethau i ddioddefwyr | Hyrwyddo Llinell Gymorth Byw Heb Ofn, Cyfraith Clare a Gorwel<br>Codi ymwybyddiaeth staff o themâu sy'n codi o ddysgu DHR – Pobl hŷn fel dioddefwyr, cam-drin | Codir proffil cam-drin domestig, y sefyllfa leol, a'r cymorth sydd ar gael | PDC | Drwy gydol 24-25 | **Blaenoriaeth 2.3 yn y Cynllun Gogledd Cymru Fwy Diogel** |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | wedi'i hwyluso gan dechnoleg, cam-drin filial<br><br>Nodi ymgyrch flynyddol y Rhuban Gwyn ym mis Tachwedd | | | | |
| 5 | Monitro cynnydd hyfforddiant Gofyn a Gweithredu - Fframwaith Hyfforddi Cenedlaethol fel sy'n ofynnol gan Ddeddf Cam-drin Ddomestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015 | Deall y darlun cyfredol o gynnydd<br><br>Cydweithredu â'r Swyddog Datblygu Hyfforddiant Rhanbarthol ac adrannau hyfforddi perthnasol i fonitro a gwella cynnydd | Gwell ymwybyddiaeth mewn Awdurdodau Lleol o drais domestig i alluogi atgyfeirio effeithiol i wasanaethau cymorth | Adrannau hyfforddi'r 2 Sir<br><br>Swyddog Hyfforddi rhanbarthol | Drwy gydol 24-25 | **Blaenoriaeth 2.3 yn y Cynllun Gogledd Cymru Fwy Diogel** |
| 6 | Cyflawni'r Ddyletswydd Statudol Atal<br><br>Diweddaru trefniadau yn ôl yr angen ar y cyd â Chynghorydd Rhanbarthol y Swyddfa Gartref | Diweddaru'r Cynllun Atal i adlewyrchu'r sefyllfa cyfredol<br><br>Ymateb i'r Broses Sicrwydd blynyddol - cwblhau hunanasesiad<br><br>Datblygu a gweithredu cynllun hyfforddi.<br><br>Parhau i gyfrannu at y Grŵp Cyflawni Rhanbarthol Atal | Cyfrannu at Gynllun Gweithredu Bwrdd CONTEST rhanbarthol<br><br>Cyfrannu at ganlyniadau Prevent y Swyddfa Gartref o leihau radicaleiddio | PDC / Adrannau perthnasol y A.LL | Drwy gydol 24-25 | **Cynllun ATAL y Swyddfa Gartref**<br><br>**Bwrdd CONTEST Rhanbarthol** |
| 7 | Cwblhau'r gwaith o dan gyllid yr SPF, i ymestyn y ddarpariaeth TCC yn y ddwy Sir. | TCC ychwanegol wedi'i osod | Gwell canfyddiad o ddiogelwch | PDC / Priffyrdd / Cynghorau Tref Ynys Môn | Tan Ragfyr 31 2024 | **Blaenoriaeth 1.1 yn y Cynllun** |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | Prosiect wedi'i gwblhau erbyn Rhagfyr 31, 2024 | Gostyngiad mewn troseddau cymdogaeth | | | **Gogledd Cymru Fwy Diogel** |
| 8 | Targedu ardaloedd lle mae ymddygiad gwrthgymdeithasol yn bryder, drwy ein pwerau gan y Ddeddf Ymddygiad Gwrthgymdeithasol, Troseddu a Phlismona 2014 – ystyried cyflwyno Gorchmynion Diogelu Mannau Cyhoeddus mewn tair tref. | Mannau problemus wedi'u nodi<br><br>Ymgynghori ac ymchwil cynnar<br><br>Ymgynghoriad cyhoeddus<br><br>Dadansoddiad o'r ymatebion, a adroddwyd i'r Cabinet ar gyfer penderfyniad terfynol | Atal ymddygiad gwrthgymdeithasol rhag digwydd mewn mannau cyhoeddus | PDC / yr Heddlu | CH1 / CH2 2024-25 | **Blaenoriaeth 1.1 yn y Cynllun Gogledd Cymru Fwy Diogel** |
| 9 | Mewn partneriaeth ag awdurdodau lleol eraill ar draws y rhanbarth, cyflwyno cais i'r Fforwm Atal Niwed i gyflwyno'r Cynllun Best Bar None ymhellach. | Cais am gyllid wedi'i baratoi i gynnwys sesiynau ymwybyddiaeth ar gyfer pob ALl a deunyddiau hyrwyddo, hyfforddiant i aseswyr a phlaciau achredu. | Mae cwsmeriaid yn gallu nodi sefydliadau sy'n cael eu rhedeg yn dda, mae perthnasoedd gwaith cadarnhaol yn cael eu meithrin ac ymdrechion i leihau trosedd ac anhrefn a'u cefnogi.<br><br>Yn gysylltiedig â SVD a lleihau trais yn yr economi nos. Hefyd yn gysylltiedig â'r Ddyletswydd *Protect* a sicrhau bod staff wedi'u hyfforddi mewn gweithdrefnau gwacáu. | PDC / swyddogion perthnasol y rhanbarth | Drwy gydol 24-25 | **Blaenoriaeth 2.1 yn y Cynllun Gogledd Cymru Fwy Diogel** |
| 10 | Bydd Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru (GTAGC) yn parhau i gyflwyno rhaglen atgyfeirio ieuenctid Phoenix. | Parhau i gyflwyno'r rhaglen ymyrraeth yn y rhanbarth | Gostyngiad mewn tanau/YG Gostyngiad yn nifer y troseddwyr mynych | GTAGC | Drwy gydol 24-25 | **Blaenoriaeth 1 yn y Cynllun Gogledd** |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | | **Cymru Fwy Diogel** |

## Strategaeth Gogledd Cymru Mwy Diogel

## 2022-24

### Gweledigaeth a Phwrpas:

*“Sicrhau bod gogledd Cymru yn ac yn teimlo fel lle diogel a chynhwysol i fyw, gweithio ac ymweld”*

Pwrpas Bwrdd Partneriaeth Gogledd Cymru Mwy Diogel yw cydweithio i gyflawni’r weledigaeth hon, drwy fynd i’r afael â throsedd ac anhrefn ar draws y rhanbarth. Mae’r strategaeth hon yn nodi ein blaenoriaethau ar gyfer y ddwy flynedd nesaf.

### Nodau ac Amcanion Strategol:

| Blaenoriaeth Strategol | Amcanion |
|---|---|
| **Blaenoriaeth 1: Atal trosedd ac ymddygiad gwrthgymdeithasol** | 1.1 Gweithio mewn partneriaeth, yn defnyddio dulliau sy’n canolbwyntio ar ddatrysiadau, i nodi a mynd i’r afael â throsedd ac ymddygiad gwrthgymdeithasol ar draws y gogledd, gan ddefnyddio cyllid wedi’i dargedu pan fo’n briodol (e.e. Cronfa Strydoedd Mwy Diogel). |
| | 1.2 Addysgu a magu hyder cymunedau a busnesau i roi gwybod a diogelu eu hunain rhag seiberdroseddau, sgamiau ac ymddygiad twyllodrus. |
| | 1.3 Sicrhau bod ymyrraeth gynnar yn parhau’n flaenoriaeth o ran cymryd dull ataliol i leihau trosedd ac ymddygiad gwrthgymdeithasol. |

| | |
|---|---|
| **Blaenoriaeth 2: Mynd i'r afael â throseddau treisgar** | 2.1 Sicrhau bod yr economi dydd a nos ar draws y gogledd yn darparu amgylchedd diogel a chefnogol i atal a mynd i'r afael ag achosion o drais sy'n gysylltiedig ag alcohol/sylweddau, gan ganolbwyntio ar y dioddefwr a'r sawl sy'n cyflawni trosedd. |
| | 2.2 Ystyried troseddau treisgar difrifol, yn cynnwys troseddau gyda chyllyll, yn defnyddio gwybodaeth leol a gweithio gyda phartneriaid i sicrhau bod ymyraethau priodol yn eu lle. Codi ymwybyddiaeth ac addysgu'r cyhoedd, yn enwedig pobl ifanc, am beryglon cario cyllyll. |
| | 2.3 Nodi ein cyfrifoldeb fel Bwrdd i gyfrannu at raglen VAWDASV (Trais yn erbyn Merched, Cam-drin Domestig a Cham-drin Rhywiol). Rhoi ffocws penodol i ddiogelwch merched yng ngogledd Cymru. |
| **Blaenoriaeth 3: Mynd i'r afael â throseddau cyfundrefnol difrifol** | 3.1 Defnyddio'r 3 proffil cymunedol i ddeall bygythiad troseddau cyfundrefnol difrifol a chytuno ar unrhyw gam gweithredu tymor byr, canolig neu hirdymor sydd angen ei gymryd gan bartneriaid ar draws y rhanbarth i fynd i'r afael â hyn. |
| | 3.2 Gwreiddio argymhellion priodol Asesiad Anghenion Llinellau Cyffuriau Gogledd Cymru, gan godi ymwybyddiaeth partneriaid a chymunedau a sicrhau bod yr ymatebion priodol yn eu lle er mwyn cyflawni canlyniadau cadarnhaol mewn perthynas â'r elfen hon o droseddau cyfundrefnol difrifol. |
| **Blaenoriaeth 4: Diogelu a chreu cymunedau cryf a chynnal diogelwch y cyhoedd** | 4.1 Ymgysylltu â chymunedau ac asiantaethau partner i ddeall a mynd i'r afael â chyffredinrwydd ac effaith troseddau casineb a sicrhau bod mesurau effeithiol ar waith i roi hyder i bobl roi gwybod am droseddau o'r fath. |

| | |
|---|---|
| | 4.2 Meithrin perthynas gynaliadwy ac ystyrlon gyda chymunedau nas clywir yn aml i sicrhau eu bod yn teimlo'n hyderus i fynegi pryderon am droseddau a materion cymunedol a diogelwch ar y ffyrdd. |
| | 4.3 Cefnogi a chyfrannu at ymgyrchoedd lleol, rhanbarthol a chenedlaethol i fynd i'r afael â throseddu a materion cymunedol a diogelwch ar y ffyrdd, i godi ymwybyddiaeth, magu hyder a lleihau ofn troseddau. |

**COVID-19:** Yn ogystal â'r prif nodau ac amcanion y soniwyd amdanynt uchod, rydym ni'n aml yn ystyried effaith pandemig COVID-19 ar ddiogelwch cymunedol, a sut y byddwn ni'n gweithio mewn partneriaeth tuag at adferiad. Bydd yr elfen hon yn cael ei chynnwys ym mhob maes blaenoriaeth.

**Atal ac ymyrraeth gynnar:** Ynghyd â mynd i'r afael â materion a phroblemau newydd ar sail gwybodaeth ranbarthol a lleol, rydym ni hefyd yn canolbwyntio ar gymryd dull ataliol i bob maes blaenoriaeth, edrych ar sut y gellir defnyddio ymyrraeth gynnar i atal llwybrau tuag at droseddu neu gymryd rhan mewn ymddygiad gwrthgymdeithasol a/neu gael eu haflonyddu.

**<u>Dogfennau dylanwadol a thystiolaeth</u>**

Mae Strategaeth Gogledd Cymru Mwy Diogel wedi'i chreu yn defnyddio'r strategaethau a'r dystiolaeth ganlynol:

**Asesiad Strategol Gogledd Cymru**

Mae Heddlu Gogledd Cymru yn cynhyrchu asesiad strategol blynyddol i adrodd ar fygythiad a risg meysydd sylweddol o drosedd, anhrefn a materion sy'n dod i'r amlwg sy'n effeithio ar ogledd Cymru. Y nod yw hysbysu'r rheiny sy'n gwneud penderfyniadau strategol ac yn pennu blaenoriaethau.

**Cynllun Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru 2021-24**

Mae'r cynllun hwn yn darparu gweledigaeth i sicrhau bod cymunedau yn ddiogel, bod dioddefwyr a phobl ddiamddiffyn yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi, bod cyfraddau trosedd ac aildroseddu'n isel, a bod gan bobl hyder yn y system blismona a chyfiawnder troseddol. Mae'r meysydd canlynol wedi'u blaenoriaethu:

- Darparu cymdogaethau mwy diogel
- Cefnogi dioddefwyr a chymunedau
- System Cyfiawnder Troseddol deg ac effeithiol

**Cynllun Curo Trosedd (Swyddfa Gartref 2021)**

Mae'r Cynllun Curo Trosedd yn nodi dull Llywodraethu y DU i leihau nifer y dioddefwyr, i gael cymdogaethau heddychlon a Theyrnas Unedig sy'n fwy diogel. Mae'r cynllun yn canolbwyntio ar dri maes blaenoriaeth:

- Lleihau lladdiadau, trais difrifol a throseddau yn y gymdogaeth
- Amlygu a therfynu niweidiau cudd ac erlyn y rheiny sy'n cyflawni troseddau
- Meithrin gallu i ddelio gyda thwyll a throsedd ar-lein

**Proffiliau Cymunedol Gogledd Cymru**

Mae'r proffiliau wedi'u dylunio i hysbysu partneriaethau amlasiantaeth lleol, yn enwedig Comisiynwyr yr Heddlu a Throsedd, awdurdodau lleol a phartneriaid perthnasol eraill fel Addysg, Iechyd a Thai am fygythiad troseddau cyfundrefnol difrifol a'r effaith mae'n ei chael ar gymunedau. Mae tair dogfen ar wahân wedi'u creu ar gyfer Wrecsam a Sir y Fflint, Ynys Môn a Gwynedd a Chonwy a Sir Ddinbych.

**Asesiad Anghenion Llinellau Cyffuriau Gogledd Cymru**

Cynhaliwyd Asesiad Anghenion Llinellau Cyffuriau amlasiantaeth ar gyfer gogledd Cymru, i ddarparu trosolwg strategol cyfannol. Mae angen dull amlasiantaeth er mwyn nodi'r broblem a'r bygythiad presennol yn ogystal â chydweithio i ddeall y materion a darparu gwybodaeth ar gyfer argymhellion amlasiantaeth sy'n canolbwyntio ar Atal, Dilyn, Diogelu a Pharatoi, gan gynnwys ymyrraeth gynnar.

**Strategaeth Bregusrwydd a Chamfanteisio Gogledd Cymru (2021-24)**

Mae'r strategaeth yn cynnwys dull amlasiantaeth i fynd i'r afael â bregusrwydd a chamfanteisio yng ngogledd Cymru, gan ymdrin â thrais yn erbyn merched, cam-drin domestig a cham-drin rhywiol, a chaethwasiaeth fodern.

**Cynlluniau Cyflawni**

Mae blaenoriaethau ac amcanion y strategaeth hon yn darparu fframwaith ar gyfer monitro cynlluniau cyflawni Partneriaethau Diogelwch Cymunedol. Fodd bynnag, bydd y Partneriaethau yn gyfrifol am gytuno ar eu camau gweithredu penodol eu hunain yn unol â'r angen lleol, a'r cyfrifoldebau strategol i gyflawni adrannau perthnasol Deddf Trosedd ac Anhrefn 1998 yn parhau i fod yn gyfrifoldeb ar y Partneriaethau Diogelwch Cymunedol lleol.

Partneriaethau Diogelwch Cymunedol Gogledd Cymru:

- PDC Wrecsam
- PDC Sir y Fflint
- PDC Conwy a Sir Ddinbych
- PDC Ynys Môn a Gwynedd

Bydd y Bwrdd hefyd yn ystyried y cynlluniau canlynol o ran camau gweithredu penodol sy'n bwydo i mewn i'n blaenoriaethau ac amcanion:

- Cynlluniau Cydlyniant Cymunedol
- Cynllun Troseddau Cyfundrefnol Difrifol Gogledd Cymru

**Llywodraethu a chynrychiolaeth**

Cyfeirir at drefniadau llywodraethu ac aelodaeth Bwrdd Partneriaeth Gogledd Cymru Mwy Diogel yng nghlych gorchwyl y Bwrdd.

**Cyfathrebiadau**

Bydd Cadeirydd Bwrdd Gogledd Cymru Mwy Diogel yn mynd i gyfarfodydd chwarterol gyda chadeiryddion byrddau partneriaeth strategol eraill (Diogelu, Contest, Cyfiawnder, Bregusrwydd a Chamfanteisio a'r Bwrdd Cynlluniau Ardal), i gyfathrebu themâu allweddol a all fod yn rhai trawsbynciol ac i osgoi dyblygu a/neu weithio unigol.

| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | Pwyllgor Craffu Cymunedau |
| **DYDDIAD** | 23ain Ionawr 2025 |
| **TEITL** | Adroddiad Blynyddol 2023/24 Cynllun Argyfwng Hinsawdd a Natur |
| **RHESWM DROS GRAFFU** | Cynllun y Cyngor 2023-28 - Gwynedd Werdd |
| **AWDUR** | Dafydd Gibbard, Prif Weithredwr |
| **AELOD CABINET** | Y Cyng. Nia Jeffreys, Arweinydd y Cyngor |

**1. Pam fod angen ei graffu?**

1.1 Craffwyd Adroddiad Blynyddol 2022/23 yng nghyfarfod y Pwyllgor ar 30 Tachwedd 2023 cyn i'r Cabinet ei gymeradwyo ar 19 Rhagfyr 2023.

1.2 Yn ei gyfarfod ar 12 Mawrth 2024, cymeradwyodd y Cabinet i flaenoriaethu £1,640,495 o'r gronfa hinsawdd ar gyfer y prosiectau canlynol:

- Cynllun Fflyd Werdd - £1,048,400
- Cynllun Peilot Uwchraddio Goleuadau - £416,617
- Cynllun Pympiau Gwresogi - £175,478

1.3 Yn ogystal, dirprwywyd yr hawl i flaenoriaethu gwariant gweddill y gronfa cynllun hinsawdd i'r Prif Weithredwr, mewn ymgynghoriad â'r Arweinydd ac Aelodau'r Bwrdd Hinsawdd a Natur.

1.4 Bydd craffu'r adroddiad blynyddol yn fodd i aelodau'r Pwyllgor derbyn sicrwydd bod trefniadau mewn lle a bod cynnydd digonol o ran gwireddu Cynllun Argyfwng Hinsawdd a Natur 2022/23 - 2029/30.

**2. Beth yn union sydd angen ei graffu?**

2.1 Y cynnydd a wnaed i wireddu'r Cynllun.

2.2 Beth yw'r cynnydd o ran uchelgais y Cynllun - 'Bydd Cyngor Gwynedd yn garbon sero net ac yn ecolegol gadarnhaol erbyn 2030'?

2.3 Pa ffynonellau cyllido sydd wedi eu hadnabod?

2.4 Beth yw'r camau nesaf?

**3. Crynodeb a'r Materion Allweddol**

3.1 Mae Adroddiad Blynyddol 2023/24 Cynllun Argyfwng Hinsawdd a Natur yn Atodiad 1 yn ceisio cynnig darlun cywir a chytbwys o'r cynnydd a wnaed yn ystod y flwyddyn er mwyn gwireddu'r Cynllun-Argyfwng-Hinsawdd-a-Natur.pdf. (CAHN).

3.2 Mae'r Adroddiad yn datgan y lefelau o allyriadau ac amsugno carbon yr oedd Cyngor Gwynedd yn gyfrifol amdanynt, ac mae hynny wedi ei gyfrifo ar sail data sydd wedi ei achredu gan Wasanaeth Ynni Llywodraeth Cymru. Ar sail y data hwn rydym yn gwybod faint yw'r 'bwlch i sero net' ac felly faint yn rhagor o waith sydd o'n blaenau os ydym am gyrraedd ein targed.

3.3 Mae'r Adroddiad Blynyddol hefyd yn cynnig tystiolaeth am sut mae Cyngor Gwynedd wedi bod yn gweithredu Adran 6 o Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016. Mae'r wybodaeth berthnasol ym mhennod 3 ac yna ar ddiwedd pob un o benodau 6 i 12.

3.4 Drwy gyflwyno'r Adroddiad Blynyddol i'r Pwyllgor hwn, mae gan y Pwyllgor gyfle i wirio os yw'r Adroddiad yn gywir a chytbwys a'i peidio. Gall hefyd gynnig unrhyw welliannau neu gywiriadau, a hyn oll cyn i'r Adroddiad fynd i gyfarfod o Gabinet y Cyngor i gael ei fabwysiadu.

3.5 Gall y Pwyllgor hwn hefyd gynnig unrhyw syniadau am gamau gweithredu pellach i'r dyfodol yn seiliedig ar yr wybodaeth yn yr Adroddiad Blynyddol.

## 4. Cefndir / Cyd-destun

4.1 Mabwysiadodd y Cyngor y Cynllun-Argyfwng-Hinsawdd-a-Natur.pdf (llyw.cymru) yn dilyn cyfarfod o'r Cabinet ar 8 Mawrth 2022. Uchelgais y cynllun yw "Bydd Cyngor Gwynedd yn garbon sero net ac yn ecolegol gadarnhaol erbyn 2030." Mae "Ymateb i'r argyfwng newid hinsawdd" hefyd yn un o 8 o Flaenoriaethau Gwella y Cyngor o fewn Cynllun Cyngor Gwynedd 2023-28 (llyw.cymru).

4.2 Mae'r Cynllun Argyfwng Hinsawdd a Natur (y Cynllun/CAHN) yn amlinellu sut y byddwn fel Cyngor yn addasu ein ffordd o weithio ac o ddarparu gwasanaethau er mwyn lleihau ein allyriadau carbon a chynyddu capasiti amsugno carbon. Mae'n cynnig enghreifftiau o brosiectau y byddwn yn eu dilyn, eu costau amlinellol a'r amserlen er mwyn cyflawni.

4.3 Daeth y Cynllun yn weithredol fis Ebrill 2022 ac mae'r adroddiad blynyddol cyntaf ar waith 2022/23 i'w weld yma.

### Prif Faterion

4.4 Mae pennod 5 yr Adroddiad Blynyddol yn rhoi gwybodaeth am y lefelau o allyriadau ac amsugno carbon yr oedd y Cyngor yn gyfrifol amdanynt, ac am y ffigwr holl-bwysig, sef y bwlch sy'n weddill er mwyn cyrraedd sero net.

4.5 Mae'r allyriadau carbon o'n prosesau caffael yn seiliedig ar wariant un unig ar hyn bryd, a gall hyn greu darlun camarweiniol o wir effaith ein gwariant ar yr hinsawdd. Yn syml, po fwyaf yr ydym yn ei wario po fwyaf yw'r allyriadau.

4.6 Roedd cyfanswm allyriadau carbon Cyngor Gwynedd, gan gynnwys caffael, wedi syrthio 16% rhwng blwyddyn waelodlin 2019/20 a 2023/24. Os ydym yn diystyru caffael yna mae'r cwymp yn 37%.

4.7 Wrth edrych ar ein data allyru ac amsugno carbon, heb ystyried data caffael, yna mae ein bwlch i sero net 35% yn llai yn 2023/24 o'i gymharu â 2019/20 ac 1% yn llai na 2022/23.

**Ariannu'r Cynllun**

Incwm

4.8 Yng nghyfarfod y Cyngor ar 3 Mawrth 2022 fe gytunwyd i greu cronfa 'cynllun hinsawdd' gwerth £3m drwy'r broses bidiau refeniw un-tro, at bwrpas gweithredu'r CAHN.

4.9 Yn ogystal â hynny, fe wnaeth y Cabinet gytuno yn ei gyfarfod ar 22 Tachwedd 2022 i ddefnyddio £2.8m o'i gronfeydd cyffredinol i ariannu cynllun buddsoddi mewn paneli solar PV ar 54 o'n hadeiladau, gyda'r arbedion refeniw yn cyfrannu at ein cynllun arbedion.

4.10 Mae nifer o'r prosiectau eraill yn y CAHN, fel y prosiect PV uchod, yn cyfrannu at arbedion ariannol i'r Cyngor yn ogystal ag arbed allyriadau carbon. Gan fod nifer ohonynt yn brosiectau peilot nid oes gennym sicrwydd pendant o'r ffigurau eto, ond er enghraifft disgwylir i'r Cynllun Fflyd Werdd arwain at arbedion o £603,000 dros 5 mlynedd, a bydd y cynllun peilot goleuadau LED yn arwain at £53,000 o arbedion refeniw.

4.11 Gan fod costau gweithredu prosiectau'r CAHN mor uchel mae'n gwbl hanfodol i ddenu cyllid ychwanegol o ffynonellau allanol er mwyn ychwanegu at y gronfa fewnol y cyfeirir ati uchod. Mae'r cyllid grant yn cynnal nifer fawr o'n prosiectau – ee. cynlluniau ynni, prynu fflyd, prosiectau o dan ofal Partneriaeth Natur Gwynedd.

Gwariant

4.12 Hyd at ddiwedd Rhagfyr 2024 roedd £2,207,984 allan o Gronfa Hinsawdd y Cyngor naill ai wedi ei wario neu wedi ei neilltuo i'w wario. Mae hynny'n gadael £792,015 yn weddill.

## 5 Adran 6 Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016

5.1 Yn ôl Adran 6 o Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 mae gan awdurdodau cyhoeddus sy'n gweithredu yng Nghymru ddyletswydd i gynnal ac i wella bioamrywiaeth ac i annog cryfder ecosystemau.

5.2 Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru strategaeth bioamrywiaeth genedlaethol, sef y 'Cynllun Gweithredu Adfer Natur' yn 2015 oedd yn amlinellu'r ymrwymiad i wrthdroi colli bioamrywiaeth yng Nghymru, ac ynddo y mae 6 amcan ar gyfer gweithredu. Er mwyn cydymffurfio â dyletswydd Adran 6 mae'n rhaid i awdurdodau cyhoeddus gyhoeddi cynllun eu hunain sy'n seiliedig ar gynllun Llywodraeth Cymru, ac yna mae angen adrodd ar y cynnydd.

5.3 Mae Cyngor Gwynedd wedi bod yn diweddaru ein Cynllun Adfer Natur ein hunain yn ystod 2024/25 er mwyn cydymffurfio â gofynion y Ddeddf, ond yn y cyfamser rydym yn adrodd ar ein cynnydd yn erbyn 6 amcan y Cynllun Gweithredu Adfer Natur cenedlaethol drwy'r Adroddiad Blynyddol Hinsawdd a Natur. Mae'r wybodaeth i'w weld ym mhennod 3 ac ar ddiwedd penodau 5 i 11.

## 6. Ymateb i Gwestiynau Ychwanegol gan y Pwyllgor Craffu Cymunedau

6.1 **Beth sydd wedi ei wneud mewn ymateb i argymhellion y Pwyllgor yng nghyfarfod 30 Tachwedd 2023, sef:**

a) Derbyn yr adroddiad gan argymell:
- Dylid ychwanegu gwybodaeth am 'Teithio Llesol' o dan Adran 3 yr Adroddiad: 'Adran 6 Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016'.
- Dylid ystyried addasu ffurf arddangos y wybodaeth o dan y teitlau 'Beth y wnaethom ddweud y byddem yn ei wneud yn 2022/23' a 'Be wnaethom ni' yn Adrannau 5-11 yr Adroddiad er mwyn eglurder i'r darllenydd.

b) Argymell i'r Cabinet y dylid ystyried yr adnodd staff i gyflawni gweledigaeth y Cynllun Argyfwng Hinsawdd a Natur.

6.2 Gwireddwyd argymhelliad 1 uchod, ac addaswyd yr Adroddiad Blynyddol terfynol cyn ei gyflwyno i'r Cabinet i gael ei fabwysiadu.

6.3 Gwireddwyd argymhelliad 2 uchod, a phenodwyd Hyfforddai Proffesiynol Hinsawdd a Natur fel rhan o Gynllun Yfory y Cyngor ac mae'r swyddog wedi cychwyn yn ei swydd ers Medi 2024.

6.4 **A yw'r Bwrdd Newid Hinsawdd a Natur y ffordd orau i wireddu cyflawniad y Cynllun?**

6.5 Rôl y Bwrdd Hinsawdd a Natur yw cynnig arweiniad strategol yn y maes ac hefyd i graffu a herio datblygiad y CAHN. Mae ei aelodaeth yn cynnwys yr Aelodau Cabinet dros y meysydd gwaith mwyaf perthnasol gan gynnwys Arweinydd y Cyngor; Pencampwr Cefn Gwlad a Bioamrywiaeth; aelod sy'n cynrychioli pwyllgorau craffu; Prif Weithredwr; Prif Swyddogion dros y meysydd gwaith mwyaf perthnasol; swyddogion sy'n ymwneud dydd i ddydd â phrosiectau'r CAHN. Yn ychwanegol at y craffu sy'n digwydd drwy'r Bwrdd Hinsawdd a Natur, mae rhai o brosiectau'r CAHN hefyd yn cael eu craffu mewn cyfarfodydd herio perfformiad adrannol.

6.6 **Beth yw'r diweddaraf o ran y Cynlluniau Fflyd Werdd, Peilot Uwchraddio Goleuadau a Phympiau Gwresogi yn dilyn penderfyniad y Cabinet ar 12 Mawrth 2024 i glustnodi £1,640,495 o'r gronfa hinsawdd i'w hariannu?**

6.7 <u>Cynllun Fflyd Werdd</u> –
Ar ddiwedd Rhagfyr 2024 roedd 70 allan o'r 210 o geir a faniau yn drydan neu hybrid (33%). Yn dilyn llwyddiant i ddenu grant o £124,000 gan Lywodraeth Cymru mae archeb wedi ei gosod i brynu 9 fan a 2 fws mini trydan yn ychwanegol fydd yn ein cyrraedd erbyn diwedd Mawrth 2025.
Mae gwaith yn parhau i chwynnu ein niferoedd o gerbydau er mwyn lleihau maint y fflyd, ac i leihau faint o gerbydau sy'n cael eu hurio. Nid yw'n bosib ar hyn o bryd i

newid ein cerbydau 4X4 a’r fflyd trwm i gerbydau trydan hyd nes ein bod yn hyderus bod cerbydau addas ar gael. Serch hynny rydym yn ffyddiog ein bod yn cadw at yr amserlen i wireddu’r Cynllun erbyn ei ddyddiad gorffen, sef 2029.

Cynllun Peilot Uwchraddio Goleuadau -
Mae’r gwaith paratoi o asesu y 6 safle fydd yn rhan o’r prosiect hwn yn digwydd ar hyn o bryd. Bydd y gwaith wedyn yn mynd allan i dendr gyda’r bwriad bod y gwaith mewn cartref preswyl a chanolfannau hamdden yn digwydd fis Mehefin a Gorffennaf, ac yna’r gwaith mewn tair ysgol yn cael ei wneud dros gyfnod gwyliau haf yr ysgolion 2025.

Cynllun Pympiau Gwresogi –
Mae un newid bychan wedi ei wneud i’r cynllun peilot hwn, sydd yn ei gryfhau yn ein barn ni. Y bwriad gwreiddiol oedd gosod pympiau gwres mewn dwy ysgol ac un canolfan hamdden ond bellach rydym am eu gosod mewn un ysgol, un canolfan hamdden ac un cartref preswyl. Bydd hyn yn cynnig rhagor o senarios a phrofiad gwerthfawr cyn penderfynu sut i barhau gyda’r gwaith ar weddill stad y Cyngor i’r dyfodol.
Mae hwn yn brosiect ehangach na gosod pympiau gwres yn unig – mae angen cwblhau gwaith ychwanegol megis gosod ffenestri gwydr triphlyg, datrys problemau asbestos, insiwleiddio’r adeiladau a newid goleuadau.
Mae gwaith ar y gweill ar y 3 safle ar hyn o bryd gyda’r bwriad y bydd wedi ei orffen erbyn diwedd Mawrth 2025.

6.8 **Beth yw’r rhaglen waith sydd yn mynd rhagddo a’r amserlen ar gyfer cyflawni’r prosiectau?**

6.9 Mae’r rhaglen waith a’r amserlen ar gyfer pob prosiect wedi eu cynnwys ym mhenodau 7 i 13 o’r CAHN, ond mae yna hefyd raglenni rheoli prosiect manwl fesul prosiect unigol. Mae datblygiad y gwaith hwn yn cael ei fonitro gan y Bwrdd Hinsawdd a Natur, ac mae nifer o’r prosiectau hefyd yn cael eu monitro mewn cyfarfodydd herio perfformiad adrannol.

**6.10 Faint o arian sydd wedi cael ei wario hyd yma i wireddu’r Cynllun?**

6.11 Gweler 4.8 – 4.11 uchod.

6.12 **Oes prosiectau eraill yn cael eu hystyried?**

6.13 Mae trafodaethau wedi eu cynnal yn ystod 2024/25 ymysg swyddogion ac yn Bwrdd Hinsawdd a Natur er mwyn adolygu’r CAHN, gyda’r bwriad o gyhoeddi fersiwn ddiwygiedig yn gynnar yn 2025/26.

6.14 Mae prosiectau presennol wedi eu gwerthuso, a phob un wedi ei ystyried yng nghyd-destun yr angen i barhau, i ymestyn ymhellach, neu i ddirwyn i ben. Mae cynigion i addasu rhai o’r prosiectau presennol hefyd, megis creu Polisi Rheoli Coed neu bod ag opsiynau tanwydd carbon isel ar gyfer fflyd trwm.

6.15 Mae prosiectau newydd hefyd yn cael eu hystyried, megis annog teithio llesol yn nalgylch ysgolion ac adolygu’r potensial i greu rhwydweithiau gwres, ond mae’n

bwysig nodi bod bob prosiect newydd yn cael eu ystyried yng nghyd-destun yr adnoddau ariannol a dynol fyddai'n angenrheidiol i'w wireddu.

6.16 **Oes syniadau sydd wedi eu hystyried ond penderfynwyd peidio â'u datblygu ymhellach?**

6.17 Mae yna rai cynlluniau, megis buddsoddi cyllid y Cyngor mewn creu ffermydd solar, wedi eu diystyru am resymau ariannol. Byddai angen buddsoddi miliynau o bunnoedd i greu ffermydd o'r fath ac mae'r gost mor uchel oherwydd y gost o dalu am greu cyswllt rhwng y fferm â'r Grid Cenedlaethol. Ni fyddai'r Cyngor chwaith yn cael 'hawlio'r credyd carbon' fyddai'n dod o gynhyrchu trydan mewn fferm solar ac felly ni fyddant yn gallu cyfrannu at ein targed ni'n hunain o gyrraedd sero net.

6.18 Byddai'n haws cyfiawnhau'r gwariant pe bai'n bosib adeiladu fferm solar fyddai'n gallu bwydo trydan yn uniongyrchol i un o safleoedd y Cyngor, ond yn anffodus nid oes digon o dir gerllaw ein prif safleoedd (ee. swyddfeydd, depo) i alluogi hyn.

**6.19 Oes gwelliannau y gellir ei gwneud i gyrraedd y targed o Garbon Sero Net sydd ddim yn gostus? Beth sydd wedi ei ystyried?**

6.20 Yn sicr mae nifer fawr o opsiynau di-gost neu gost isel wedi eu hystyried, a nifer ohonynt eisoes wedi eu gweithredu, megis:

- Hwyluso trefniadau i ailgylchu gwastraff ar safleoedd y Cyngor a chynnal ymgyrchoedd i ddylanwadau ar newid arferion staff
- Defnyddio Wythnos Hinsawdd Cymru ym mis Tachwedd i rannu gwybodaeth am y camau y gall y cyhoedd, staff ac aelodau eu cymryd er mwyn lleihau eu ôl-troed carbon unigol
- Defnyddio Wythnos Hinsawdd Cymru er mwyn cynnig sesiynau blasu beiciau trydan, ac annog staff i fanteisio ar Gynlluniau Beic a Ceir Gwyrdd y Cyngor
- Diweddaru'r safle Hinsawdd a Natur ar wefan y Cyngor ac hefyd creu adran newydd ar fewnrwyd staff y Cyngor er mwyn rhannu gwybodaeth, newyddion a chymorth fydd gobeithio'n arwain at newid ymddygiad
- Annog staff ac aelodau etholedig i gwblhau'r e-fodiwl hyfforddiant Hinsawdd a Natur
- Rydym eisoes yn defnyddio dulliau monitro defnydd ynni o bell (M&T) er mwyn adnabod unrhyw wastraffu ynni damweiniol, ond rydym hefyd yn ymchwilio i ddulliau rheoli o bell eraill sy'n defnyddio'r rhyngrwyd
- Mae holiadur ar fin ei ddosbarthu er mwyn casglu gwybodaeth am arferion cymudo staff i'r gwaith ac i weld pa newidiadau tuag at ddulliau sy'n llygru llai y byddai'n bosib eu mabwysiadu
- Ochr yn ochr â gweithredu'r Cynllun Fflyd Werdd mae cynlluniau ar y gweill i geisio lleihau teithiau busnes – hy. symud oddi wrth ddefnyddio ceir personol tuag at ddefnyddio'r fflyd o gerbydau trydan

**6.21 Oes modd derbyn rhestr o'r pethau sydd yn achosi'r gyfran fwyaf o allyriadau carbon o fewn y Cyngor a beth sydd yn cael ei wneud er mwyn eu lleihau?**

6.22 Mae pennod 5 yn y Adroddiad Blynyddol yn dangos allyriadau carbon y Cyngor fesul categori, ac mae penodau 6 – 12 yn dangos beth sy’n cael ei wneud er mwyn eu lleihau.

**6.23 Sut mae’r sefyllfa ariannol bresennol yn effeithio ar wireddu’r Cynllun?**

6.24 Er bod nifer o gynlluniau cost isel neu ddi-gost yn cael eu hystyried a’u gweithredu, y gwirionedd yw bod angen arian sylweddol er mwyn gwireddu’r newidiadau angenrheidiol sydd am wneud y gwahaniaeth mwyaf. Os ydym am leihau’n sylweddol yr allyriadau carbon o’n hadeiladau a’n fflyd (y meysydd sy’n llygru fwyaf, ar ôl caffael) yna mae angen buddsoddiad o filiynau. Rydym wedi amcangyfrif y byddai’n costio tua £3.7m i newid goleuadau ar draws stad y Cyngor i rai LED, ond y dylai hynny hefyd arwain at tua £500,000 o arbedion ariannol ac arbediad carbon o 524 tCO2e. Mae cynllun peilot i osod pympiau gwres mewn 3 safle yn costio £1,950,000, ac mae un fan fechan drydan yn £26,357.

6.25 Tra fod angen buddsoddiad cyfalaf sylweddol yn ychwanegol i’r hyn y gallwn fel Cyngor ei gynnig, mae hefyd angen buddsoddiad refeniw er mwyn cynnal prosiectau. Mae angen cyllid refeniw er mwyn cadw staff fydd yn gallu ymgeisio am grantiau cyfalaf yn y lle cyntaf, ac yna i ddod a’r prosiectau hynny’n fyw.

## 7. Ymgynghori

7.1 Mae Adroddiad Blynyddol 2023/24 wedi ei drafod a’i dderbyn gan y Grŵp Gweithredol Hinsawdd a Natur (grŵp o swyddogion ar draws adrannau’r Cyngor sy’n ymwneud â phrosiectau’r CAHN) a gan y Bwrdd Hinsawdd a Natur.

7.2 Ar ôl derbyn sylwadau gan y Pwyllgor Craffu Cymunedau bydd yr adroddiad yn cael ei ystyried gan Gabinet y Cyngor cyn i fersiwn derfynol gael ei gyhoeddi ar wefan y Cyngor.

## 8. Deddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol (Cymru) 2015

8.1 A ydych wedi **cynnwys** trigolion / defnyddwyr gwasanaeth? Os ddim, pryd a sut ydych yn bwriadu ymgynghori â nhw?

8.2 Bydd yr Adroddiad Blynyddol terfynol yn cael ei gyhoeddi ar wefan y Cyngor ar ôl derbyn sêl bendith y Cabinet a byddwn yn rhannu gwybodaeth amdano i holl aelodau’r Cyngor, ac i drigolion Gwynedd a’r cyhoedd yn gyffredinol.

8.3 A ydych wedi ystyried **cydweithio**?

8.4 Mae penodau 11 a 12 o’r Adroddiad Blynyddol yn adrodd ar waith sydd wedi ei gynnal yn rhannol gan Bartneriaeth Natur Gwynedd, sef consortiwm o fudiadau lleol sy’n cael eu harwain gan y Cyngor. Mae nifer o brosiectau eraill sydd yn y

CAHN yn cael eu cynnal mewn partneriaeth ag eraill, megis prosiectau teithio llesol ar y cyd â phartneriaid y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus.

8.5 Beth sydd wedi ei wneud neu bydd yn cael ei wneud i **atal** problemau rhag codi neu waethygu yn y dyfodol?

8.6 Un o egwyddorion sylfaenol y CAHN yw ceisio atal cynnydd pellach yn nhymheredd cyfartalog y blaned ac i gyfyngu cynhesu byd eang i "ymhell islaw 2 ºC" yn unol â Chytundeb Paris y Cenhedloedd Unedig. Mae pob un o brosiectau'r cynllun yn ceisio sefydlogi neu hyd yn oed wrthdroi y siawns bod y sefyllfa bresennol yn arwain at ragor o broblemau yn y dyfodol.

8.7 Sut ydych wedi ystyried yr **hirdymor** a beth fydd anghenion pobl mewn blynyddoedd i ddod?

8.8 Fel y nodwyd uchod, sail y CAHN yw ceisio atal problemau cynhesu byd eang rhag gwaethygu i'r dyfodol, ac er bod targed i'r Cyngor ei hun fod yn garbon sero net erbyn 2030 mae Llywodraeth Cymru wedi gosod targed i Gymru gyfan fod yn sero net erbyn 2050. Mae'r CAHN felly hefyd yn cymryd i ystyriaeth y bydd newid arferion trigolion a busnesau Gwynedd yn waith hirdymor y tu hwnt i 2030.

8.9 Mae'r Adroddiad Blynyddol yn amlygu bod y CAHN ei hun yn datgan bod yna waith pellach angen ei wneud er mwyn ymgorffori prosiectau fydd yn helpu trigolion, busnesau a chymunedau i ymateb i newid hinsawdd sydd eisoes yn newid ein tirwedd, megis effaith llifogydd a thywydd eithafol. Mae gwaith ar y gweill ar hyn o bryd i adolygu'r CAHN ac i wneud unrhyw addasiadau angenrheidiol felly mae'n debygol iawn y gwelwn brosiectau ychwanegol i'r dyfodol fydd yn canolbwyntio ar helpu trigolion Gwynedd i addasu i'r anghenion gwahanol dros gyfnod hir o amser.

8.10 Er mwyn sicrhau **integreiddio**, a ydych wedi ystyried yr effaith bosib ar gyrff cyhoeddus eraill?

8.11 Mae nifer fawr o brosiectau'r CAHN yn cael eu cynllunio neu eu gweithredu ar y cyd â chyrff cyhoeddus eraill neu gyda'r sector wirfoddol a chymunedau. Gweler 8.4.

8.12 Mae nifer o gyrff cyhoeddus lleol gan gynnwys Cyngor Gwynedd yn aelodau o'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus ac un o dri Amcan Llesiant yng Nghynllun Llesiant Gwynedd a Môn 2023-2028 yw 'Rydym am weithio gyda'n gilydd i gefnogi ein gwasanaethau a'n cymunedau i symud tuag at Sero Net Carbon'. Mae yna gydweithio parhaus gydag awdurdodau lleol eraill ar draws gogledd Cymru, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, Gwasanaeth Ynni Llywodraeth Cymru, Trafnidiaeth i Gymru sydd wedi arwain at gynllunio a chomisiynu gwaith ar y cyd. Mae nifer o brosiectau'r CAHN hefyd yn ddibynnol ar gydweithio llwyddiannus

gyda phartneriaid eraill, megis ein prosiectau bioamrywiaeth a defnydd tir ar y cyd â Phartneriaeth Natur Gwynedd.

**9. Effaith ar Nodweddion Cydraddoldeb, y Gymraeg a'r Dyletswydd Economaidd-Gymdeithasol**

9.1 Lluniwyd Asesiad Effaith ar Nodweddion Cydraddoldeb, y Gymraeg a'r Dyletswydd Economaidd Gymdeithasol ar y Cynllun Argyfwng Hinsawdd a Natur pan y gafodd ei fabwysiadu yng nghyfarfod y Cabinet ar 8 Mawrth 2022. Mae'r asesiad hwn yn uniongyrchol berthnasol i'r Adroddiad Blynyddol ar y CAHN yn ogystal.

**10. Camau Nesaf**

10.1 Yn dilyn trafodaeth yn y Pwyllgor Craffu Cymunedau bydd unrhyw sylwadau sydd gan y Pwyllgor ar yr Adroddiad Blynyddol yn cael eu cyflwyno i sylw'r Cabinet. Bydd Cabinet y Cyngor yn ystyried yr Adroddiad Blynyddol yn ei gyfarfod ar 11eg Chwefror.

10.2 Os fydd y Cabinet yn cymeradwyo'r adroddiad byddwn yn rhannu cyhoeddusrwydd amdano ac yn annog trigolion Gwynedd i fanteisio ar y cyfleoedd i leihau eu hallyriadau carbon personol yn ogystal ag helpu'r Cyngor i gyrraedd ein targed sero net ein hunain.

**11. Gwybodaeth Cefndir**

Cynllun-Argyfwng-Hinsawdd-a-Natur.pdf
Cynllun-Argyfwng-Hinsawdd-a-Natur-Adroddiad-Blynyddol-2022-23.pdf

**12. Atodiadau**

Atodiad 1 – Adroddiad Blynyddol 2023/24 Cynllun Argyfwng Hinsawdd a Natur

# Adroddiad Blynyddol 2023/24

# Cynllun Argyfwng Hinsawdd a Natur



# Cynnwys


1. Rhagair Arweinydd Cyngor Gwynedd 3
2. Cefndir 4
3. Adran 6 Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 5
4. Cyrraedd y Sefyllfa Bresennol 7
5. Allyriadau ac Amsugno Carbon 2023/24 8
6. Adeiladau ac Ynni 11
7. Symud a Thrafnidiaeth 15
8. Gwastraff 19
9. Llywodraethu 21
10. Caffael 23
11. Defnydd Tir 24
12. Ecoleg 27
13. Camau Nesaf 30


DRAFT

# 1. Rhagair Arweinydd y Cyngor

Rwy'n falch o gyflwyno'r adroddiad hwn sy'n crynhoi'r gwaith y bu Cyngor Gwynedd yn arwain arno yn ystod 2023/24 wrth gyflawni ein Cynllun Argyfwng Hinsawdd a Natur 2022/23 - 2029/30.

Dyma'r ail flwyddyn i ni fod yn gweithredu'r Cynllun, ac mae'n bleser gen i weld ein bod wedi datblygu ein gwaith ymhellach mewn nifer o feysydd, ac wedi cychwyn rhai prosiectau eraill o'r newydd. Rhaid cofio o hyd mai ein pwrpas yw y "bydd Cyngor Gwynedd yn garbon sero net ac yn ecolegol gadarnhaol erbyn 2030."

Wrth i chi bori drwy'r adroddiad hwn mi welwch sawl enghraifft o lwyddiant prosiectau sydd yn ein symud yn raddol tuag at y nod o fod yn gyngor sero net. Drwy weithio mewn partneriaeth ag eraill fe lwyddwyd i ehangu gwasanaeth bysiau Sherpa'r Wyddfa, cyflwyno gwasanaethau 'fflecsi' a chyflwyno fflyd o fysiau trydan ar y llwybr T22 rhwng Blaenau Ffestiniog, Porthmadog a Chaernarfon. Mae'r newid yma wedi helpu i leihau teithiau mewn ceir petrol a disel, ac mae'n cynnig rhagor o ddewis i drigolion ac ymwelwyr ar sut i deithio o amgylch y sir.

Rydym yn adeiladu ar flynyddoedd o brofiad o drosi ein adeiladau a fflyd i fod yn defnyddio llai o ynni ac allyru llai o garbon, ac fe fydd y gwaith o osod pympiau gwres, goleuadau LED, prynu fflyd a phwyntiau gwefru trydan yn mynd â ni sawl cam ymhellach ar y daith honno. Rydym wedi buddsoddi arian o goffrau'r cyngor yn y gwaith hwn, ac fe wnaeth hynny arwain at ddenu cyllid sylweddol drwy gronfeydd grant allanol.

Mae'r buddsoddiad ychwanegol allanol hwn yn gwbl angenrheidiol i llwyddiant ein gwaith yn y meysydd hinsawdd a natur. Mae'r gost sydd ynghlwm â'r gwaith yn anferthol, tra ar yr un pryd mae'r gyllideb sydd gennym yn lleihau. Yn syml, mae angen i ni gyflawni mwy ond gyda llai o adnoddau.

Mae ein ffocws, wrth fynd ymlaen, ar edrych yn greadigol ar sut fedrwn ni ddefnyddio ein adnoddau prin, ac fe fyddwn yn cydweithio â phartneriaid eraill ar draws gogledd Cymru a gyda'n cymunedau lleol er mwyn gwthio'r gwaith hanfodol hwn yn ei flaen.

Cynghorydd Nia Jeffreys

DRAFT

# 2. Cefndir

Mae Cyngor Gwynedd wedi datgan yn glir bod ymateb i'r argyfwng hinsawdd a natur yn un o'i flaenoriaethau, ac mae Gwynedd Werdd yn un o 7 maes blaenoriaeth yng Nghynllun Cyngor Gwynedd 2023-2028.

Er mwyn deall rhagor am yr hyn mae'r Cyngor yn ceisio ei gyflawni, trowch at y Cynllun-Argyfwng-Hinsawdd-a-Natur.pdf (llyw.cymru) (CAHN) a fabwysiadwyd gan y Cabinet fis Mawrth 2022.

Uchelgais y Cynllun yw "Bydd Cyngor Gwynedd yn garbon sero net ac yn ecolegol gadarnhaol erbyn 2030."

Mae'r uchelgais yn cyd-fynd â tharged Llywodraeth Cymru i sefydliadau'r sector gyhoeddus ar y cyd fod yn garbon sero net erbyn 2030 ac i Gymru fod yn wlad sero net erbyn 2050.

Mae ein Cynllun Argyfwng Hinsawdd a Natur yn cynnwys nifer o brosiectau o fewn y prif themâu –

- adeiladau ac ynni
- symud a thrafnidiaeth
- gwastraff
- llywodraethu
- caffael
- defnydd tir
- ecoleg

Bydd yr adroddiad hwn yn rhoi cipolwg o'r cynnydd sydd wedi ei wneud ym mhob un o brosiectau'r CAHN yn ystod blwyddyn 2023/24, sef yr ail flwyddyn i'r cynllun fod yn weithredol.

Mae'r cynllun yn cael ei fonitro'n rheolaidd gan y Bwrdd Hinsawdd a Natur, sydd ag aelodaeth o swyddogion ac Aelodau Cabinet a chynrychiolwyr o bwyllgorau craffu.

[Bydd yr Adroddiad Blynyddol hwn yn cael ei graffu mewn cyfarfod o'r Pwyllgor Craffu Cymunedau ar 23ain Ionawr 2025 ac mewn cyfarfod o Gabinet Cyngor Gwynedd ar 11eg Chwefror 2025].

DRAFT

# 3. Adran 6 Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016

Mae ein Cynllun Argyfwng Hinsawdd a Natur (CAHN) yn datgan ein uchelgais i fod yn "...ecolegol gadarnhaol erbyn 2030". Un o'r camau y gallwn ei gymryd er mwyn gwireddu hyn yw gweithredu ar gynnwys Adran 6 o Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016.

Yn ôl Adran 6 o Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 mae gan awdurdodau cyhoeddus sy'n gweithredu yng Nghymru ddyletswydd i gynnal ac i wella bioamrywiaeth ac i annog cryfder ecosystemau. Tra bod ein safleoedd a'r rhywogaethau a warchodir yn bwysig, mae gofynion Adran 6 yn ymwneud â chymryd camau i warchod natur yn ein trefi, dinasoedd, mannau cyhoeddus a'r dirwedd ehangach, drwy weithredu ymarferol, ac yn y modd y mae'r holl weithredoedd cyhoeddus yn cael eu trefnu.

Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru strategaeth bioamrywiaeth genedlaethol, sef y 'Cynllun Gweithredu Adfer Natur' yn 2015 oedd yn amlinellu'r ymrwymiad i wrthdroi colli bioamrywiaeth yng Nghymru, a'r amcanion ar gyfer gweithredu. Mae'n cynnwys 6 amcan ar gyfer adferiad natur yng Nghymru:

Amcan 1: Ymgysylltu a chefnogi cyfranogiad a dealltwriaeth i wreiddio bioamrywiaeth drwy gydol y broses o wneud penderfyniadau ar bob lefel

Amcan 2: Diogelu rhywogaethau a chynefinoedd o'r pwys mwyaf a gwella eu rheolaeth

Amcan 3: Cynyddu gwytnwch ein hamgylchedd naturiol trwy adfer cynefinoedd sydd wedi'u diraddio a chreu cynefinoedd newydd

Amcan 4: Mynd i'r afael â phwysau allweddol ar rywogaethau a chynefinoedd

Amcan 5: Gwella ein tystiolaeth, dealltwriaeth a monitro

Amcan 6: Rhoi fframwaith llywodraethu a chymorth ar gyfer cyflawni'r amcanion ar waith

Er mwyn cydymffurfio â dyletswydd Adran 6 mae'n rhaid i awdurdodau cyhoeddus gyhoeddi cynllun eu hunain yn amlinellu'r hyn maent yn bwriadu ei wneud i gynnal a gwella bioamrywiaeth ac annog gwytnwch. Mae canllawiau Llywodraeth Cymru yn nodi y dylai cyrff cyhoeddus ystyried seilio eu cynllun dyletswydd Adran 6 hwythau ar y Cynllun Gweithredu Adfer Natur cenedlaethol.

Mae Cyngor Gwynedd wrthi'n datblygu Cynllun Adfer Natur diwygiedig, ond yn y cyfamser rydym hefyd wedi cynnwys

DRAFT

gwybodaeth berthnasol yn y CAHN. Tra fod gwarchod natur a bioamrywiaeth wedi ei wau drwy'r CAHN cyfan mae'r adrannau Defnydd Tir ac Ecoleg yn rhestru'r prosiectau fydd yn canolbwyntio'n benodol ar y gwaith hwn.

Ar ddiwedd pob adran o'r adroddiad blynyddol hwn fe welwch ddisgrifiad o sut y mae'r gwaith sydd wedi ei gyflawni yn cyfrannu at wireddu un neu fwy o'r 6 amcan uchod, sydd yn ei dro yn cydymffurfio ag Adran 6 o Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016.

Dyma grynodeb o'r cysylltiad rhwng prosiectau'r Cynllun Argyfwng Hinsawdd a Natur ac Amcanion Adran 6:

## Adran 6 Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016

| Cynllun Argyfwng Hinsawdd a Natur | Amcan 1 | Amcan 2 | Amcan 3 | Amcan 4 | Amcan 5 | Amcan 6 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Adeiladau ac Ynni | | ✓ | ✓ | | | |
| Symud a Thrafnidiaeth | | ✓ | ✓ | | | |
| Gwastraff | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | | |
| Llywodraethu | ✓ | | | | | ✓ |
| Caffael | | | | | ✓ | ✓ |
| Defnydd Tir | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | |
| Ecoleg | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |


DRAFT

# 4. Cyrraedd y Sefyllfa Bresennol

Cyn bodolaeth y Cynllun Argyfwng Hinsawdd a Natur roedd y Cyngor eisoes wedi bod yn gweithredu ers blynyddoedd i geisio lleihau ein ôl troed carbon. Cyhoeddwyd y Cynllun Rheoli Carbon 1 yn 2010 a Chynllun Rheoli Carbon 2 yn 2015. Defnyddiwyd 2005/06 fel y flwyddyn waelodlin er mwyn mesur y data yn y ddau gynllun.

Drwy fuddsoddi oddeutu £8m mewn mesurau lleihau defnydd ynni rhwng 2010 a 2019 bu i ni lwyddo i leihau ein allyriadau carbon 58% yn y meysydd adeiladau, teithio busnes, goleuadau stryd, fflyd a gwastraff.

Gellir gweld y gostyngiad fesul maes yn y graff isod a teg dweud fod ein hymdrechion wedi arwain at gydnabyddiaeth genedlaethol sawl tro:




## Mesur ein Allyriadau Carbon


Pan oedd y cyngor yn gweithredu Cynlluniau Rheoli Carbon 1 a 2 roeddem yn dilyn dulliau mesur allyriadau carbon cydnabyddedig y Carbon Trust, ac yn mesur cynnydd mewn 5 maes fel mae'r siart yn ddangos. Ers 2019 mae Llywodraeth Cymru wedi mabwysiadu trefn wahanol o fesur data carbon ac felly mae'r CAHN wedi defnyddio data blwyddyn 2019/20 fel gwaelodlin newydd. Gan fod amrywiadau bychan rhwng y ddwy drefn o fesur byddai'n gamarweiniol i wneud cymhariaeth uniongyrchol rhwng data carbon cyn, ac ar ôl, 2019.

Rydym bellach hefyd yn mesur ein allyriadau carbon mewn meysydd ychwanegol – caffael, cymudo staff, a gweithio o gartref (ers 2021/22). Rydym hefyd yn mesur faint o garbon y mae ein tiroedd yn ei amsugno, ac wrth wrthbwyso'r ffigwr hwnnw yn erbyn cyfanswm yr allyriadau fe gawn ffigwr net, sef y bwlch i gyrraedd sero net.

# 5. Allyriadau ac Amsugno Carbon 2023/24


Ein bwlch i sero net (**gan** gynnwys caffael) yn 2023/24 oedd 58,181,467 kg$CO_2$e.
Ein bwlch i sero net (**heb** gynnwys caffael) yn 2023/24 oedd 17,430,668 kg$CO_2$e.




## Allyriadau Carbon

Mae'r siart cyntaf gyferbyn yn dangos ein allyriadau carbon dros 8 pennawd, ac yn cynnwys allyriadau caffael (prynu nwyddau a gwasanaethau).





Mae'r fethodoleg o fesur allyriadau carbon sy'n deillio o'n prosesau caffael yn amherffaith gan ei fod yn seiliedig ar faint o arian yr ydym yn ei wario. Po fwyaf yr ydym yn ei wario po fwyaf yw'r allyriadau.

Oherwydd y gall y data caffael greu darlun amherffaith mae'r ail siart gyferbyn yn cyflwyno data ar gyfer y 7 pennawd sy'n weddill ar ôl diystyru caffael.

## Amsugno Carbon

Fel mae'r siart isod yn ei ddangos, mae lefelau amsugno carbon ar diroedd y Cyngor wedi gostwng 47% rhwng blwyddyn waelodlin 2019/20 a 2023/24, ac wedi gostwng 2% rhwng 2022/23 a 2023/24. Mae hyn yn rhannol oherwydd bod newid yn y dulliau o gyfrifo ond hefyd am ein bod bellach yn berchen ar lawer llai o hectrau o dir.





## Ble ydym ni ar y daith o gyrraedd sero net erbyn 2030, ac ydi data 2023/24 yn dangos ein bod ar y trywydd cywir?

Mae siart 1 yn dangos bod cyfanswm allyriadau carbon Cyngor Gwynedd, gan gynnwys caffael, wedi syrthio 16% rhwng blwyddyn waelodlin 2019/20 a 2023/24. Os ydym yn diystyru caffael yna mae'r cwymp yn 37%.

Gwelwyd cynnydd o ychydig llai na 1% yn ein allyriadau caffael rhwng blwyddyn waelodlin 2019/20 a 2023/24 ond gwelwyd cynnydd o 25% mewn allyriadau caffael rhwng 2022/23 a 2023/24 sy'n seiliedig ar gynnydd o £11m mewn gwariant ym meysydd gofal, adeiladwaith a thrafnidiaeth.


Nodwyd eisoes bod y dull o fesur allyriadau caffael yn amherffaith, ac mae cynnydd mewn chwyddiant dros y blynyddoedd diwethaf, ynghyd â chostau cynyddol anorfod eraill, yn creu darlun bod yr allyriadau carbon wedi cynyddu.




DRAFT


Gan bod y data ar gyfer allyriadau caffael yn gallu creu darlun amherffaith mae siart 2 yn dangos bod cwymp o 37% yn yr allyriadau ar gyfer y 7 maes arall gyda'i gilydd rhwng 2019/20 a 2023/24 (nid oedd 'gweithio o gartref' yn cael ei fesur yn 2019/20).

Gwelwyd ostyniad hefyd o 2% rhwng 2022/23 a 2023/24. Er hyn, mae amrywiaeth rhwng y 7 maes ac mae 5 maes wedi gweld cynnydd yn 2023/24 ar y flwyddyn flaenorol, sef: Fflyd ac Offer, Goleuadau Stryd, Teithio Busnes, Gwastraff a Chaffael er mae'r allyriadau yn dal yn is na 2019/20 ym mhob categori heblaw caffael. Mae rhagor o wybodaeth am y rhesymau y tu ôl i'r cynnydd i'w weld yn y penodau dilynol.




## Bwlch i Sero Net

Wrth edrych ar ein data allyru ac amsugno carbon, heb ystyried data caffael, yna mae ein bwlch i sero net 35% yn llai yn 2023/24 o'i gymharu â 2019/20 ac 1% yn llai na 2022/23.



# 6. Adeiladau ac Ynni

Mae'r allyriadau carbon o adeiladau ac ynni yn 2023/24 yn 45% o'r cyfanswm (heb gyfri caffael), sy'n 22% o ostyngiad ers 2019/20 ac yn 3% o ostyngiad ers 2022/23.

Mae'r allyriadau carbon o oleuadau stryd yn 2023/24 yn 3% o'r cyfanswm (heb gyfri caffael), sy'n 36% o ostyngiad ers 2019/20 ac yn 11% o gynnydd ers 2022/23.

## Be wnaethom ddweud y byddem yn ei wneud yn 2023/24?

## Blaenoriaethau Tymor byr 2022/23 – 2023/24

**Prosiectau:**

1. Anelu am fuddion tymor hir wrth gynllunio gwaith adeiladu neu adnewyddu adeiladau.
2. Dadgarboneiddio cyflenwad ynni'r cyngor.
3. Defnyddio dulliau adeiladu carbon isel Passivhaus wrth ddatblygu ein cynllun peilot tai arloesol.
4. Cynnig cyngor a gwybodaeth i drigolion Gwynedd am fanteision a chyfleoedd i ddefnyddio dulliau adeiladu carbon isel wrth adeiladu cartrefi a systemau gwresogi/ynni carbon isel i gynnal cartref.
5. Gosod rheoliadau gwresogi ystafelloedd unigol er mwyn lleihau'r ynni sydd ei angen i wresogi adeilad.
6. Uwchraddio goleuadau stryd ac arwyddion traffig er mwyn defnyddio llai o ynni.
7. Gwella'r isadeiledd ynni yng Ngwynedd a gogledd Cymru er mwyn cynnal systemau ynni a thrafnidiaeth carbon isel.

## Be wnaethom ni?

**Prosiect 1** –Mae'r gwaith o wella ffabrig adeiladau er mwyn eu gwneud mor effeithlon o ran ynni (prosiectau 1, 9 & 14) yn waith parhaus sydd wedi bod ar y gweill gennym fel cyngor ers dros ddegawd. Roedd y gwaith hwn wedi parhau yn ystod 2022/23, yn ogystal ag archwilio os fydd angen gwneud unrhyw waith newydd i'r dyfodol.

**Prosiect 2 a 7** – Drwy gydol 2023/24 bu'r cyngor yn cydweithio ag Uchelgais Gogledd Cymru, cwmni ARUP a rhanddeiliaid lleol er mwyn datblygu Cynllun Ynni Lleol. Bwriad y Cynllun Ynni Lleol yw creu system ynni carbon isel integredig ar gyfer Gwynedd, gan wella'r isadeiledd presennol fydd yn ei dro yn cefnogi pob sector i drawsnewid eu defnydd presennol o ynni. Mae disgwyl i'r cynllun gael ei gwblhau erbyn Medi 2024, ac yna bydd trafodaethau yn parhau i sefydlu trefniadau i'w weithredu ar y cyd â phartneriaid rhanbarthol a chenedlaethol.

DRAFT

**Prosiect 3** – Mae egwyddorion Passivhaus yn ystyriaeth wrth i'r cyngor gynllunio adeiladau newydd, ee. Ysgol Bontnewydd. Mae'r union ddulliau adeiladu yn cael eu cytuno fesul datblygiad.

**Prosiect 4** - Rydym yn cynnig cymorth a chyngor i drigolion Gwynedd ar sut i arbed ynni ac arian drwy'r cynlluniau Nyth ac Eco 4. Mae ein swyddogion trechu tlodi a chynghorwyr ynni wedi bod yn cynnal sesiynau gwybodaeth wyneb yn wyneb yn ein cymunedau yn ogystal ag ateb ymholiadau drwy'r wefan neu dros y ffôn. Ar ddiwedd 2023/24 roedd 278 o dai wedi eu huwchraddio sy'n golygu gwariant oddeutu £10m yng Ngwynedd. Gweler hefyd adroddiad ar Prosiect 1.

**Prosiect 5** - Mae gennym systemau canolog ar gyfer rheoli gwres mewn adeiladau felly nid ydym yn gweld yr angen i symud ymlaen i osod rheoliadau gwresogi ystafelloedd unigol ar hyn o bryd. Fe all yr angen hwn newid i'r dyfodol os fydd y prosiect Rhyngrwyd y Pethau (o fewn Cynllun Digidol Cyngor Gwynedd 2023-28) yn dangos bod gwerth ychwanegol i newid y drefn bresennol.

**Prosiect 6** – Dechreuodd y prosiect hwn i newid lampau stryd a thraffig i rai LED yn 2016/17, a chwblhawyd y rhan helaethaf o'r prosiect hwn erbyn diwedd 2022/23, ond os oes goleuadau stryd neu draffig ychwanegol yn dod i mewn i ofal y Cyngor yna'n mae'n waith parhaus i'w newid a'u cynnal. Yn ystod 2022/23 fe fabwysiadodd y Cyngor y cyfrifoldeb am rannau helaeth o'r A487 o amgylch Caernarfon gan Asiantaeth Cefnffyrdd Gogledd a Chanolbarth Cymru, ac yn sgil hyn nifer fawr o lampau stryd ychwanegol heb LED. Er ein bod wedi bod yn raddol newid pob un i lamp LED yn ystod 2023/24, roedd y defnydd o drydan wedi cynyddu yn ystod y flwyddyn oherwydd y nifer sylweddol ychwanegol o oleuadau.

## Blaenoriaethau Tymor Canolig 2022/23 – 2026/27

**Prosiectau:**

8. Arbed 5% o allyriadau carbon o adeiladau drwy ddod â hwy i safon 'arfer dda' CIBSE.
9. Lleihau ein allyriadau carbon drwy ehangu ein defnydd o baneli solar i greu ynni adnewyddadwy.
10. Trydaneiddio systemau gwresogi adeiladau er mwyn lleihau allyriadau carbon.
11. Gosod ffaniau awyru EC (electronically commutated) mewn adeiladau er mwyn lleihau'r ynni sydd ei angen i'w rhedeg o'i gymharu â ffaniau arferol.
12. Uwchraddio goleuadau arbenigol mewn canolfannau hamdden er mwyn defnyddio llai o ynni.

### Be wnaethom ni?

**Prosiect 8 a 12** – Cytunodd Cabinet y cyngor i gyfrannu £416,617 tuag at gostau rhedeg cynllun peilot er mwyn gosod goleuadau LED mewn 6 safle. Mae gwaith gosod y goleuadau wedi llithro oherwydd gwaith ar y pympiau gwres ond bydd rhan helaeth o'r gwaith yn digwydd yn ystod Haf 2025. Bydd yr arbedion carbon ac ariannol yn cael eu mesur cyn penderfynu gwerth ymestyn y cynllun i amnewid goleuadau ar draws weddill stad y cyngor.

**Prosiect 9** - Yn ystod 2022/23 fe wnaeth Cabinet y cyngor gytuno i neilltuo £2.8m er mwyn cyflawni Gwedd 4 o gynllun i osod paneli solar PV ar 54 safle o eiddo'r cyngor er mwyn cynhyrchu trydan fydd yn arwain at arbedion ariannol yn ogystal â lleihau allyriadau carbon. Bydd gwaith yn cychwyn i osod paneli ar safleoedd yn ystod 2024. Mae'r prosiect hefyd yn cael ei ail-ddylunio ar hyn o bryd er mwyn ystyried yr angen am bympiau gwres a phwyntiau gwefru cerbydau trydan. Gweler hefyd adroddiad ar Prosiect 1.

**Prosiect 10 –** Bu'r cyngor yn llwyddiannus i ddenu grant sylweddol i ariannu prosiect peilot i osod pympiau gwresogi ar 3 safle, ac fe gytunodd Cabinet y cyngor i gyfrannu 10% o gostau cyfatebol (£175,478). Mae cymal 1 o osod y pympiau gwres ar safleoedd ysgolion wedi dechrau yn ystod gwyliau haf 2024 a bydd yn cael ei gwblhau yn ystod gwyliau haf 2025. Gweler hefyd y cysylltiad rhwng y prosiect hwn â phrosiect 9.

**Prosiect 11 –** Bydd ffaniau awyru yn cael eu gosod ar safleoedd 2 ysgol fel rhan o'r prosiect pympiau gwres (Prosiect 10).

## Blaenoriaethau Tymor Hir 2022/23 – 2029/30

**Prosiect:**

13. Cynyddu ein 'credyd' carbon drwy osod ffermydd solar er mwyn cynhyrchu ynni y gall y Cyngor ei ddefnyddio neu ei werthu.

### Be wnaethom ni?

**Prosiect 13 –** Nid yw'r prosiect yma'n flaenoriaeth ar hyn o bryd gan fod y costau ariannol o gysylltu â'r grid cenedlaethol mor uchel, ac oherwydd na fedr y Cyngor, o dan drefniadau adrodd data presennol, hawlio'r 'credyd carbon' ar unrhyw drydan a gynhyrchir. Serch hynny, mae'r Cynllun Ynni Lleol wedi adnabod cyfleoedd i ddatblygu ffermydd solar a byddwn yn parhau i drafod sut i ariannu prosiectau peilot o'r fath. Gweler hefyd brosiect 9.

## Blaenoriaethau Parhaus

**Prosiectau:**

14. Gwella ffabrig adeiladau sy'n eiddo i'r cyngor er mwyn eu gwneud mor effeithlon o ran ynni a phosibl.
15. Rhwystro gor-ddatblygu cynlluniau ynni tanwydd ffosiledig.
16. Uchafu i'r eithaf y buddion a ddaw o weithredu ein polisïau ynni a gwresogi.
17. Offer a ddefnyddir o fewn adeiladau'r cyngor i fod mor effeithlon o ran ynni a phosibl.

### Be wnaethom ni?

**Prosiect 14 –** Gweler Prosiect 1 & 9.

DRAFT

**Prosiect 15 –** Mae sylw wedi ei roi i’r mater hwn wrth greu’r Cynllun Ynni Lleol (Prosiectau 2 & 7), ac hefyd wrth ddatblygu Cynllun Datblygu Lleol Gwynedd 2024-2039.

**Prosiect 16 –** Mae prosiectau 1-17 yn cyfrannu at y nod hwn.

**Prosiect 17 –** Yn ystod 2023/24 fe fabwysiadodd y Cyngor Gynllun Digidol Cyngor Gwynedd 2023-28 sy’n cynnwys nifer o brosiectau fydd yn arwain at arbed ynni, leihau defnydd o bapur a lleihau gwastraff.

## Adran 6 Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016

Mae’r prosiectau uchod yn cyfrannu at yr amcanion isod:

Amcan 2: Diogelu rhywogaethau a chynefinoedd o'r pwys mwyaf a gwella eu rheolaeth

Amcan 3: Cynyddu gwytnwch ein hamgylchedd naturiol trwy adfer cynefinoedd sydd wedi’u diraddio a chreu cynefinoedd newydd

Yn ystod 2023/24 bu’r cyngor yn llwyddiannus gyda chais grant i gronfa Her Ysgolion Cynaliadwy Llywodraeth Cymru, a chafwyd buddsoddiad o £12m i adeiladu ysgol newydd yn Bontnewydd. Un o’r camau cyntaf yn y broses ddylunio oedd penodi penseiri tirlunio, ac maent wedi cyfrannu at ddylunio adeilad sydd nid yn unig yn gwarchod y bioamrywiaeth ar y safle ond yn annog dysgwyr i ddefnyddio tirlun y safle cyfan fel man dysgu. Mae’r gwaith cynllunio ar y safle yn parhau, ac mewn ymgynghoriad â’r disgyblion fe bydd blychau nythu a dolydd blodau yn cael eu gosod.

DRAFT

# 7. Symud a Thrafnidiaeth

Mae'r allyriadau carbon o fflyd y cyngor yn 2023/24 yn 25% o'r cyfanswm (heb gyfri caffael) sy'n 1% o ostyngiad ers 2019/20 ac yn 2% o gynnydd ers 2022/23.

Mae'r allyriadau carbon o gymudo staff yn 2023/24 yn 17% o'r cyfanswm (heb gyfri caffael) sy'n 37% o ostyngiad ers 2019/20 ac yn 3% o ostyngiad ers 2022/23.

Mae'r allyriadau carbon o deithio busnes yn 2023/24 yn 6% o'r cyfanswm (heb gyfri caffael) sy'n 36% o ostyngiad ers 2019/20 ac yn 1% o gynnydd ers 2022/23.

## Be wnaethom ddweud y byddem yn ei wneud yn 2023/24?

### Blaenoriaethau Tymor byr 2022/23 – 2023/24

**Prosiectau:**

1. Symud oddi wrth defnyddio cerbydau tanwydd ffosil tuag at fflyd o gerbydau (ceir a faniau) ULEV (ultra low emission vehicles).
2. Gosod pwyntiau gwefru cerbydau trydan ar gyfer cerbydau'r cyngor
3. Gosod pwyntiau gwefru cerbydau trydan ar gyfer trigolion Gwynedd
4. Lleihau teithio busnes
5. Lleihau allyriadau carbon a phroblemau parcio mewn ardaloedd sy'n boblogaidd ymysg ymwelwyr

### Be wnaethom ni?

**Prosiect 1 –** Mabwysiadodd y Cyngor ein Cynllun Fflyd Werdd 2023-29 fis Ionawr 2023 ac yna fe ymunodd y Cyngor â chynllun cenedlaethol i sefydliadau cyhoeddus bwrcasu cerbydau EV ar y cyd er mwyn arbed arian a chyflymu'r amser cyflenwi. Cytunodd Cabinet y cyngor i gyfrannu £1,048,400 tuag at gostau prynu 67 o geir a faniau yn ystod 2023/24 a 2024/25. Bu oedi yn y broses o ddarparu'r cerbydau oedd wedi eu harchebu ond cyrhaeddodd 44 o gerbydau trydan fis Mawrth 2024.

**Prosiect 2 –** Bu'r cyngor yn llwyddiannus yn denu grant o £66,346 er mwyn gosod pwyntiau gwefru i gerbydau'r cyngor ar 10 safle. Erbyn diwedd Mawrth 2024 roedd yna 14 pwynt gwefru yn weithredol ar 5 safle, gyda rhaglen waith i osod rhagor o bwyntiau dros 20 safle ychwanegol eisoes wedi cychwyn yn ystod 2023/24.

**Prosiect 3** - Erbyn diwedd 2023/24 roedd gan y cyngor 16 pwynt gwefru i'r cyhoedd yn weithredol mewn 8 lleoliad ac roedd 7 pwynt gwefru ychwanegol mewn 4 o safleoedd yn eiddo

i'r cyngor yn cael eu rheoli gan Trafnidiaeth i Gymru. Rydym fel cyngor yn cydweithio â Thrafnidiaeth i Gymru a Pharc Cenedlaethol Eryri wrth gynllunio lleoliadau pwyntiau gwefru cyhoeddus. Roedd nifer llawer uwch o beiriannau wedi eu gosod, ond yn aros i'r cysylltiad trydan gael ei awdurdodi. Mae ein rhaglen barhaus i osod cyfanswm o 114 pwynt gwefru cyhoeddus yn parhau yn ystod 2024/25 a byddwn yn ei hadolygu wrth asesu anghenion y dyfodol.

**Prosiect 4** – Rydym fel cyngor yn cynnal nifer o gyfarfodydd mewnol a chyhoeddus yn rhithiol, gan gynnwys pob un o brif gyfarfodydd y cyngor – Cyngor Llawn, Cabinet, Craffu, Cynllunio – gan leihau'n sylweddol yr angen i deithio i ganolfannau gwaith. Mae'r dull yma o weithredu wedi arwain at ostyngiad sylweddol o 36% mewn allyriadau carbon o deithio busnes ers 2019/20. Er hyn, gwelwyd gynnydd bychan o 1% rhwng 2022/23 a 2023/24 a hynny wrth i ragor o deithiau gael eu gwneud mewn ceir petrol a disel wrth i ragor o gyfarfodydd symud yn ôl i fod yn rai wyneb yn wyneb yn dilyn codi'r cyfyngiadau oedd yn bodoli yn ystod cyfnod Cofid 19.

Mae gwaith eisoes wedi cychwyn er mwyn lleihau allyriadau carbon a chost ariannol teithio busnes, a hynny drwy symud y teithiau i fod yn defnyddio'r fflyd o gerbydau trydan y mae'r cyngor yn eu prynu neu drafnidiaeth gyhoeddus. Dros y blynyddoedd nesaf dylem weld allyriadau carbon teithiau busnes yn gostwng eto.

**Prosiect 5** - Un o lwyddiannau mawr system drafnidiaeth integredig yw'r gwasanaeth bysiau Sherpa'r Wyddfa a ddechreuodd yn 2022, sef rhwydwaith o wasanaethau bws o amgylch dalgylch yr Wyddfa. Mae'r cyngor yn un o'r partneriaid fu'n datblygu'r ddarpariaeth, a'i nod yw cynyddu opsiynau teithio llesol a lleihau'r problemau parcio mewn mannau poblogaidd yn Eryri. Estynnwyd y gwasanaeth ymhellach yn ystod 2023/24 ac mae bellach yn gwasanaethu dalgylch eang o Fangor i Fetws y Coed i Morfa Bychan. Bydd hyn yn lleihau nifer a phellter siwrneiau mewn ceir personol gan leihau allyriadau carbon Gwynedd fel sir.

Cwblhawyd adolygiad o'r rhwydwaith bysiau cyhoeddus traws-sirol a chasglu barn defnyddwyr, gan arwain at gyflwyno rhwydwaith newydd i ardaloedd Dyffryn Nantlle, Caernarfon a Meirionnydd. Cyflwynwyd wasanaethau ac amserlenni newydd; prisiau tocynnau safonol; cynyddu amlder y gwasanaeth rhwng Abermaw a Phorthmadog; gwella'r integreiddio rhwng gwasanaethau lleol a gwasanaethau Trafnidiaeth i Gymru; cyflwyno gwasanaeth 'Fflecsi' yn Nyffryn Dulas a Dolgellau.

Cyflwynwyd hefyd wasanaeth newydd sbon T22 rhwng Blaenau Ffestiniog – Porthmadog – Caernarfon sy'n defnyddio bysiau trydan yn unig, ac yn cael eu gwefru o depo trydan newydd ym Mhorthmadog.

## Blaenoriaethau Tymor Hir 2022/23 – 2029/30

**Prosiect:**

6. Bod ag opsiynau tanwydd carbon isel neu ddi-garbon ar gyfer fflyd trwm y cyngor

DRAFT

Be wnaethom ni?

**Prosiect 6** - Mae trosi'r fflyd o gerbydau trwm i fod yn defnyddio trydan neu hydrogen yn broses hir dymor, ond mae swyddogion y cyngor yn cydweithio ag Uchelgais Gogledd Cymru ar eu prosiect Hwb Hydrogen a gyda Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru er mwyn rhannu datblygiadau newydd ac arfer dda ymysg awdurdodau lleol.

## Blaenoriaethau Parhaus

**Prosiectau:**

7. Lleihau allyriadau carbon drwy arferion cymudo staff
8. Annog teithio llesol ymysg staff – er budd iechyd a lles ac i leihau allyriadau carbon
9. Annog teithio llesol ymysg trigolion ac ymwelwyr i Wynedd er mwyn gwella lles corfforol a meddyliol a lleihau allyriadau carbon teithiau ceir byr
10. Cynyddu'r cyfleoedd i fudiadau cymunedol gael mynediad at gerbydau EV neu ULEV neu ddefnyddio technoleg carbon isel

Be wnaethom ni?

**Prosiectau 7 ac 8** - Mae gan y cyngor Gynllun Ceir Gwyrdd a Chynllun Beics Gwyrdd ar gael i'r rhan fwyaf o staff, sef cynlluniau aberthu cyflog er mwyn lesu car trydan/hybrid neu feic newydd. Rydym wedi bod yn annog staff i gymryd mantais llawn o'r cyfleoedd yma, gan gynnal sawl diwrnod agored er mwyn treialu beiciau trydan. Mae cyfanswm o 58 beic ac 14 car trydan neu hybrid wedi eu lesu gan ein staff yn ystod 2023/24.

Rydym hefyd wedi bod yn ymchwilio i'r opsiynau cymudo eraill all fod ar gael i staff, ac mewn trafodaethau gyda mudiadau cymunedol i gynnal cynlluniau peilot i gynnig opsiynau amgen i gar preifat. Bydd y cynlluniau hyn yn dod yn weithredol yn ystod 2024/25.

Bu Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwynedd a Môn, y mae'r cyngor yn aelod ohono, hefyd yn trafod y Siarter Teithio Llesol yn ystod 2023/24, ac aethpwyd ymlaen i fabwysiadu'r siarter ar ddechrau 2024/25.

**Prosiect 9** – Cwblhawyd sawl prosiect yn ystod 2023/24 fydd yn gwella darpariaeth presennol neu'n cynnig cyfleoedd teithio llesol newydd i drigolion ac ymwelwyr fel ei gilydd – Llwybrau cerdded a beicio diogel ar Ffordd Penrhos, Bangor; gwella Lon Las Ogwen; gosod llochesi beic yn Ysgol Cymerau, Pwllheli; Ysgol Godre'r Berwyn, Y Bala.

Gweler hefyd Brosiectau 5, 7 & 8 uchod.

**Prosiect 10** - Mae'r pwynt gwefru ar gyfer fflyd y cyngor yn ei faes parcio yng Nghaernarfon hefyd wedi cael ei ddefnyddio drwy gytundeb i wefru car trydan cymunedol o dan ofal y fenter gymdeithasol Deg/Co-wheels.

DRAFT

## Sylwadau pellach

Roedd 2023/24 yn flwyddyn pan oedd rhaglenni gwaith ar draws y cyngor yn ôl i lefelau tebyg i'r cyfnod cyn pandemig Covid-19. Mewn cymhariaeth â 2022/23 mae hyn wedi golygu cynnydd yn y litrau o danwydd (petrol a disel) a ddefnyddiwyd er mwyn rhedeg offer mewn canolfannau ailgylchu a chynnal a chadw priffyrdd. Bu'n cerbydau trwm allan yn graeanu yn amlach yn ystod tywydd oer Ionawr a Chwefror, a bu cynnydd hefyd yn y teithiau er mwyn cynnal ymweliadau gofal.

Roedd gan y cyngor 17 o gerbydau trydan yn ystod 2023/24 ac mae hyn wedi arwain at y gostyngiad mewn allyriadau carbon ers 2019/20. Er hynny, gan ei bod hi'n ddiwedd y flwyddyn ariannol arnom yn derbyn y 44 cerbyd newydd ni welwn y budd tan i ni fesur allyriadau carbon 2024/25.

## Adran 6 Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016

Mae'r prosiectau uchod yn cyfrannu at yr amcanion isod:

Amcan 2: Diogelu rhywogaethau a chynefinoedd o'r pwys mwyaf a gwella eu rheolaeth

Un o sgil-effeithiau positif cynyddu'r ddarpariaeth o drafnidiaeth cyhoeddus yn ardal Eryri (Prosiect 5) yw bod yr achosion o barcio anghyfrifol a pheryglus wedi lleihau. Mae hyn yn ei dro wedi helpu i warchod bioamrywiaeth ar ymylon ffyrdd ac yn agos at leoliadau sy'n cynnal bioamrywiaeth sy'n fregus.

Amcan 3: Cynyddu gwytnwch ein hamgylchedd naturiol trwy adfer cynefinoedd sydd wedi'u diraddio a chreu cynefinoedd newydd

Mae Prosiectau 5, 8 a 9 uchod yn rhedeg ochr yn ochr a gwaith y Cyngor i gynnal hawliau tramwy cyhoeddus, ac i gynnal a chadw tiroedd. Tra'n gofalu am rwydwaith o lonydd glas, llwybrau beicio a cherdded y sir rydym wedi bod yn gwarchod ymylon llwybrau a ffyrdd er mwyn cynnal a gwella bioamrywiaeth.

Mabwysiadwyd y Cynllun Gwella Hawliau Tramwy gan Gabinet Cyngor Gwynedd ar y 22ain o Dachwedd 2022. Mae Cyngor Gwynedd yn gyfrifol am rwydwaith Hawliau Tramwy sydd oddeutu 3,800km o hyd ac yn agored i gerddwyr, marchogwyr, beicwyr, ceffyl a throl a cherbydau modur.

DRAFT

# 8. Gwastraff

Mae'r allyriadau carbon o wastraff y cyngor yn 2023/24 yn 2% o'r cyfanswm (heb gyfri caffael) sy'n 95% o ostyngiad ers 2019/20 ac yn 6% o gynnydd ers 2022/23.

## Be wnaethom ddweud y byddem yn ei wneud yn 2023/24?

## Blaenoriaethau Tymor byr 2022/23 – 2023/24

**Prosiectau:**

1. Hyrwyddo economi gylchol er mwyn lleihau nifer yr eitemau sy'n cael eu gwaredu a lleihau allyriadau carbon yn y gadwyn gyflenwi o brynu nwyddau newydd
2. Lleihau'r gwastraff stryd sy'n mynd i'w waredu a chynyddu'r gwastraff stryd sy'n cael ei ailgylchu
3. Lleihau defnydd papur

### Be wnaethom ni?

**Prosiectau 1, 4, 5 a 6** – Bu'r Cyngor yn gweithio'n agos gyda nifer o fentrau cymunedol ar brosiectau newydd i roi hwb i'r economi gylchol yng Ngwynedd, oll wedi'u hariannu gan Lywodraeth Cymru. Bu'r prosiectau canlynol yn rhedeg yn llwyddiannus yn ystod 2023/24: Sied Werdd gydag Antur Waunfawr, Ar y Lon gyda Msparc, gofodau Ffiws, Caffis Trwsio, ac mae gwaith wedi dechrau ar yr Hwb Werdd ym Mhenygroes gan Siop Griffiths a'r Hen Bost ym Methesda gan Bartneriaeth Ogwen.

**Prosiect 2** – Gorffennwyd rhaglen waith o osod biniau ailgylchu cyhoeddus ar draethau poblogaidd a dechreuodd y rhaglen o osod y biniau yn ein safleoedd gwersylla dros dro, Arosfan. Rydym yn asesu'n barhaus yr angen i osod biniau ailgylchu cyhoeddus mewn safleoedd ar draws y sir. Bu'r cyngor hefyd yn cydweithio â Wrap Cymru er mwyn adolygu ein prosesau casglu data am wastraff stryd sydd wedi esgor ar drafodaethau am gael cerbyd pwrpasol i gasglu ailgylchu o finiau cyhoeddus.

**Prosiect 3** – Yn dilyn asesiad o ddefnydd papur yn ein swyddfeydd penderfynwyd i newid ein arferion argraffu, ac erbyn 2023/24 nid oeddem yn argraffu papurau ar gyfer cyfarfodydd oni bai bod yna eithriad rhesymol dros wneud. Buom hefyd yn adolygu ein cytundeb llogi argraffyddion a llungopiwyr a bydd y trefniadau yn newid yn ystod 2024/25 gyda'r nod o leihau'n sylweddol ar ddefnydd papur ac arbed ynni.

DRAFT

## Blaenoriaethau Tymor Canolig 2022/23 – 2026/27

**Prosiect:**

4. Lleihau'r nifer o eitemau sy'n cyrraedd safleoedd llosgi gwastraff drwy annog pobl i drwsio ac ail-ddefnyddio (Caffis Trwsio)

### Be wnaethom ni?

Gweler Prosiect 1 uchod.

## Blaenoriaethau Parhaus

**Prosiect:**

5. Trwsio ac addasu offer a fyddai fel arall yn cael ei waredu a'i losgi, a'i werthu
6. Lleihau gwastraff bwyd drwy gefnogi prosiectau cymunedol sy'n ceisio ail ddosbarthu bwyd fyddai fel arall yn cael ei daflu

### Be wnaethom ni?

**Prosiect 5** – Gweler Prosiect 1 uchod.

**Prosiect 6 –** Fe ddosbarthwyd £32,000 o arian grant i 12 grŵp cymunedol yn ystod 2023/24 er mwyn cynnal cynlluniau bwyd sy'n ail-ddefnyddio bwyd i ddibenion cymdeithasol a lleihau gwastraff (tlodi bwyd, clybiau bwyd i ymateb i unigedd). Er bod y cynlluniau wedi eu cynnal yn llwyddiannus roedd pob grŵp yn nodi bod faint o fwyd gweddilliol sy'n cael ei gasglu yn lleihau, mae'n debyg am bod llai o roddion gan y cyhoedd a llai o fwyd gweddilliol ar gael gan siopau.

### Sylwadau pellach

Pan yn sôn am 'wastraff' rydym yn cyfeirio at wastraff sy'n cael ei gynhyrchu gan drigolion a busnesau Gwynedd, ac nid y gwastraff y mae Cyngor Gwynedd ei hun fel sefydliad yn gyfrifol amdano.

Mae'r cynnydd o 6% mewn allyriadau carbon o wastraff rhwng 2022/23 a 2023/24 yn deillio o sawl rheswm gwahanol:

Mae'r ffactorau i gyfrifo'r allyriadau yn newid ychydig o flwyddyn i flwyddyn, sy'n ei gwneud hi'n anodd i gymharu tebyg at ei debyg rhwng un flwyddyn a'r llall. Oherwydd bod ffactorau cyfrifo 2023/24 wedi cynyddu mae yna 'gost' carbon uwch i'n gwastraff. Petaem wedi defnyddio ffactorau cyfrifo 2022/23 yn 2023/24 yna 2.6% o gynnydd a fyddem wedi ei weld.

Mae'r cynnydd mewn allyriadau yn seiliedig (yn eironig) ar y camau positif o anfon mwy o dunelli o wastraff i'w ailgylchu. Rhwng 2022-23 a 2023-24 gwelwyd cynnydd mewn tunelledd o ddeunyddiau a ailgylchwyd (+3%), gwastraff gardd anfonwyd i'w gompostio (+5%), a chlytiau a anfonwyd i'w trin (+4%), er bu lleihad mewn prosesu gwastraff bwyd (-7%).

Er hynny, gwelwyd gynnydd bychan o 0.75% yn ein gwastraff gweddilliol sy'n gorfod cael ei losgi mewn cyfleuster sy'n troi'r gwastraff yn ynni (*Energy from Waste*), ac mae gwaith yn parhau

DRAFT

i newid arferion trigolion a busnesau er mwyn gostwng y ffigwr hwn ymhellach.

## Adran 6 Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016

Mae'r prosiectau uchod yn cyfrannu at yr amcanion isod:

Amcan 1: Ymgysylltu a chefnogi cyfranogiad a dealltwriaeth i wreiddio bioamrywiaeth drwy gydol y broses o wneud penderfyniadau ar bob lefel

Wrth ddatblygu'r prosiectau sy'n rhan o'r cynllun i hybu'r economi gylchol fe fuom yn ymgynghori'n barhaus gyda'n holl bartneriaid cymunedol, ac mae swyddogion ar sawl lefel o fewn y cyngor wedi bod yn ystyried effaith y prosiectau ar fioamrywiaeth.

Amcan 2: Diogelu rhywogaethau a chynefinoedd o'r pwys mwyaf a gwella eu rheolaeth

Amcan 3: Cynyddu gwytnwch ein hamgylchedd naturiol trwy adfer cynefinoedd sydd wedi'u diraddio a chreu cynefinoedd newydd

Amcan 4: Mynd i'r afael â phwysau allweddol ar rywogaethau a chynefinoedd

Mae prosiectau 4, 5 a 6 uchod yn cyfrannu at amcanion 2, 3 a 4 gan fod ein hybiau bwyd a gerddi cymunedol wedi asesu eu dylanwad ar fioamrywiaeth, a'u datblygu mewn modd na fydd yn niweidio'r amgylchedd o'u cwmpas.

DRAFT

# 9. Llywodraethu

## Be wnaethom ddweud y byddem yn ei wneud yn 2023/24?

## Blaenoriaethau Tymor byr 2022/23 – 2023/24

**Prosiectau:**

1. Rhannu gwybodaeth yn gyhoeddus am y gwaith y mae'r cyngor yn ei wneud i leihau allyriadau carbon er mwyn annog eraill i newid arferion
2. Cefnogi cymunedau i gynllunio a darparu atebion lleol i anghenion lleol

### Be wnaethom ni?

**Prosiect 1** – Rydym yn rhannu gwybodaeth am brosiectau y mae'r cyngor yn ymwneud â nhw yn rheolaidd drwy'n cyfryngau cymdeithasol a datganiadau i'r wasg, ac hefyd yn rhannu gwybodaeth am gyfleoedd i arbed ynni ac arian drwy'r cynlluniau Nyth ac Eco4.

Mae prinder adnoddau yn parhau yn rwystr i ni symud ymlaen gyda'r gwaith ehangach o ddylanwadu a newid arferion trigolion. Rydym wedi blaenoriaethu amser ac adnoddau ar leihau yr allyriadau carbon sy'n deillio'n uniongyrchol o'n gweithgarwch ni ein hunain fel cyngor yn ystod dwy flynedd gyntaf y Cynllun Argyfwng Hinsawdd a Natur. Nid yw hyn wedi golygu, er hynny, nad ydym wedi bod yn ymgysylltu a chefnogi ein cymunedau a'n trigolion er mwyn i bawb chwarae ei ran ar y daith i sero net. Rydym wedi cefnogi gwaith lleol drwy'r cynllun Ardal Ni sydd wedi amlygu bod materion hinsawdd a natur o flaenoriaeth uchel i drigolion ymhob ardal, ac rydym yn parhau i gefnogi'r cymunedau gyda'u cynlluniau gweithredu. Rydym hefyd yn rhan o waith Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwynedd a Môn i wireddu eu Cynllun Llesiant newydd a ddaeth i rym yn ystod 2023/24. Un o 3 Amcan Llesiant y cynllun newydd yw "Rydym am weithio gyda'n gilydd i gefnogi ein gwasanaethau a'n cymunedau i symud tuag at Sero Net Carbon".

**Prosiect 2 -** Mae ein prosiectau eraill ninnau fel cyngor hefyd yn cyfrannu at helpu a dylanwadu ar arferion trigolion – Cymunedau Glan a Thaclus, prosiectau'r economi gylchol megis cefnogi hybiau bwyd, Ffiws/Caffi Trwsio, sioeau teithiol arbed ynni.

## Blaenoriaethau Tymor Canolig 2022/23 – 2026/27

**Prosiect:**

3. Aelodau etholedig a staff sydd:
    - yn deall oblygiadau effaith newid hinsawdd
    - yn cymryd penderfyniadau ar sail gwybodaeth am yr effeithiau
    - yn gweithredu yn y modd mwyaf cadarnhaol posib tuag at liniaru effaith newid hinsawdd a bod yn ecolegol gadarnhaol





DRAFT

Be wnaethom ni?

**Prosiect 3** – Cynhaliwyd hyfforddiant llythrennedd carbon oedd wedi ei achredu gan y Carbon Literacy Project i 50 o staff ac aelodau etholedig yn ystod 2023/24, ac fe gynlluniwyd e-fodiwl hyfforddiant ar gyfer holl staff ac aelodau etholedig y cyngor a gafodd ei lansio ar ddechrau 2024/25.

## Blaenoriaethau Parhaus

**Prosiect:**

4. Annog staff i ddatblygu gyrfa mewn meysydd sy'n lleihau effaith newid hinsawdd neu'n ecolegol gadarnhaol
5. Adolygu polisïau a strategaethau presennol y cyngor fel bod lleihau allyriadau carbon neu leihau effaith newid hinsawdd yn ffactor wrth ddod i benderfyniad

Be wnaethom ni?

**Prosiect 4** – Mae gan y cyngor ddau gynllun sy'n llwyddiannus yn denu ymgeiswyr, sef cynllun prentisiaethau a chynllun hyfforddai proffesiynol ('Cynllun Yfory') ar gyfer graddedigion. Cynhaliwyd sesiynau gwybodaeth i ymgeiswyr yn ystod 2023/24 a llwyddwyd i benodi Hyfforddai Proffesiynol Newid Hinsawdd fydd yn dechrau yn eu swydd yn ystod 2024/25.

**Prosiect 5** – Yn ystod 2023/24 fe gyhoeddwyd Cynllun Digidol Cyngor Gwynedd 2023-28, ac mae'r cynllun newydd hwn yn cynnwys nifer o brosiectau fydd yn arwain at leihau defnydd o ynni a lleihau gwastraff papur. Roedd gwaith wedi ei gychwyn yn ystod y flwyddyn hefyd er mwyn creu Cynllun Datblygu Lleol Gwynedd 2024-2039, ac i greu Cynllun Ynni Lleol.

## Adran 6 Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016

Mae'r prosiectau uchod yn cyfrannu at yr amcanion isod:

Amcan 1: Ymgysylltu a chefnogi cyfranogiad a dealltwriaeth i wreiddio bioamrywiaeth drwy gydol y broses o wneud penderfyniadau ar bob lefel

Gwaith wedi cael ei wneud gyda Chynghorau Tref a Chymuned i roi gwybod iddynt am eu dyletswydd o dan Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016.

Amcan 6: Rhoi fframwaith llywodraethu a chymorth ar gyfer cyflawni'r amcanion ar waith

Mae'r gwaith sydd wedi ei gyflawni o dan brosiectau 3 a 5 yn cyfrannu at wireddu Amcanion 1 a 6.

.

DRAFT

# 10. Caffael

Roedd 67% o allyriadau carbon y cyngor yn ystod 2023/24 yn deillio o'n prosesau caffael, sydd yn ychydig llai na 1% o gynnydd ers 2019/20. ac yn 25% o gynnydd ers 2022/23.

Mae'r dull o fesur allyriadau carbon caffael, neu'r gadwyn gyflenwi, yn seiliedig ar wariant yn unig. Yn syml, po fwyaf yw'r gwariant, po fwyaf yw'r allyriadau. Mae'r cynnydd hwn mewn allyriadau caffael yn 2023/24 yn seiliedig ar gynnydd o £11m mewn gwariant ym meysydd gofal, adeiladwaith a thrafnidiaeth. Mae'r fformiwlâu a ddefnyddir i fesur carbon yn erbyn gwariant mewn rhai categorïau hefyd wedi newid gan arwain at gynnydd.

## Be wnaethom ddweud y byddem yn ei wneud yn 2023/24?

### Blaenoriaethau Parhaus

**Prosiectau:**

1. Darparu cefnogaeth i'r farchnad, yn enwedig i ddarparwyr lleol, i fedru mesur effaith eu gweithrediadau ar eu ôl troed carbon
2. Deall a mesur allyriadau carbon wrth wireddu contractau yn y gadwyn caffael

### Be wnaethom ni?

**Prosiectau 1 a 2** - Ar ddiwedd 2022/23 fe gyhoeddodd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru adroddiad a phecyn cymorth at ddefnydd awdurdodau lleol er mwyn iddynt geisio ymgorffori caffael cynaliadwy ymhellach i arferion dyddiol. Bu cryn aros am y pecyn fel adnodd fyddai'n gymorth i ni fel cyngor fesur yr allyriadau carbon sy'n deillio o'r gwasanaethau a'r deunyddiau yr ydym yn eu prynu, ac mae'n gam cychwynnol ar y daith honno.

Yn dilyn cyhoeddi'r pecyn cymorth rydym bellach yn cydweithio â WRAP Cymru er mwyn adolygu ein Polisi Caffael Cynaliadwy ac i ymchwilio i gymorth pellach er mwyn lleihau allyriadau ein cytundebau mwyaf o ran gwerth ariannol (megis bwyd a gofal).

DRAFT

## Adran 6 Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016

Mae’r prosiectau uchod yn cyfrannu at yr amcanion isod:

Amcan 5: Gwella ein tystiolaeth, dealltwriaeth a monitro

Amcan 6: Rhoi fframwaith llywodraethu a chymorth ar gyfer cyflawni’r amcanion ar waith

Buom yn cydweithio â WRAP Cymru yn ystod y flwyddyn er mwyn adolygu ein Polisi Caffael Cynaliadwy a datblygu syniadau ar sut y gallwn gefnogi ein cyflenwyr i leihau allyriadau carbon drwy’r cytundebau y byddwn yn eu gosod. Mae’r gwaith yma’n parhau i mewn i 2024/25, ac rydym yn adolygu’r canllawiau presennol i gyflenwyr ar sut y gallant warchod a hyrwyddo bioamrywiaeth.

DRAFFT

# 10. Defnydd Tir

Mae holl diroedd y cyngor (sy'n cynnwys safleoedd 'llwyd' sydd wedi eu hadeiladu) yn amsugno gwerth 3,096,293 kgCO$_2$e net o garbon yn 2023/24. Mae hyn 47% yn llai na 2019/20 ac yn 2% yn llai na 2022/23.

Mae gwrthbwyso'r carbon sy'n cael ei amsugno yn erbyn ein allyriadau carbon yn cyfrannu at leihau'r bwlch i sero net.

## Be wnaethom ddweud y byddem yn ei wneud yn 2023/24?

## Blaenoriaethau Tymor Canolig 2022/23 – 2026/27

**Prosiectau:**

1. Adnabod cyfraniad coed sy'n eiddo i'r cyngor i amsugno a storio carbon a lleihau llifogydd
2. Adnabod cyfraniad tiroedd sy'n eiddo i'r cyngor i amsugno a storio carbon a lleihau llifogydd
3. Sefydlu meithrinfeydd coed er mwyn tyfu coed yn barod i'w plannu
4. Adnabod cyfleon i blannu coed fel rhan o fenter Coedwig Genedlaethol Cymru
5. Gwarchod tir amaethyddol yng Ngwynedd a'i ddefnyddio i bwrpas cymwys, a rheoli prosiectau coedwigo

## Be wnaethom ni?

**Prosiect 1 a 7** – Parhawyd â gwaith cynnal a chadw angenrheidiol ar 8 safle o goetir sy'n eiddo i'r Cyngor, ac fe wnaethpwyd gwaith atgyweirio ym Mharc Dudley, Waunfawr, ac yng nghoedlan hynafol Parc Meurig, Bethesda, sydd bellach yn ddiogel ac yn agored i'r cyhoedd ei mwynhau.

**Prosiect 2** – Fis Tachwedd 2023 derbyniwyd teclyn newydd oedd wedi ei ddatblygu gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru er mwyn mesur gwerth carbon mewn gwahanol diroedd. Bydd yn gymorth i ni nid yn unig er mwyn mesur capasiti amsugno carbon ein gwahanol diroedd ond hefyd i gynllunio defnydd ein tiroedd i'r dyfodol.

Ers dechrau defnyddio'r teclyn, rydym bellach yn y broses o werthuso ein tiroedd ar gyfer eu defnydd i storio carbon a hyrwyddo natur. Mae'r gwaith yma'n digwydd ochr yn ochr â'r gwaith i gynnal coedlannau ac adnabod cyfleon i blannu coed. Bydd y gwaith yn parhau i mewn i 2024/25.

Mae'r gwaith o adnabod tiroedd ar gyfer eu potensial i leihau llifogydd yn digwydd wrth greu Strategaeth Rheoli Risg Llifogydd (gweler Adran 12).

**Prosiectau 3 a 4** – Dechreuwyd 2 brosiect peilot gyda mentrau cymunedol er mwyn sefydlu meithrinfeydd coed bychan yn ystod y flwyddyn, ac roedd gwaith wedi cychwyn i asesu posibiliadau i sefydlu meithrinfeydd coed y gall y cyngor fod yn bartner ynddynt.

DRAFT

## Blaenoriaethau Parhaus

**Prosiectau:**

6. Rheoli Clwy yr Onnen mewn coed a gwneud yn iawn am unrhyw allyriadau carbon fyddai'n ganlyniad i dorri coed
7. Bod coedlannau sy'n eiddo i'r Cyngor yn cael eu gwarchod er mwyn gwneud y gorau o'u potensial i amsugno carbon a bod yn gynefinoedd i fyd natur

### Be wnaethom ni?

**Prosiect 6** - Yn anffodus mae'r galw i ymdrin â nifer cynyddol o goed sy'n dioddef o Glwy yr Onnen yn rhoi rhagor o bwysau ar ein adnoddau prin. Er hynny, rydym yn parhau i ymateb i achosion ac wedi gorfod dymchwel 698 o goed ynn yn ystod y flwyddyn, oedd 14% yn is na 2022/23.

**Prosiect 7** – Gweler Prosiect 1 uchod.

## Adran 6 Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016

Mae'r prosiectau uchod yn cyfrannu at yr amcanion isod:

Amcan 1: Ymgysylltu a chefnogi cyfranogiad a dealltwriaeth i wreiddio bioamrywiaeth drwy gydol y broses o wneud penderfyniadau ar bob lefel

Amcan 6: Rhoi fframwaith llywodraethu a chymorth ar gyfer cyflawni'r amcanion ar waith

Mae Cyngor Gwynedd yn arwain gwaith Partneriaeth Natur Gwynedd, sef casgliad o sefydliadau ac unigolion sy'n gweithredu er mwyn gwarchod a hybu bioamrywiaeth yn y sir. Un o egwyddorion gweithredu sylfaenol y Bartneriaeth yw ymgynghori â chymunedau er mwyn cynllunio prosiectau ar lawr gwlad.

Amcan 2: Diogelu rhywogaethau a chynefinoedd o'r pwys mwyaf a gwella eu rheolaeth

Mae prosiectau 1 – 7 yn cyfrannu at wireddu'r amcan hwn.

Amcan 3: Cynyddu gwytnwch ein hamgylchedd naturiol trwy adfer cynefinoedd sydd wedi'u diraddio a chreu cynefinoedd newydd

Mae prosiectau 1 – 7 yn cyfrannu at wireddu'r amcan hwn.

Amcan 4: Mynd i'r afael â phwysau allweddol ar rywogaethau a chynefinoedd

Mae prosiectau 1 – 7 yn cyfrannu at wireddu'r amcan hwn.

Amcan 5: Gwella ein tystiolaeth, dealltwriaeth a monitro

Mae'r cyngor wedi parhau i gydweithio â system gofnodi Cofnod sy'n ein cynorthwyo i greu gwaelodlin ar gyfer bioamrywiaeth ar draws Gwynedd.

DRAFT

# 11. Ecoleg

## Be wnaethom ddweud y byddem yn ei wneud yn 2023/24?

## Blaenoriaethau Tymor byr 2022/23 – 2023/24

**Prosiectau:**

1. Adnabod y camau sydd angen i ni eu cymryd er mwyn gwarchod cynefinoedd natur a bioamrywiaeth i'r dyfodol
2. Adnabod ein rhywogaethau a'n cynefinoedd gwerthfawr a pha fesurau sydd eu hangen i'w gwarchod a'u hadfer

### Be wnaethom ni?

**Prosiect 1 –** Roedd gwaith wedi parhau yn ystod y flwyddyn i lunio ein Cynllun Adfer Natur diwygiedig ar gyfer y sir ac ar gyfer Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol Llŷn, a bydd y cynlluniau yn cael eu cyhoeddi yn ystod 2024/25.

**Prosiect 2** - Ochr yn ochr â datblygu'r Cynllun Adfer Natur, rydym hefyd wedi bod yn asesu bioamrywiaeth y gwarchodfeydd natur yr ydym yn berchen arnynt er mwyn sefydlu gwaelodlin y gallwn fesur cynnydd neu ddirywiad yn ei erbyn. Rydym yn defnyddio prosesau Cofnod i fapio rhywogaethau, ac mae'r gwaith hwnnw'n parhau. Rydym hefyd yn y broses o lunio asesiad isadeiledd gwyrdd fel rhan o'r gwaith y mae'r Adran Gynllunio yn arwain arno.

## Blaenoriaethau Tymor Canolig 2022/23 – 2026/27

**Prosiectau:**

3. Cynyddu nifer y peillwyr drwy warchod cynefinoedd neu blannu cynefinoedd newydd (safleoedd tirlenwi)
4. Cefnogi mudiadau gwirfoddol a chymunedol a chynghorau tref a chymuned sy'n gwarchod neu'n hybu byd natur

### Be wnaethom ni?

**Prosiectau 3 a 6** - Mae yna ddau safle yng Ngwynedd arferai fod yn safleoedd tirlenwi sydd bellach wedi eu trosi yn safleoedd i warchod a hyrwyddo natur. Cafodd gwaith cynnal a chadw a phlannu coed ei wneud yn Llwyn Isaf ger Clynnog a Ffridd Rasus ger Harlech ac mae'r ddwy safle hefyd wedi derbyn 'safon aur' gan Restor, yr hwb rhyngwladol ar gyfer adferiad natur.

**Prosiectau 3 a 5** - Fe blannwyd nifer o gynefinoedd newydd i beillwyr ar hyd rhai o briffyrdd Gwynedd yn ystod y flwyddyn, er mwyn datblygu Rhwydwaith Peillwyr. Rhoddwyd sylw arbennig i'r priffyrdd oedd yn arwain at safle yr Eisteddfod Genedlaethol ym Moduan fis Awst 2023. Fe gymerodd holl ysgolion cynradd bro'r Eisteddfod ran yn ein prosiect i blannu dolydd blodau gwyllt ac fe fu timoedd priffyrdd y Cyngor yn plannu dolydd blodau gwyllt ar hyd ymylon ffyrdd tuag at ardal Pwllheli, ac fe fyddwn yn parhau i asesu a chynnal y dolydd hyn i'r dyfodol.

DRAFT

Mae'r cyngor bellach wedi mabwysiadu trefniadau torri gwair newydd fydd yn lleihau pa mor aml mae gwair yn cael ei dorri, yn enwedig ar hyd ymylon priffyrdd. Mae'r timau priffyrdd hefyd yn defnyddio offer arbenigol i gasglu toriadau gwair er mwyn casglu hadau a chynyddu twf blodau gwyllt.

**Prosiect 4 & 5** – Mae'r cyngor yn arwain gwaith Partneriaeth Natur Gwynedd sydd yn ei thro yn cynorthwyo mudiadau cymunedol ac ysgolion. Mae cymorth ymarferol hefyd yn cael ei gynnig drwy gynllun Ardal Ni. Megis dechrau mae'r gwaith yn y maes hwn a byddwn yn cynnal trafodaethau pellach yn ystod 2023/24 i weld pa gymorth all y cyngor ei gynnig o fewn adnoddau cyfyngedig.

## Blaenoriaethau Parhaus

**Prosiectau:**

5. Meithrin a chynnal diddordeb trigolion Gwynedd mewn materion ecolegol er mwyn iddynt fod eisiau helpu i warchod byd natur
6. Gwarchod cynefinoedd gwerthfawr i fyd natur

### Be wnaethom ni?

**Prosiect 5** – Gweler Prosiect 4 uchod.

**Prosiect 6** – Gweler Prosiect 3 uchod.

## Adran 6 Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016

Mae'r prosiectau uchod yn cyfrannu at yr amcanion isod:

Amcan 1: Ymgysylltu a chefnogi cyfranogiad a dealltwriaeth i wreiddio bioamrywiaeth drwy gydol y broses o wneud penderfyniadau ar bob lefel

Amcan 5: Gwella ein tystiolaeth, dealltwriaeth a monitro

Amcan 6: Rhoi fframwaith llywodraethu a chymorth ar gyfer cyflawni'r amcanion ar waith

Mae'r holl waith yr ydym fel Cyngor yn ymgymryd ag o drwy'r Bartneriaeth Natur Lleol yn cael ei gynllunio neu ei ddarparu ar y cyd â sefydliadau, cymunedau neu ysgolion lleol.

Mae prosiectau 1 a 2 hefyd yn cyfrannu at y 3 amcan uchod.

Amcan 2: Diogelu rhywogaethau a chynefinoedd o'r pwys mwyaf a gwella eu rheolaeth

Mae prosiectau 1 – 6 yn cyfrannu at wireddu'r amcan hwn.

Amcan 3: Cynyddu gwytnwch ein hamgylchedd naturiol trwy adfer cynefinoedd sydd wedi'u diraddio a chreu cynefinoedd newydd

Mae prosiectau 1 – 6 yn cyfrannu at wireddu'r amcan hwn.

Amcan 4: Mynd i'r afael â phwysau allweddol ar rywogaethau a chynefinoedd

Mae prosiectau 1 – 6 yn cyfrannu at wireddu'r amcan hwn.

DRAFT

DRAFT

# 12. Camau Nesaf

## Ariannol

Rydym fel cyngor yn parhau i weithredu o fewn amgylchiadau ariannol hynod heriol, gyda'n cyllidebau wedi eu gwasgu'n aruthrol oherwydd ddiffyg cyllido digonol a chostau cynyddol.

Gan fod y maes hinsawdd a natur yn flaenoriaeth i ni fel cyngor rydym wedi gwneud popeth o fewn ein gallu i ddefnyddio'r cyllid sydd gennym, ac i ddenu cyllid ar ffurf grantiau, er mwyn cyllido prosiectau'r CAHN hyd yma. Bydd cychwyn unrhyw brosiect newydd o hyn ymlaen yn ddibynnol ar dderbyn cyllid ychwanegol i'w ariannu.

## Adolygu'r Cynllun Argyfwng Hinsawdd a Natur

Mae yna lawer iawn o wybodaeth newydd a datblygiadau technegol yn y maes hinsawdd a natur ers cychwyn gweithredu'r Cynllun Argyfwng Hinsawdd a Natur fis Ebrill 2022. Mae nifer fawr o'r prosiectau sydd wedi eu cynnwys yn y cynllun presennol wedi esblygu er mwyn ymateb i'r newidiadau, ac rydym wedi disgrifio'r gwaith hwnnw yn yr adroddiad blynyddol hwn. Mae yna lawer o waith ychwanegol hefyd wedi cychwyn nad yw'n cael llawer o sylw o fewn y cynllun presennol – ee. bysiau trydan, defnydd o dechnoleg 'clyfar'.

Mae'n amserol bellach i ni adolygu'r cynllun yn ei gyfanrwydd er mwyn sicrhau ei fod yn gyfredol ac yn ein galluogi i barhau â'r gwaith tan 2030. Bydd y broses adolygu wedi ei chwblhau erbyn dechrau 2025/26 pan y byddwn yn gofyn i'r Cabinet fabwysiadu'r cynllun diwygiedig.

## Ynni adnewyddol

Mae cynhyrchu ein ynni ein hunain nid yn unig yn golygu llai o ddibyniaeth ar ddefnyddio trydan o'r grid (sy'n annhebygol o fod yn garbon sero net am flynyddoedd maith) ond hefyd yn cynnig ychydig o sicrwydd ynni i ni yn lleol. Yn anffodus, nid oes cydnabyddiaeth yn cael ei roi i ni fel sefydliad os ydym yn cynhyrchu trydan adnewyddol i'w allforio i'r grid ac nid ydym yn gallu hawlio'r credyd carbon amdano. Yn ogystal â hyn, mae'r isadeiledd yn wael ar gyfer anfon trydan i'r grid o ffynonellau adnewyddol yn y sir e.e. byddai angen buddsoddiad o filiynau o bunnoedd er mwyn gallu defnyddio rhai o'n tiroedd ar gyfer sefydlu ffermydd solar. Ar hyn o bryd, felly, nid yw cynhyrchu trydan ar raddfa fasnachol o ffynonellau adnewyddol yn fforddiadwy.

Wedi dweud hynny, mae'r Cynllun Ynni Ardal Lleol fydd yn cael ei fabwysiadu yn ystod 2024/25 yn mynd â ni gam yn agosach at greu system ynni integredig garbon isel ar gyfer Gwynedd. Mae yna nifer o gynlluniau uchelgeisiol yn y cynllun a bydd angen gwaith pellach er mwyn prisio nifer ohonynt, ond mae'n waith angenrheidiol y byddwn yn rhan ohono.

DRAFT

## Strategaeth Rheoli Risg Llifogydd

Mae newid yn ein hinsawdd yn cael effaith sylweddol ar lifogydd a graddfeydd erydiad tiroedd oherwydd bod lefelau moroedd yn codi a stormydd a chyfnodau o law trwm yn mynd yn fwy dwys ac yn digwydd yn fwy rheolaidd.

Mae rheoli perygl llifogydd ac erydu arfordirol yng Nghymru yn golygu llawer mwy nag adeiladu amddiffynfeydd. Mae ein dull o reoli risg yn annog gwydnwch ehangach, gwaith atal ac ymwybyddiaeth o risg fel bod modd gwneud penderfyniadau gwell, gan y cyhoedd a'r rhai sy'n dylanwadu ar sut y rheolir tir a dŵr.

Mae creu *Strategaeth Rheoli Perygl Llifogydd Lleol* (y Strategaeth) yn un o ofynion y Ddeddf Rheoli Llifogydd a Dŵr 2010 ac mae gofyn i ni ei hadolygu (ers y rhai gwreiddiol yn 2013) er mwyn bod yn gyson â'r *Strategaeth Genedlaethol ar gyfer Rheoli Perygl Llifogydd ac Erydu Arfordirol yng Nghymru* a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru yn 2020.

Mae'r Strategaeth yn edrych ar y risgiau llifogydd ar yr arfordir ac ar y mewndir (risgiau afonydd yn bennaf), ac yn disgrifio pa ardaloedd sy'n debygol o gael eu heffeithio a pha sefydliadau fydd yn cydweithio er mwyn rheoli'r risg.

Dechreuodd y broses o lunio'r Strategaeth yn 2022 a bu'r Cyngor yn aelod o weithgor cenedlaethol ers hynny a fu'n datblygu templed cyffredin i'w defnyddio gan bob awdurdod llifogydd. Bu Llywodraeth Cymru yn aelod o'r gweithgor hwn ac maent hefyd am roi sêl bendith i'r Strategaeth derfynol.

Lluniwyd Strategaeth ddrafft ac fe gychwynnodd y broses o ymgynghori'n gyhoeddus arni ar 25 Mawrth 2024, gan barhau am 6 wythnos. Cymeradwywyd fersiwn derfynol o'r Strategaeth gan Gabinet y Cyngor ar 11 Mehefin 2024. Rydym yn parhau i aros am sylwadau neu gymeradwyaeth gan Lywodraeth Cymru.

DRAFT

GWYNEDD WERDD
GREEN GWYNEDD

| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | Pwyllgor Craffu Cymunedau |
| **DYDDIAD** | 23 Ionawr 2025 |
| **TEITL** | Adroddiad Cynnydd Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwynedd ac Ynys Môn |
| **RHESWM DROS GRAFFU** | Rôl y Pwyllgor i graffu gwaith y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus |
| **AWDUR** | Sandra Thomas, Rheolwr Rhaglen,<br>Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwynedd a Môn |
| **AELOD CABINET** | Y Cynghorydd Nia Jeffreys, Arweinydd y Cyngor |

## 1. Pam fod angen ei graffu?

Mae gan y Pwyllgor Craffu Cymunedau rôl i fonitro cynnydd y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus o ran rhoi Cynllun Llesiant Gwynedd a Môn 2023-28 ar waith.

Mae'r Cynllun Llesiant yn nodi sut bydd y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn diwallu ei gyfrifoldebau o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

Drwy graffu strwythur llywodraethu a threfniadau cyflawni'r Bwrdd yn ogystal â chraffu gweithrediad y cynllun bydd y Pwyllgor yn cael ei fodloni neu'n argymell er sicrhau gwelliant.

Craffwyd 'Trefniadau cyflawni Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwynedd ac Ynys Môn' yng nghyfarfod y Pwyllgor ar 18 Ebrill 2024. Rhan o'r penderfyniad ar yr eitem oedd:

"Gofyn bod adroddiadau i'r dyfodol yn cynnwys mwy o fanylder am y trefniadau cyflawni a sut mae cynnydd yn cael ei fesur er mwyn gwireddu amcanion y Cynllun Llesiant."

## 2. Beth yn union sydd angen ei graffu?

- Y strwythur llywodraethu
- Beth yw'r trefniadau monitro?
- Pa gynnydd sydd wedi ei wneud o ran gwireddu'r Cynllun Llesiant?

## 3. Crynodeb a'r Materion Allweddol

3.1 Dyma gyflwyno trefniadau cyflawni Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus (BGC) Gwynedd a Môn ar gyfer 2024 a 2025 yn seiliedig ar ein Cynllun Llesiant 2023-28.

## 4. Cefndir / Cyd-destun

4.1.1 Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn rhoi dyletswydd ar gyrff cyhoeddus i wella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a

diwylliannol Cymru. Mae'r ddeddf yn seiliedig ar yr egwyddor o ddatblygiad cynaliadwy ac mae'n gosod dyletswydd ar gyrff cyhoeddus i osod a chyhoeddi amcanion llesiant a chymryd pob cam rhesymol i gyflawni'r amcanion hynny. Sefydlodd y Ddeddf hefyd Fyrddau Gwasanaethau Cyhoeddus gyda chynrychiolaeth gan gyrff cyhoeddus a chyrff gwirfoddol allweddol ym mhob sir. Mae sefydliadau cyhoeddus Gwynedd a Môn wedi ymuno i gydweithio ar un Bwrdd. Bob pum mlynedd, mae'n rhaid i Fyrddau Gwasanaethau Cyhoeddus baratoi a chyhoeddi asesiad o gyflwr llesiant yn eu hardaloedd a defnyddio hyn fel sail i'r Cynllun Llesiant ar gyfer y pum mlynedd i ddod.

4.1.2 Un o'r prif heriau i'r Bwrdd yw sefydlu lle gallwn ychwanegu'r gwerth mwyaf a gwneud gwahaniaeth gyda'n gilydd, gyda'r adnoddau a'r capasiti cyfyngedig sydd ar gael i ni. Wrth ddatblygu'r Cynllun Llesiant, cawsom sgyrsiau am ble y gallwn wneud y cyfraniad mwyaf heb ddyblygu'r gwaith da sydd eisoes ar y gweill mewn partneriaethau a sefydliadau eraill. Mae'r Bwrdd wedi dysgu o brofiad ac wedi addasu ei strwythurau dros y cyfnod.

4.1.3 **Amcanion Cynllun Llesiant 2023-28:**

Cyhoeddwyd Cynllun Llesiant 2023-28 Gwynedd a Môn ym mis Mai 2023. Mae **tri Amcan Llesiant penodol, sef**:

- *Rydym am weithio gyda'n gilydd i liniaru effaith **tlodi** ar lesiant ein cymunedau.*
- *Rydym am weithio gyda'n gilydd i wella lles a llwyddiant ein **plant a phobl ifanc** er mwyn gwireddu eu llawn botensial.*
- *Rydym am weithio gyda'n gilydd i gefnogi ein gwasanaethau a'n cymunedau i symud tuag at **Sero Net Carbon**.*

4.1.4 Mae'r **iaith Gymraeg** yn flaenoriaeth parhaol i'r Bwrdd ac rydym yn ei hyrwyddo ym mhob maes o'n gwaith.

4.1.5 Mae methodoleg **System Gyfan Pwysa Iach: Cymru Iach** wedi ei fabwysiadu fel ffordd o weithio drwy'r gwaith yma. Mae'r dull yma yn rhoi'r sylw pennaf ar arweinyddiaeth a galluogi newid drwy gydweithredu a chyfranogi lleol. Mae'n golygu gweithio ar y cyd â phawb a all ddylanwadu ar lif dewisiadau bwyd iach a fforddiadwy (fel gweithwyr proffesiynol a chymunedau lleol) a chreu cyfleoedd i alluogi pobl i symud mwy a chadw'n heini.

**4.2.1 Cynllun Cyflawni 2024 a 2025**

Mae'r Bwrdd wedi gosod eu hamcanion a chyfeiriad cyffredinol ar gyfer y gwaith dros gyfnod y Cynllun a mae cynllun manwl wedi ei osod ar gyfer y cyfnod cychwynnol, 2023-2025, sydd yn cael ei adolygu'n flynyddol.

Mae'r diagram yma yn dangos sut mae'r Bwrdd yn blaenoriaethu cyflawni'r amcanion yn ogystal â dangos y berthynas hefo Pwysau Iach a'r Iaith Gymraeg:




4.2.2 Oherwydd llwyddiannau blaenorol a ffocws parhaus yr Is-grŵp Iaith Gymraeg, cytunodd y BGC y dylai barhau yn ei ffurf bresennol – dan gadeiryddiaeth Dr Lowri Hughes o Brifysgol Bangor. Yn dilyn asesiad academaidd annibynnol o effeithiolrwydd is-grwpiau BGC eraill, penderfynwyd bwrw ymlaen â’r argymhelliad i sefydlu grwpiau Tasg a Gorffen â mwy o ffocws gweithredol ar gyfer y camau gweithredu eraill.

4.2.3 Felly, bydd pob un o'r camau gweithredu sydd wedi'u blaenoriaethu o dan y tri prif amcan yn cael eu rhoi ar waith gan Grŵp Tasg a Gorffen gyda staff gweithredol o sefydliadau sy'n aelodau o'r BGC yn cydweithio i gyrraedd y nod tymor byr.

**4.3.1 Gweithredu hyd yma yn 2024 / 2025:**

Dyma uchafbwyntiau allweddol y cynnydd a wnaed wrth gyflawni'r flaenoriaeth Iaith a'r amcanion llesiant hyd yma eleni a bwriadau am weddill y flwyddyn:

4.3.2 **Yr Iaith Gymraeg:**

<table>
<tr><td colspan="2">Prosiect Gweithlu Dwyieithog:<br>Comisiynwyd IAITH cyf i ymchwilio i heriau a llwyddiannau cynllunio gweithlu dwyieithog ymhlith sefydliadau sy'n rhan o'r tri Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yng ngogledd Cymru. Y cwestiwn allweddol oedd pam fod sefydliadau cyhoeddus ar draws gogledd Cymru yn cael trafferth recriwtio staff i swyddi Cymraeg eu hiaith, ac a oedd yr ateb yn gorwedd o fewn y prosesau recriwtio eu hunain. Man cychwyn yr ymchwil oedd casglu data gan y sefydliadau ar swyddi gwag lle roedd y Gymraeg yn hanfodol, pa mor hir oedd swyddi yn wag, oedd angen 2il/3ydd hysbysiad, oedd angen is-raddio'r swydd i Cymraeg Dymunol ayyb.</td></tr>
<tr><td>Ffurf Cyflawni:</td><td>Is-grŵp Iaith</td></tr>
<tr><td>Aelodaeth o'r Is-grŵp:</td><td>Prifysgol Bangor (Cadeirydd); Cyngor Gwynedd, Cyngor Môn, Heddlu Gogledd Cymru, Gwasanaeth Tân, Cyfoeth Naturiol Cymru, Parc Cenedlaethol Eryri</td></tr>
<tr><td>Cydweithio gyda:</td><td>Arfor, Comisiynydd y Gymraeg</td></tr>
<tr><td>Nawdd ariannol</td><td>£22.5k gan y Gronfa BGC Rhanbarthol</td></tr>
<tr><td>Cwblhawyd</td><td>Gorffennaf 2024</td></tr>
<tr><td>Deilliannau:</td><td>• Adroddiad gyda chanfyddiadau ac argymhellion i'w gweithredu<br>• Rhestr wirio ymarfer da i reolwyr a swyddogion Adnoddau Dynol ddilyn<br>• Y prosiect eisoes wedi ei berchnogi gan sefydliadau sydd ar Fyrddau Gwasanaethau Cyhoeddus y gogledd</td></tr>
<tr><td>Camau nesaf:</td><td>• Monitro gweithredu'r argymhellion a defnydd o'r rhestr wirio<br>• Cynnal adolygiad o'r data craidd i gadarnhau os oes gwelliannau wedi deillio o'r gwaith<br>• Rhannu'r allbynnau yn genedlaethol ar gais Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol</td></tr>
<tr><td>Prosiect nesaf</td><td>Mae'r Is-grŵp wedi derbyn adborth ac awgrymiadau gan aelodau'r Bwrdd beth ddylai'r prosiect nesaf ganolbwyntio arno. Mae'r awgrymiadau yn cynnwys parhau ar waith i ddenu a recriwtio i swyddi Cymraeg – gyda ffocws ar chwalu mythau ("myth busting"). Rydym yn y broses o ddiffinio'r manyleb a byddwn yn cychwyn ar waith yn y flwyddyn newydd ac yn adrodd i gyfarfod nesaf y Bwrdd ym mis Ionawr 2025.</td></tr>
<tr><td>Sut byddwn yn mesur cynnydd:</td><td>➢ Bydd sefydliadau yn fwy tebygol o recriwtio siaradwyr Cymraeg ac yn hyderus yn eu gallu i gynnig gwasanaeth dwyieithog i gymunedau Gwynedd a Môn.<br>➢ Bydd sefydliadau yn nodi cynnydd yn y nifer o weithwyr sydd yn dysgu Cymraeg.</td></tr>
</table>

| | |
|---|---|
| | ➢ Bydd sefydliadau yn nodi cynnydd mewn gweithlu dwyieithog.<br>➢ Bydd yr Iaith yn fwy gweledol o fewn gwasanaethau a chymunedau.<br>➢ Bydd cynnydd yn y defnydd o'r Gymraeg drwy hyrwyddo gweithgareddau a gwasanaethau.<br>➢ Bydd sefydliadau yn nodi cynnydd mewn gweithgareddau a gwasanaethau sydd ar gael drwy gyfrwng y Gymraeg. |

### 4.3.2 **Pwysau Iach:**

| | |
|---|---|
| **Pwysau Iach:**<br>Bwriadau blwyddyn 1:<br>• Pob sefydliad i gadarnhau i ba raddau maent wedi ymgorffori'r nodau a'r credoau i'w gwaith (gyda thystiolaeth)<br>• Cytunwyd i sefydlu is-grŵp Pwysau Iach a fydd yn gweithio gyda ac yn ychwanegu gwerth i weithgarwch rhanbarthol ar bwysau iach | |
| Ffurf Cyflawni: | Is-grŵp Pwysau Iach |
| Aelodaeth o'r Is-grŵp: | Prifysgol Bangor (Cadeirydd); Cyngor Gwynedd, Cyngor Môn, Heddlu Gogledd Cymru, Gwasanaeth Tân, Cyfoeth Naturiol Cymru, Parc Cenedlaethol Eryri |
| Cydweithio gyda: | Grwp Partneriaeth Strategol Rhanbarthol Pwysau Iach |
| Nawdd ariannol | Dim arian ychwanegol tu hwnt i gyllidebau cyfredol yr aelodau |
| Amserlen | Cyfnod y Cynllun Llesiant 2023-2028 |
| Deilliannau: | • Cynllun gweithredu manwl ar sut all sefydliadau'r Bwrdd ymrwymo a chydweithio ar faterion pwysau iach, yn cynnwys addasu trefniadau caffael, rhoi adborth ar geisiadau cynllunio, darparu gwasanaethau ayyb |
| Camau nesaf: | • Dadansoddi data lefel sirol ar Pwysau Iach<br>• Adrodd ar y cynnydd a chyfleon i gydweithio |
| Sut byddwn yn mesur cynnydd: | Am gydweithio gyda'r Bartneriaeth Rhanbarthol ac Iechyd Cyhoeddus Cymru i gytuno sut byddai modd mesur hyn ac os yn cyflawni yr hyn a nodwyd, a beth fydd yr effaith/gwahaniaeth. |

### 4.3.3 **Amcan Newid Hinsawdd:**

| | |
|---|---|
| **Gweithredu'r Siarter Teithio Llesol:** | |
| Ffurf Cyflawni: | Grŵp Tasg a Gorffen |
| Aelodaeth: | Cyngor Gwynedd; Cyngor Môn, Prifysgol Bangor, BIPBC, Cyfoeth Naturiol Cymru, Gwasanaeth Tân, Grŵp Llandrillo-Menai |
| Cydweithio gyda: | Iechyd Cyhoeddus Cymru |

| | |
|---|---|
| Nawdd ariannol | Dim arian ychwanegol tu hwnt i gyllidebau cyfredol yr aelodau |
| Amserlen | Dwy flynedd (Medi 2024 – Awst 2026) |
| Deilliannau: | • Hyrwyddo a gweithredu Siarter Teithio Llesol Gogledd Cymru (yn cynnwys cydweithio ar seilwaith defnydd ynni mewn lleoliadau sector gyhoeddus) |
| Camau nesaf: | • Cynnal Seremoni arwyddo'n swyddogol i'r Siarter ym mis Mawrth gyda'r Gweinidog Trafnidiaeth, Ken Skates, yn bresennol<br>• Parhau i gydweithio fel sefydliadau'r Bwrdd i weithredu i gwblhau'r Siarter |
| Sut byddwn yn mesur cynnydd: | ➢ Defnyddio teclun matrics monitro Llywodraeth Cymru – i bob cam mae 4 dewis – *"heb ddechrau / ar waith / wedi cwblhau / arwain y ffordd"*<br>➢ Adrodd ar y data monitro yn gyson<br>➢ Adrodd ar y nifer sefydliadau'r BGC sydd wedi ymrwymo i'r Siarter ac yn ei roi ar waith.<br>➢ Allbynnau lefel uchel i ddechrau, yna allbynnau ansoddol. |
| Gweithredu ar y Gymraeg: | Rydym yn gweithredu ac yn ymrwymo i'r Siarter yn y Gymraeg |
| Gweithredu ar y Dull Pwysau Iach | Cefnogi a hyrwyddo staff holl sefydliadau'r Bwrdd i wneud dewisiadau mwy llesol wrth gymudo i gwaith, wrth deithio yn ystod gwaith ac yn eu oriau hamdden. |

| | |
|---|---|
| **Asesiad Risg Newid Hinsawdd:**<br>Yn ôl Adran 38 Deddf Cenedlaethau'r Dyfodol mae'n ofynnol i'r Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus ystyried Asesiad Risg Newid Hinsawdd Diweddaraf y DU wrth baratoi eu Hasesiadau Lles. Mae'r tri bwrdd y gogledd wedi cytuno i gydweithio i ddarparu un asesiad ar y cyd fydd gyda opsiynau i ddrilio lawr i lefel sirol a wardiau lleol | |
| Ffurf Cyflawni: | Grŵp Tasg a Gorffen |
| Aelodaeth: | 6 x Sir y gogledd, Prifysgol Bangor, Prifysgol Wrecsam, BIPBC, Cyfoeth Naturiol Cymru, Parc Cenedlaethol Eryri |
| Cydweithio gyda: | Byrddau'r Gogledd |
| Nawdd ariannol | Cronfa BGC Rhanbarthol |
| Amserlen | 2 flynedd Medi 2024 – Awst 2026 |
| Deilliannau: | • Cydymffurfio gyda'r Ddeddf Cenedlaethau'r Dyfodol I gynnal Asesiad Risg Newid Hinsawdd<br>• Ei ddefnyddio i fwydo'r Asesiadau Llesiant nesaf yn 2026/27. |
| Camau nesaf: | • Comisiynu Gwaith o goladu a chydlynnu'r holl wybodaeth ag adroddiadau sydd eisoes yn bodoli yn y maes (gweler tudalen 4 o'r cyflwyniad am esiamplau o rhain) |

| | |
|---|---|
| Sut byddwn yn mesur cynnydd: | ➢ Bydd asesiad gyflawn o effaith newid hinsawdd a llesiant ac obygiadau hynny, gyda chamau ymateb ac wedi'i hadnabod i liniaru effaith ac ymateb yn rhagweithiol.<br>➢ Asesiad risg wedi'i gwblhau<br>➢ Cynlluniau llesiant yn ymateb i'r risgiau ac yn adnabod allbynnau a deilliannau. |
| Gweithredu ar y Gymraeg: | Byddwn yn sicrhau bod yr allbwn yn gwbwl ddwyieithog – nid cyfieithiad yn unig |
| Gweithredu ar y Dull Pwysau Iach | Bydd yr asesiad yn dadansoddi adborth a data gan drigolion yn tynnu sylw at sut mae materion hinsawdd hefyd yn cael effaith ar eu llesiant |

**Prosiect Niwbwrch:**
Peilot yw hwn a'r bwriad yw datblygu model neu ymarfer da y gellid ei ddefnyddio ar draws yr ardal o weithio mewn partneriaeth er mwyn ymateb i broblem. Rydym yn treialu dull gwahanol, cydweithredol o fynd i'r afael â phroblemau mynediad a thraffig yn ardal Niwbwrch a Llanddwyn ar Ynys Môn. Mae'n ffordd newydd o weithio ar y cyd, lle mae'r sefydliadau o gwmpas y bwrdd yn rhannu heriau a datrysiadau, yn cydweithio ar un cynllun, yn rhannu adnoddau ac yn cyfathrebu fel un llais gyda'r rhanddeiliaid.

| | |
|---|---|
| Ffurf Cyflawni: | Grŵp Tasg a Gorffen |
| Aelodaeth: | Cyngor Môn, Cyfoeth Naturiol Cymru, Medrwn Môn |
| Cydweithio gyda: | Rhwydwaith Cyd-gynhyrchu Cymru, Menter Môn, Cynghrair Bro Aberffraw |
| Nawdd ariannol | £8.5k gan y Gronfa BGC Rhanbarthol |
| Amserlen | Peilot: 18 mis (Mawrth 2024 – Medi 2025) |
| Deilliannau: | • Mae swyddogion o Barc Cenedlaethol Eryri wedi rhannu eu profiadau a gwersi dysgu o'r gwaith a wnaethant ym Mhen y Pass i reoli mynediad a thrafnidiaeth<br>• Wrth gymryd pryderon a syniadau am ddatrysiadau gan y gymuned leol, mae swyddogion eisoes wedi cyflawni rhai mesurau dros dro ac yn gweithio ar gynllun prosiect sydd yn cynnwys gweithrediadau tymor byr, canolig a thymor hir.<br>• Wrthi'n peilota ffordd newydd i weithio ar y cyd, lle mae'r sefydliadau o gwmpas y bwrdd yn rhannu heriau a datrysiadau, yn cydweithio ar un cynllun, yn rhannu adnoddau ac yn cyfathrebu fel un llais gyda'r rhanddeiliaid. |
| Camau nesaf: | • Rydym yn y broses o adrodd yn ôl ar gynnydd i'r gymuned leol gyda'r gobaith byddent yn gweld gwir wahaniaeth mor fuan â Phasg 2025<br>• Mae swyddogion o'r Cyngor Sir yn asesu'r datrysiadau sydd angen gwariant cyfalaf ac yn ymchwilio i ffynonellau ariannu penodol<br>• Cynnal adolygiad o'r peilot hyd yma gyda'r bwriad o'i rannu yn rhanbarthol a'i gynnig fel datrysiad posib i |

| | |
|---|---|
| | broblemau llesiant cymunedol gyda nawdd ariannol o'r grant rhanbarthol. |
| Sut byddwn yn mesur cynnydd: | ➢ Mesurau fel data ar draffig ac ymwelwyr yn yr ardal Haf 2025<br>➢ Holiadur i bobl leol yn mesur bodlonrwydd a gwelliannau llesiant |
| Gweithredu ar y Gymraeg: | Wedi sicrhau arbenigwyr a hwyluswyr dwyieithog yn y sesiynau cyhoeddus ac wedi ymdrechu yn benodol i sicrhau bod pobl leol yn cymryd rhan ac yn medru mynegi eu pryderon a'u syniadau yn y Gymraeg.  Mae'r holl gyfathrebu yn ddwyieithog. |
| Gweithredu ar y Dull Pwysau Iach | Mae pobol leol wedi adrodd nad ydynt yn defnyddio'r goedwig na'r traeth dros fisoedd yr Haf oherwydd y prysurdeb a'r gor-dwristiaeth.  Mae'r sefyllfa yn cael effaith andwyol ar eu bywydau dydd i dydd a'u llesiant.  Mae'r prosiect yn cyfarch y diffyg mynediad i adnoddau naturiol fel traeth a choedwig Llanddwyn i bobl leol. |

### 4.3.4 **Amcan Tlodi:**

| **Cynnal Gweithdai ar Dlodi i Aelodau Bwrdd:**<br>Mae Sefydliad Bevan yn bwriadu hwyluso tri gweithdy yng Ngwynedd a Môn i sicrhau bod gan sefydliadau yn yr ardal ddealltwriaeth gyffredin o dlodi ac i helpu sefydliadau i feddwl yn fwy strategol am eu rôl wrth ddarparu datrysiad. Byddai pob un o'r gweithdai hyn yn cael eu targedu at gynulleidfa wahanol. | |
|---|---|
| Ffurf Cyflawni: | Gweithdai i Aelodau'r Bwrdd a swyddogion maes tlodi yn eu sefydliadau |
| Cydweithio gyda: | Sefydliad Bevan, Cyngor Môn, Cyngor Gwynedd |
| Nawdd ariannol | Dim arian ychwanegol tu hwnt i gyllidebau cyfredol yr aelodau |
| Amserlen | Wedi llithro i'r Haf 2025 |
| Deilliannau: | • Erbyn diwedd y sesiynau bydd gan gyfranogwyr:<br>    • Dealltwriaeth ddyfnach o ba rai o'u defnyddwyr gwasanaeth sy'n byw mewn tlodi a goblygiadau hyn ar gyfer penderfyniadau rheoli a gweithredol ar gyfer y gwasanaethau a ddarperir ganddynt.<br>    • Y sgiliau i wneud eu dadansoddiad eu hunain o ba rai o'u defnyddwyr gwasanaeth sy'n byw mewn tlodi.<br>• Wedi datblygu syniadau am y ffordd orau o reoli eu gwasanaethau mewn ffordd sy'n darparu atebion i dlodi yn yr ardal. |
| Camau nesaf: | • Cadarnhau y brîff a'r deilliannau sydd eu angen<br>• Trefnu a chynnal Gweithdai<br>• Cytuno'r camau gweithredu ac adnabod cyfleon I gyd-weithio yn Dilyn y Gweithdai |

| | |
|---|---|
| Sut byddwn yn mesur cynnydd: | ➢ Bydd aelodau'r Bwrdd a swyddogion yn deall effaith tlodi ar drigolion a chymunedau.<br>➢ Bydd aelodau'r Bwrdd a swyddogion yn cynllunio ar sail tystiolaeth ac ymchwil, er mwyn gwneud penderfyniadau gwybodus a sicrhau fod gwasanaethau yn rhagweithiol er mwyn arbed a lliniaru effaith tlodi. |
| Gweithredu ar y Gymraeg: | *I'w gytuno* |
| Gweithredu ar y Dull Pwysau Iach | *I'w gytuno* |

4.3.5 **Amcan Plant a phobl Ifanc:**

| | |
|---|---|
| **Ymrwymo i fod yn FGC sy'n Wybodus am Drawma:**<br>Mae fframwaith yng Nghymru mewn lle i helpu sicrhau:<br>● Bod swyddogion mewn sefydliadau yn gwybod am adfyd a thrawma ac yn deall sut maen nhw'n effeithio ar blant a phobl ifanc.<br>● Bod sefydliadau yn gwybod sut i gamu i mewn ac atal adfyd a thrawma rhag digwydd.<br>● Bod sefydliadau yn gwybod sut i gefnogi rhywun sydd wedi'i effeithio gan drawma. | |
| Ffurf Cyflawni: | Cynnal sesiynau penodol gyda arbenigwyr ar Drawma i holl Aelodau'r Bwrdd |
| Cydweithio gyda: | Cyngor Môn |
| Nawdd ariannol | Dim arian ychwanegol tu hwnt i gyllidebau cyfredol yr aelodau |
| Amserlen | Wedi llithro i 2025/26 |
| Deilliannau: | I'w cadarnhau |
| Camau nesaf: | • Cadarnhau y brîff a'r deilliannau<br>• Trefnu a chynnal Gweithdai<br>• Cytuno'r camau gweithredu ac adnabod cyfleon I gyd-weithio yn Dilyn y Gweithdai |
| Sut byddwn yn mesur cynnydd: | Bydd pob aelod y Bwrdd yn wybodus am drawma ac effaith trawma, gan sicrhau fod y Byrddau yn ymateb yn rhagweithiol yn y Cynlluniau Llesiant.<br>Byddwn yn gwybod hyn drwy fonitro aelodau sydd wedi mynychu'r hyfforddiant. |
| Gweithredu ar y Gymraeg: | *I'w gytuno* |
| Gweithredu ar y Dull Pwysau Iach | *I'w gytuno* |

4.4.1 **Ymgysylltu'n lleol:**

Dyma dri esiampl o'r Bwrdd yn ymgysylltu gyda chymunedau ag ysgolion yn Ngwynedd a Môn yn 2024:

| **Naratif cymunedol: Porthmadog**<br>Ar gais Gwasanaethau Oedolion, cynhaliwyd gweithdai yn gofyn y cwestiwn a yw pobl ar draws yr ystod ddemograffig sy'n byw ym Mhorthmadog yn teimlo bod Porthmadog yn oed-gyfeillgar ac os felly pam ac os na, beth ddylai fod yn wahanol?<br>Y gweithdai yn cynnwys gweithgareddau torri iâ, gwaith pyped, gwaith 3D a 2D, peintio, collage a thecstilau. | |
|---|---|
| Ffurf Cyflawni: | Cydweithio a chomisiynu |
| Cydweithio gyda: | Gwasanaeth Oedolion Cyngor Gwynedd, Ysgol Eifion Wyn, Ysgol Eifionydd, Clwb Ieuenctid Porthmadog, Gofal Ychwanegol Hafod y Gest a Grŵp Cynefin |
| Nawdd ariannol | Y Gronfa BGC Rhanbarthol a Phrifysgol Wrecsam |
| Amserlen | Cwblhawyd Medi 2024 |
| Linc i'r allbwn | *Porthmadog Report.pdf* *(*angen ei gyfieithu*)* |
| Deilliannau: | • Wedi casglu adborth ar ba mor oed-gyfeillgar ydi Porthmadog trwy gweithgareddau creadigol fydd yn cael ei ddefnyddio i lunio gwasanaethau i'r dyfodol.<br>• Wedi gwella dealltwriaeth rhwng cenedlaethau o fewn cymuned Porthmadog.<br>• Wedi annog dealltwriaeth o ragfarn ar sail oedran a beth sy'n creu cymdeithas oed-gyfeillgar.<br>• Gwasanaeth Oedolion wedi defnyddio'r wybodaeth i ffurfio strategaeth / cynllun gweithredu |
| Camau nesaf: | • Defnyddio'r holl wybodaeth yn yr Asesiadau Llesiant (2025/26)<br>• Bwriad i arddangos y gwaith Celf ym Mhorthmadog yn y flwyddyn newydd ac i'w gyflwyno i'r Bwrdd |
| Gweithredu ar y Gymraeg: | Comisiynwyd artist lleol Cymraeg, Ffion Pritchard, i ymgymryd â'r gwaith a darparwyd yr holl sesiynau ag adnoddau yn Gymraeg gydag opsiynau ar gael yn Saesneg os oedd eu hangen. |
| Gweithredu ar y Dull Pwysau Iach | Yr ymgysylltu yn cynnwys ceisio deall rhwystredigaethau pobol hŷn a phobl ifanc Porthmadog ar gadw'n heini a bwyta'n iach |

| **Naratif cymunedol: Bro Aberffraw**<br>Ar gais Medrwn Môn gofynnwyd sut allwn ni fynd i'r afael yn well ag anghenion y gymuned leol drwy gwelliannau mynediad a thrafnidiaeth ym Mro Aberffraw. A yw'r ardal yn lle hygyrch, cysylltiedig, ac os nad yw, sut mae datrys hynny?<br>Y Gweithdai wedi cynnwys gweithgareddau torri iâ, gwaith gyda phypedau, animeiddio, gwneud propiau a ffilmio. | |
|---|---|
| Ffurf Cyflawni: | Cydweithio a chomisiynu |
| Cydweithio gyda: | Cyngor Môn, Medrwn Môn, Grwpiau Cymunedol ym Mro Aberffraw |

| | |
|---|---|
| Nawdd ariannol | Y Gronfa BGC Rhanbarthol a Phrifysgol Wrecsam |
| Amserlen | Cwblhawyd Medi 2024 |
| Deilliannau: | • Prosiect Creadigol gyda grwpiau cymunedol lleol yn creu gwaith celf o siwrneiau trwy Bro Aberffraw, yn cysylltu amrywiaeth o fannau cychwyn a gorffen.<br>• Wedi casglu adborth ar y cysylltedd a'r gallu i gerdded Bro Aberffraw trwy weithgareddau creadigol ac wedi gwella dealltwriaeth o'r rhwystrau sy'n wynebu mynediad i drafnidiaeth gyhoeddus a theithio llesol.<br>• Cynghrair Bro Aberffraw wedi defnyddio'r wybodaeth i ffurfio cynllun gweithredu llesiant lleol |
| Camau nesaf: | • Defnyddio'r holl wybodaeth yn yr Asesiadau Llesiant (2025/26)<br>• Bwriad i arddangos y gwaith Celf yng Nghanolfan Bodorgan, Bro Aberffraw yn y flwyddyn newydd ac i'w gyflwyno i'r Bwrdd. |
| Gweithredu ar y Gymraeg: | Comisiynwyd artist lleol Cymraeg, Ffion Pritchard, i ymgymryd â'r gwaith a darparwyd yr holl sesiynau ag adnoddau yn Gymraeg gydag opsiynau ar gael yn Saesneg os oedd eu hangen. |
| Gweithredu ar y Dull Pwysau Iach | Yr ymgysylltu yn cynnwys ceisio deall rhwystredigaethau pobol Bro Aberffraw ar gadw'n heini a theithio llesol |

**"Arweinyddion y Dyfodol": Ymgysylltu am y Cynllun Llesiant ar ffurf gweithdy yn Ysgol Dyffryn Nantlle, Ysgol Y Moelwyn , Ysgol Botwnnog, Ysgol Brynrefail ac Ysgol David Hughes**

Gan weithio gydag Xplore cyflwynwyd sesiwn addysgiadol i ysgolion yn ceisio mewnbwn, a syniadau gan bobl Ifanc i gysylltu a deall yr heriau a datblygu sgwrs/syniadau ysgogi ar gyfer y Bwrdd.

| | |
|---|---|
| Ffurf Cyflawni: | Cydweithio a chomisiynu |
| Cydweithio gyda: | Gwasanaethau Addysg Cyngor Gwynedd a Chyngor Môn, |
| Nawdd ariannol | Y Gronfa BGC Rhanbarthol a Phrifysgol Wrecsam |
| Amserlen | Cwblhawyd Hydref a Thachwedd 2024 |
| Deilliannau: | • Cysylltwyd pobl ifanc yn uniongyrchol â'r Bwrdd a'r ffocws/blaenoriaethau yn ogystal â chael eu mewnbwn ar raglen waith y Bwrdd<br>• Rhannwyd mewnwelediad i'r hyn y mae'r Ddeddf Cenedlaethau'r Dyfodol yn ei olygu. |
| Camau nesaf: | • Bwydo'r holl wybodaeth i'r Asesiadau Llesiant (2025/26)<br>• Parhau i ymgysylltu gyda'r ysgolion yn rheolaidd |
| Gweithredu ar y Gymraeg: | Sicrhau bod tîm dwyieithog o Xplore/Prifysgol Wrecsam yn arwain y gweithdai yn ysgolion Gwynedd a Môn |

| | |
|---|---|
| Gweithredu ar y Dull Pwysau Iach | Gweithdai yn cynnwys mapio sut mae pobl ifanc yn cadw'n heini – pa reolaeth sydd ganddynt dros eu taith i'r ysgol, eu hamser hamdden, mynediad i adnoddau cadw'n heini, amser ar gyfryngau cymdeithasol ayyb |

4.4.2 **Cefnogaeth a chydweithio rhanbarthol:**

Cefnogir y BGC yn rhanbarthol gan Bartneriaeth Mewnwelediad Gogledd Cymru / North Wales Insight Partnership (NWIP), sy'n cynnwys swyddogion o bob rhan o'r sector cyhoeddus ac yn cysylltu sefydliadau a chymunedau ar draws y rhanbarth. Mae NWIP yn annog gwaith partneriaeth rhanbarthol i alinio blaenoriaethau a nodi cyfleoedd ar draws y Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus, y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol, a Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru.

Mae Llywodraeth Cymru yn darparu Grant Cymorth Rhanbarthol BGC Gogledd Cymru sy'n cael ei reoli gan Gyngor Gwynedd ar ran BGCau y rhanbarth. Diben y cymorth hwn yw annog cydweithio ag arloesi rhwng y tri BGC. Mae'r grant hwn yn cefnogi datblygiad rhai dulliau arloesol o ymgysylltu a chyd-gynhyrchu, sydd eisoes wedi helpu i gefnogi cyflawni'r amcanion llesiant lleol.

Mae Rhwydwaith Cynhyrchu Cymru yn darparu cefnogaeth hirdymor ar gyfer ymgysylltu a chyd-gynhyrchu ar draws Gogledd Cymru. Mae'r BGC yn defnyddio cefnogaeth y Rhwydwaith hwn i helpu i ymgysylltu'n lleol gyda chymunedau.

4.4.3 **Monitro:**

Mae'r Is-grŵp Iaith a'r grwpiau Tasg a Gorffen a nodwyd uchod yn atebol i'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus mewn perthynas â chyflawni unrhyw waith a gomisiynir. Maent yn diweddaru'r Bwrdd ar gynnydd yn chwarterol, ac yn ystod y cyfarfodydd ceir her a thrafodaeth ar yr adroddiadau o gynnydd maent yn eu cyflwyno. Mae gan dîm cefnogi'r Bwrdd hefyd rôl i'w chwarae rhwng cyfarfodydd i gefnogi a chynnal y gwaith. Hefyd cyhoeddir adroddiad blynyddol sy'n crynhoi cynnydd wrth i'r Bwrdd weithio tuag at gyflawni ei amcanion strategol.

Mae gwaith y Bwrdd yn cael ei wirio'n gyson gan Bwyllgorau Craffu Cyngor Gwynedd a Chyngor Sir Ynys Môn. Mae'r Ddeddf Llesiant a'r canllawiau cenedlaethol cysylltiedig yn nodi 3 rôl ar gyfer pwyllgorau craffu'r Awdurdodau Lleol wrth ddarparu atebolrwydd democrataidd i'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus:

- Adolygu trefniadau llywodraethu'r BGC
- Ymgynghorai statudol ar yr Asesiad Llesiant a'r Cynllun Llesiant
- Monitro cynnydd ymdrechion y BGC wrth weithredu'r Cynllun Llesiant

## 5. Ymgynghori

Mae'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn ymgynghori yn swyddogol gyda chymunedau ar yr Asesiadau Llesiant yn ogystal a'r Cynllun Llesiant. Rydym hefyd yn cynnal sesiynau ymgysylltu gyda grwpiau cymunedol ag ysgolion (gweler pwynt 4.4.1).

**6. Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015**

Mae Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwynedd a Môn yn gweithredu yn unol â saith egwyddor arweiniol. Mae pump o'r rhain yn cydymffurfio â'r **pum ffordd o weithio** a amlinellir yn y Ddeddf (Tymor Hir, Atal, Cydweithio, Integreiddio a Cynnwys) a dau wedi eu hychwanegu gan y Bwrdd yn lleol (Iaith Gymraeg a lleihau anghydraddoldeb). Bydd yr egwyddorion yma yn ein helpu i gydweithio'n well, osgoi ailadrodd camgymeriadau'r gorffennol ac yn mynd i'r afael â rhai o'r heriau yr ydym yn eu hwynebu i'r dyfodol.

6.1 A ydych wedi **cynnwys** trigolion / defnyddwyr gwasanaeth? Os ddim, pryd a sut ydych yn bwriadu ymgynghori â nhw?

Mae gan ein trigolion a'n cymunedau rôl bwysig i'w chwarae wrth gynllunio gwasanaethau ar gyfer y dyfodol a byddwn yn sicrhau bod eu safbwyntiau a'u profiadau'n ganolog i'r broses o gynllunio gwaith y Bwrdd. Byddwn yn mabwysiadu'r Safonau Cyfranogi Cenedlaethol ar gyfer pob oedran ac yn sicrhau bod y Bwrdd yn gweithio o fewn y safonau hynny. Byddwn yn sicrhau bod pobl yn gallu cyfathrebu â'r Bwrdd yn eu hiaith a'u cyfrwng o'u dewis.

6.2 A ydych wedi ystyried **cydweithio**?

Byddwn yn ceisio cael gwared â'r rhwystrau sy'n atal cydweithio effeithiol. Byddwn hefyd yn rhannu gwybodaeth ac arfer dda rhwng aelodau'r Bwrdd a'n trigolion am yr hyn sy'n cael ei wneud i wireddu amcanion a blaenoriaethau. Byddwn yn ystyried aelodaeth y Bwrdd yn rheolaidd ac yn sicrhau bod y partneriaid cywir yn cael eu cynnwys er mwyn cyflawni ein hamcanion.

6.3 Beth sydd wedi ei wneud neu bydd yn cael ei wneud i **atal** problemau rhag codi neu waethygu yn y dyfodol?

Byddwn yn defnyddio data tueddiadau i adnabod y problemau fydd yn wynebu ein cymunedau yn y dyfodol ac yn datblygu a gweithredu cynlluniau i'w hatal. Byddwn yn cydweithio gyda chymunedau i'w galluogi i wneud mwy i atal problemau rhag datblygu a chefnogi rhaglenni all wneud gwahaniaeth go iawn yn y tymor hir.

6.4 Sut ydych wedi ystyried yr **hirdymor** a beth fydd anghenion pobl mewn blynyddoedd i ddod?

Byddwn yn parhau i gasglu data i gael gwell dealltwriaeth o sut mae cymunedau yn edrych ar hyn o bryd, a sut y byddant yn edrych yn y dyfodol o ganlyniad i ffactorau fel newid demograffeg. Byddwn hefyd yn edrych i weld pa newidiadau cenedlaethol a rhyngwladol sydd ar y gorwel a cheisio dadansoddi'r effaith ar ein cymunedau ni. Drwy hyn gallwn gydweithio fel partneriaid a thrigolion i gynllunio'r gwasanaethau fydd eu hangen ar gyfer y dyfodol.

6.5 Er mwyn sicrhau **integreiddio**, a ydych wedi ystyried yr effaith bosib ar gyrff cyhoeddus eraill?

Byddwn yn gweithredu mewn ffordd fydd yn cyfrannu at fwy nag un amcan ble bo'n briodol ac yn unol ag amcanion llesiant cenedlaethol Llywodraeth Cymru. Byddwn

yn ceisio integreiddio gwasanaethau os bydd tystiolaeth yn dangos y byddai hyn yn sicrhau'r canlyniadau gorau i'n cymunedau. Byddwn yn ystyried strategaethau a chynlluniau lleol a rhanbarthol eraill sy'n gweithio tuag at yr un amcanion neu amcanion tebyg ac yn cydweithio er mwyn eu cyflawni.

**7. Effaith ar Nodweddion Cydraddoldeb, y Gymraeg a'r Dyletswydd Economaidd-Gymdeithasol**

Cynhaliwyd asesiad effaith gynhwysfawr wrth fabwysiadu'r Cynllun Llesiant yn 2023. Roedd yn cynnwys effaith ar nodweddion cydraddoldeb, y Iaith Gymraeg a'r dyletswydd economaidd-gymdeithasol (Deddf Cydraddoldeb 2010). Rydym yn cefnogi partneriaid y Bwrdd gyda Asesiadau Effaith fel bo'r angen.

**8. Camau Nesaf**

Yn dilyn adrodd i'r Pwyllgor Craffu Cymunedau bydd yr adroddiad yn cael ei rannu gyda Aelodau'r Bwrdd gyda unrhyw argymhellion. Bydd yr adroddiad hefyd yn cael ei rannu gyda Pwyllgor Sgrwtini Cyngor Sir Ynys Môn.

**Gwybodaeth Cefndir**

**Atodiadau**

Iaith Gymraeg:
2024.09.09 - Adroddiad Terfynol Cynllunio Gweithlu Dwyieithog - Cym - Glân.docx

Safle Tîm Uned Partneriaethau - Newydd Denu ymgeiswyr â sgiliau Cymraeg (4).pdf - Pob Dogfen

Pwysau Iach:
22146-Healthy_Weight_Whole_System_Approach_Structure_paper-CY.docx
Siarter Teithio:

PDF
HTC North Wales 230303-1 cy.pdf

Adnoddau i gefnogi cynghorau - CLILC

Asesiad Risg Newid Hinsawdd:
PSB _ targedau net sero.pptx

Prosiect Niwbwrch:

PDF
PSB Newborough Hackathons Report M

Amcan Plant:
Cymru-syn-Ystyriol-o-Drawma.pdf (traumaframeworkcymru.com)

Naratif Cymunedol Porthmadog:
*Porthmadog Report.pdf*

| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | PWYLLGOR CRAFFU CYMUNEDAU |
| **DYDDIAD** | 23 Ionawr 2025 |
| **TEITL** | Blaenraglen Pwyllgor Craffu Cymunedau |
| **PWRPAS YR ADRODDIAD** | Mabwysiadu rhaglen waith diwygiedig ar gyfer 2024/25 |
| **AWDUR** | Bethan Adams, Ymgynghorydd Craffu |

1. Mabwysiadwyd Blaenraglen diwygiedig ar gyfer 2024/25 yng nghyfarfod y Pwyllgor ar 7 Tachwedd 2024.

2. Roedd yr eitem ‘Cynllun Datblygu Lleol Newydd – Dewisiadau Strategol, Gweledigaeth ag Amcanion’ wedi ei raglennu i’w drafod yn y cyfarfod yma.

3. Derbyniwyd cais i lithro’r eitem a’i nodi fel eitem i’w raglennu yn ystod 2025/26. Mae gwaith ar y weledigaeth, prif faterion ac amcanion wedi ei gwblhau gyda gwaith i’w wneud ar y dewisiadau strategol. Mi fydd y gwaith yn ymwneud â’r dewisiadau strategol yn golygu cryn dipyn o waith ymchwil, gan gynnwys ystyried data gan Lywodraeth Cymru megis rhagamcanion twf aelwydydd. Nid yw’r data perthnasol wedi ei gyhoeddi hyd yn hyn.

4. Yn dilyn ymgynghori gyda’r Cadeirydd, cytunwyd i’r cais er mwyn sicrhau bod craffu yn digwydd yn amserol ac yn gallu ychwanegu gwerth.

5. Yn sgil hyn, golygir bod yr eitem ‘Cynllun Datblygu Lleol Newydd – Hoff Strategaeth’ yn llithro o gyfarfod 20 Mawrth 2025 ac yn yr un modd bydd yn cael ei raglennu i’w graffu yn ystod 2025/26.

6. Gweler ynghlwm fel atodiad i’r adroddiad, rhaglen waith diwygiedig ar gyfer 2024/25.

7. **Gofynnir i’r Pwyllgor Craffu Cymunedau fabwysiadu rhaglen waith diwygiedig ar gyfer 2024/25.**

ATODIAD

## BLAENRAGLEN PWYLLGOR CRAFFU CYMUNEDAU 2024/25

| Dyddiad | Eitemau | Rheswm dros graffu |
|---|---|---|
| **16/5/24** | • Cyfarwyddyd Erthygl 4 – Ymgynghoriad Cyhoeddus | Blaengraffu / Cynllun y Cyngor 2023-28 - Gwynedd Glyd |
| | • Clwyf Gwywiad yr Onnen | Mater ar y gofrestr risg |
| **12/9/24** | • Ffioedd Parcio | Blaengraffu |
| | • Datblygiadau yn y maes Cludiant Cyhoeddus | Cynllun y Cyngor 2023-28 - Gwynedd Werdd |
| | • Gwasanaethau Casglu Gwastraff ac Ailgylchu | Cynllun y Cyngor 2023-28 - Gwynedd Werdd |
| | • Gorchmynion Rheoli Cŵn | Sicrwydd o ran gweithrediad |
| **7/11/24** | • Cynllunio a Chymunedau Cymraeg | Sicrwydd o ran gweithrediad |
| **23/1/25** | • Diweddariad Blynyddol gan Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol Gwynedd a Môn | Rôl y Pwyllgor fel Pwyllgor Trosedd ac Anrhefn |
| | • Cynllun Argyfwng Hinsawdd a Natur: Adroddiad Blynyddol 2023/24 | Cynllun y Cyngor 2023-28 - Gwynedd Werdd |
| | • Adroddiad Cynnydd Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwynedd ac Ynys Môn | Rôl y Pwyllgor i graffu gwaith y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus |
| **20/3/25** | • Cyflwyno pwyntiau gwefru cyhoeddus ar gyfer cerbydau trydan | Cynllun y Cyngor 2023-28 - Gwynedd Werdd |
| | • Toiledau Cyhoeddus | Blaengraffu / Dilyniant yn dilyn craffu yng nghyfarfod 5 Hydref 2023 |
| | • Torri Gwair a Chynnal Ymylon Ffyrdd Sirol | Dilyniant yn dilyn craffu yng nghyfarfod 22 Chwefror 2024 |

**Eitemau i'w rhaglennu yn 2025/26 -** Gwasanaeth Edrychiad Stryd; Clwyf Gwywiad yr Onnen; Cynllun Datblygu Lleol Newydd – Dewisiadau Strategol Gweledigaeth ag Amcanion; Cynllun Datblygu Lleol Newydd – Hoff Strategaeth

| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | PWYLLGOR CRAFFU CYMUNEDAU |
| **DYDDIAD** | 23 Ionawr 2025 |
| **TEITL** | Cyfarfod Herio Perfformiad Amgylchedd |
| **PWRPAS YR ADRODDIAD** | I enwebu cynrychiolwyr i fynychu cyfarfod herio perfformiad yr Adran Amgylchedd |
| **AWDUR** | Bethan Adams, Ymgynghorydd Craffu |

1. Mae cyfarfodydd herio perfformiad yn cael eu cynnal bob yn ail fis (ac eithrio mis Ebrill a mis Awst), fesul maes gwaith adrannau'r Cyngor. Ystyrir diweddariad ar y prosiectau blaenoriaeth sydd wedi eu cynnwys yng Nghynllun y Cyngor, mesurau perfformiad 'dydd i ddydd' ynghyd â'r gofrestr risg.

2. Rhoddir gwahoddiad i gynrychiolwyr y pwyllgorau craffu i fynychu cyfarfodydd dwywaith y flwyddyn.

3. Mae cynrychiolwyr y pwyllgorau craffu yn cael gwahoddiad er mwyn:

   - Cael blas o faint o afael sydd ar faterion perfformiad o fewn yr adrannau unigol.
   - Adnabod, os oes angen, unrhyw faterion perfformiad allai deilyngu sylw mewn pwyllgor craffu ffurfiol maes o law.

4. Disgwylir i'r cynrychiolwyr adrodd yn ôl i'r cyfarfod anffurfiol cyntaf o'r pwyllgor craffu perthnasol yn dilyn y cyfarfodydd hyn.

5. Nid yw'r aelodau oedd yn cynrychioli'r Pwyllgor yng nghyfarfodydd Herio Perfformiad Amgylchedd yn aelodau o'r pwyllgor bellach. Mae'r Cynghorydd Rhys Tudur wedi sefyll i lawr ac yn dilyn ei phenodiad yn Aelod Cabinet Gwasanaethau Corfforaethol nid yw'r Cynghorydd Llio Elenid Owen yn aelod o'r Pwyllgor mwyach.

6. Felly, mae angen enwebu aelodau i gynrychioli'r pwyllgor yng nghyfarfod Herio Perfformiad Amgylchedd am 9.30yb, dydd Mercher, 26 Mawrth 2025 dros Microsoft Teams. Dyma gyfarfod olaf i gynrychiolwyr o'r Pwyllgor Craffu Cymunedau fod yn bresennol cyn i'r trefniadau o graffu perfformiad yng nghyfarfodydd ffurfiol y Pwyllgor gychwyn yn 2025/26.

7. **Gofynnir i'r Pwyllgor Craffu Cymunedau enwebu dau aelod i gynrychioli'r pwyllgor yng Nghyfarfod Herio Perfformiad Amgylchedd ar 26 Mawrth 2025.**